**EITEM RHIF 3**

| BWRDD RHEOLI PLAS TAN Y BWLCH<br>DYDD MERCHER 14 TACHWEDD 2018 | |
|---|---|
| | <u>**Presennol:**</u><br><br>**Aelodau:**<br>Cyng. Freya Bentham<br>Mr. Ceri Stradling (Cadeirydd)<br>Ms. Tracey Evans<br>Mr. Emyr Williams<br>Mr. Iwan Jones<br>Mr. Andrew Oughton<br><br>**Yn mynychu:**<br>Mr. Owain Wyn (ex-officio)<br><br>**Swyddogion:**<br>Ms. Naomi Jones, Mrs Sarah Roberts. |
| 1. | **Ymddiheuriadau** |
| | Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| 2. | **Datgan Diddordeb** |
| | Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Ddiddordeb Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem. |
| 3. | **Cofnodion** |
| | Yn ddarostyngedig y cofnodir bod Mr. Owain Wyn yn bresennol yn y cyfarfod, derbyniwyd cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 26 Medi 2018, a llofnododd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir. |
| 4. | **Cofnod Gweithredu** |
| | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y Cofnod Gweithredu. Rhoddodd yr Aelodau a Swyddogion ystyriaeth fanwl i'r Cofnod Gweithredu.<br><br><u>Cyfarfod 25.04.18:</u><br><u>Eitem Gweithredu 4 - Diweddariad Ariannol</u><br>Roedd y weithred hon bellach wedi'i chwblhau a gellid ei symud o'r Cofnod Gweithredu.<br><u>Eitem Gweithredu 5 – Adroddiad Marchnata Plas Tan y Bwlch</u><br>Roedd y weithred hon bellach wedi'i chwblhau a gellid ei symud o'r Cofnod Gweithredu. |

| | |
|---|---|
| | <u>Cyfarfod 06.06.18:</u><br><u>Eitem Gweithredu 8 - Strategaeth Marchnata Plas Tan y Bwlch</u><br>Roedd y weithred hon bellach wedi'i chwblhau a gellid ei symud o'r Cofnod Gweithredu.<br><br><u>Cyfarfod 26.09.18:</u><br><u>Eitem Gweithredu 4 – Cofnod Gweithredu</u><br>Roedd y weithred hon bellach wedi'i chwblhau a gellid ei symud o'r Cofnod Gweithredu.<br><u>Eitem Gweithredu 5 – Perfformiad</u><br>Roedd y weithred hon bellach wedi'i chwblhau a gellid ei symud o'r Cofnod Gweithredu<br><u>Eitem Gweithredu 6 – Strategaeth Marchnata</u><br>Dywedodd y Pennaeth Busnes y bydd Adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Awdurdod maes o law.<br><u>Eitem Gweithredu 9 – Strategaeth Codi Tâl</u><br>Roedd y weithred hon bellach wedi'i chwblhau a gellid ei symud o'r Cofnod Gweithredu.<br><br>**GWEITHRED: nodi'r Cofnod Gweithredu a dileu'r camau gweithredu fel yr amlinellwyd.** |
| 5. | **Perfformiad Plas Tan y Bwlch** |
| | Cyflwynodd y Pennaeth Busnes yr adroddiad a rhoddodd fanylion am berfformiad y Ganolfan hyd yma ym mlwyddyn ariannol 2018/2019. Nododd yr Aelodau y dylid cywiro Tabl 1 - amlygwyd fod y golofn yn cyfeirio at Ebrill-Hyd 2018 ac nid Ebrill-Hyd 2017.<br><br>Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion yr adroddiad yn fanwl a gwneud y sylwadau a ganlyn:<br>- Cytunodd yr Aelodau a'r Swyddogion bod cynllun ariannol yn gosod incwm realistig yn cael ei baratoi ar gyfer cyfarfod nesaf o fwrdd Plas Tan y Bwlch.<br>- yn y dyfodol dylai adroddiadau gan y Pennaeth Busnes gynnwys crynodeb i'r aelodau o'r sefyllfa a chynnwys colofnau ychwanegol i gymharu ffigurau incwm a gwariant a nodi unrhyw weithgareddau ychwanegol a ymgymerwyd â hwy. Cytunodd y Pennaeth Busnes y byddai yn anfon e-bost i'r aelodau ychydig o ddyddiau cyn y cyfarfod gyda diweddariad o'r ffigyrau.<br>- trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion y gostyngiad mewn incwm a pha mor hyderus oedd swyddogion y gellid cyflawni'r un lefel incwm y flwyddyn nesaf.<br>- dywedodd y Pennaeth Busnes ei fod yn dal i weithio gydag adran TG yr Awdurdod ar y system archebu newydd ar gyfer archebion ar-lein. Bydd hyn yn caniatáu i'r Pennaeth Busnes adrodd yn gywir ar berfformiad y Ganolfan.<br>- cynghorodd y Pennaeth Busnes yr Aelodau ynghylch cyfarfod diweddar gyda Mr. John McGrath i drafod gwaith partneriaeth posibl gyda'r YHA. Codwyd pryderon ynghylch sut y gallai defnyddio statws YHA effeithio ar geisiadau grant a phrisio ar lety.<br><br>**GWEITHRED**<br>**1. nodi'r adroddiad.**<br>**2. aros am adroddiad pellach i gyfarfod nesaf Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch ar 6 Chwefror, 2019.** |

| | |
|---|---|
| 6. | **Datblygiadau yn y Dyfodol** |
| | Rhoddodd y Pennaeth Busnes ddiweddariad llafar ar ddatblygiadau'r dyfodol yn y Ganolfan.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Busnes y disgwylir am adroddiad pellach gan y Pensaer a byddai'n cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Chwefror 2019. Cadarnhaodd y Pennaeth Busnes fod y gwaith arfaethedig i'w gwblhau erbyn y gaeaf nesaf.<br><br>**GWEITHRED nodi'r adroddiad llafar ac aros am adroddiad y Pensaer fel yr amlinellwyd.** |
| 7. | **Strategaeth Codi Tâl** |
| | Cyflwynodd y Pennaeth Busnes yr adroddiad yn rhoi manylion i'r Aelodau am y newidiadau arfaethedig i'r taliadau a godir o 2019 ymlaen.<br><br>Amlinellodd y Pennaeth Busnes y prif bwyntiau a rhoddodd yr Aelodau a'r Swyddogion ystyriaeth fanwl i'r adroddiad.<br><br>**GWEITHRED**<br>**1. cymeradwyo'r taliadau atodol ar gyfer Ebrill 2019 ymlaen.**<br>**2. cynyddu'r tâl a godir am Archeb Grwpiau o 5% ychwanegol yn 2020 a chynnig disgownt ar gyfer archebion y tu allan i'r tymor.** |
| 8. | **Perfformiad Yr Ystafell De** |
| | Cyflwynodd y Pennaeth Busnes yr adroddiad i roi manylion i'r Aelodau am berfformiad Yr Ystafell De a'r Gerddi yn 2018 o'i gymharu â 2017.<br><br>Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion yr adroddiad a gwneud y sylwadau a ganlyn:<br>- cadarnhaodd y Pennaeth Busnes fod y cynnydd mewn incwm yn sefydlog cyn ac ar ôl mynediad am ddim i'r gerddi.<br>- dywedodd y Pennaeth Busnes pe bai'r Aelodau'n cytuno i ymestyn mynediad am ddim i'r gerddi am flwyddyn arall, byddai'n cael ei hyrwyddo cyn gynted ag y bo modd wrth baratoi ar gyfer tymor 2019.<br><br>**GWEITHRED: ymestyn mynediad am ddim i'r gerddi yn ystod tymor 2019 ac i adolygu'r sefyllfa ar gyfer y flwyddyn ganlynol.** |
| 9. | **Priodasau ac Achlysuron Arbennig** |
| | Cyflwynodd y Pennaeth Busnes yr adroddiad a oedd yn rhoi manylion costau a thaliadau ar gyfer priodasau ac achlysuron arbennig.<br>Rhoddwyd manylion pellach i'r Aelodau am y gwahanol becynnau priodas a dosbarthwyd taflen briodas ddrafft yn y cyfarfod.<br><br>Trafododd yr Aelodau'r adroddiad a gwneud y sylwadau a ganlyn:<br>- Bu'r aelodau a'r swyddogion yn trafod nifer y priodasau y gellid eu cynnal bob blwyddyn.<br>- Cytunwyd y dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau nad yw pwrpas sylfaenol Plas fel Canolfan Addysg yn cael ei golli.<br>- Trafododd Aelodau a Swyddogion y posibilrwydd o ddefnyddio Yr Ysgwrn i gynnal cyrsiau i ryddhau capasiti yn y Plas. |

| | |
|---|---|
| | - Cytunodd yr Aelodau y dylid penderfynu a fyddai incwm o briodasau ac achlysuron arbennig yn ddigonol i helpu Plas i gwrdd â thargedau ariannol.<br><br>**GWEITHRED: aros am adroddiad pellach i gyfarfod nesaf o Fwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch ar 6 Chwefror, 2019.** |

**Daeth y cyfarfod i ben am 13:20**

**EITEM RHIF 4**

| | |
|---|---|
| **BWRDD RHEOLI PLAS TAN Y BWLCH<br>DYDD MERCHER 5 MEHEFIN 2019** | |
| | <u>**Presennol:**</u><br><br>**Aelodau:**<br>Cyng. Freya Bentham<br>Mr. Ceri Stradling (Cadeirydd)<br>Ms. Tracey Evans<br>Mr. Emyr Williams<br>Mr. Iwan Jones<br>Mr. Andrew Oughton<br><br>**Yn bresennol:**<br>Mr Rhys Davies – Pensaernïaeth Rhys Davies Architecture<br><br>**Swyddogion:**<br>Mrs Sarah Roberts, Miss Zara Roberts. |
| 1. | **Cadeirydd** |
| | Etholwyd Mr. Ceri Stradling yn Gadeirydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch. Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.<br><br>Dywedodd Ms. Tracey Evans am ei phenderfyniad i ymddiswyddo fel Aelod o Fwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch. |
| 2. | **Ymddiheuriadau** |
| | Mr. Neil Martinson. |
| 3. | **Datgan Diddordeb** |
| | Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o Fuddiant Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem. |
| 4. | **Cofnodion** |
| | Derbyniwyd cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2019, a llofnododd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir. |
| 5. | **Cofnod Gweithredu** |
| | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y Cofnod Gweithredu ac fe ystyriodd yr Aelodau a'r Swyddogion hyn yn fanwl.<br><br><u>Cyfarfod 25.04.18</u><br><u>Cam Gweithredu 6: Datblygiadau yn y Dyfodol</u><br>Roedd y cam gweithredu hwn bellach wedi'i gwblhau a gellid ei ddileu o'r Cofnod Gweithredu. |

| | |
|---|---|
| | Cyfarfod 06.06.18<br>Cam Gweithredu 5: Diweddariad Ariannol<br>Roedd y cam gweithredu hwn bellach wedi'i gwblhau a gellid ei ddileu o'r Cofnod Gweithredu.<br><br>Cam Gweithredu 6: Adolygiad o Blas Tan y Bwlch<br>Mae'r cam gweithredu hwn bellach wedi'i gwblhau a gellid ei ddileu o'r Cofnod Gweithredu.<br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y dylai contractau gwasanaeth a marchnata digidol fod yn bwyntiau gweithredu gan fod y gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.<br><br>Cam Gweithredu 7: Datblygiadau yn y Dyfodol<br>Roedd y cam gweithredu hwn bellach wedi'i gwblhau a gellid ei ddileu o'r Cofnod Gweithredu.<br><br>Cyfarfod 26.07.18<br>Cam Gweithredu 3: Strategaeth Farchnata a Chynllun Gweithredu<br>Roedd y cam gweithredu hwn bellach wedi'i gwblhau a gellid ei ddileu o'r Cofnod Gweithredu.<br><br>Cyfarfod 14.11. 18<br>Gweithred 5: Perfformiad Plas Tan y Bwlch<br>Roedd y cam gweithredu hwn bellach wedi'i gwblhau a gellid ei ddileu o'r Cofnod Gweithredu.<br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y dylai gwaith ar y system archebu ar-lein newydd barhau fel cam gweithredu gan fod y gwaith yn parhau i fynd rhagddo.<br>Cam Gweithredu 6: Datblygiadau yn y Dyfodol<br>Roedd y cam gweithredu hwn bellach wedi'i gwblhau a gellid ei ddileu o'r Cofnod Gweithredu.<br><br>Cyfarfod 06.02.19<br>Cam Gweithredu 4: Cofnod Gweithredu<br>Roedd y cam gweithredu hwn bellach wedi'i gwblhau a gellid ei ddileu o'r Cofnod Gweithredu.<br><br>Gweithred 5: Perfformiad Plas Tan y Bwlch<br>Roedd y cam gweithredu hwn bellach wedi'i gwblhau a gellid ei ddileu o'r Cofnod Gweithredu.<br>Cam Gweithredu 8: Gweithio gyda'r YHA<br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, er nad oedd y cam gweithredu wedi'i gwblhau yn ôl yr angen, y gellid ei ddileu o'r Cofnod Gweithredu gan fod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod<br>.<br>**GWEITHRED**<br>**1. nodi'r Cofnod Gweithredu a dileu'r camau gweithredu a amlinellwyd.** |
| 6. | **Perfformiad Plas Tan y Bwlch** |
| | Cyflwynodd y Pennaeth Busnes yr adroddiad yn rhoi manylion perfformiad y Ganolfan hyd yma (blwyddyn ariannol 2018/2019). |

| | |
|---|---|
| | Ystyriodd yr Aelodau a'r Swyddogion yr adroddiad yn fanwl gan wneud y sylwadau canlynol:<br>- Roedd yr Aelodau'n pryderu nad oedd y ffigurau alldro yn cael eu darparu yn yr adroddiad. Ymddiheurodd y Pennaeth Busnes fod y ffigurau wedi bod yn gamarweiniol yn yr adroddiad blaenorol oherwydd cell gudd yn y daenlen.<br>- Trafododd yr Aelodau y methiannau yn y system. Cadarnhaodd y Pennaeth Busnes y byddai'r system newydd yn fwy dibynadwy na'r system bresennol<br>- Cytunodd yr Aelodau y dylai'r Bwrdd gael sefyllfa gyfredol ar ffigurau ar gyfer dilyniant a chael mynegiant o hynny pan nad yw pethau'n mynd yn unol â'r hyn a gynlluniwyd. Cytunodd y Pennaeth Busnes i anfon e-bost ar ddiwedd pob mis at Aelodau'r Bwrdd yn darparu'r ffigurau diweddaraf.<br>- dylai adroddiadau yn y dyfodol gynnwys busnes a gynhyrchir bob mis a gwariant misol<br>**GWEITHRED:**<br>**1. nodi'r adroddiad.**<br>**2. aros am adroddiad pellach i gyfarfod nesaf o Fwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch ar 25 Medi 2019.**<br>**3. y Pennaeth Busnes i anfon e-bost ar ddiwedd pob mis at Aelodau'r Bwrdd yn rhoi sefyllfa gyfredol iddynt ar ffigurau.** |
| 7. | **Costau Rhedeg** |
| | Cyflwynodd y Pennaeth Busnes yr adroddiad i roi manylion i'r aelodau am gostau rhedeg dyddiol y Ganolfan ac ymddiheurodd am y gwall fformatio yn Atodiad 1. Dosbarthwyd copi diwygiedig i'r aelodau.<br><br>Amlinellodd y Pennaeth Busnes y prif bwyntiau ac ystyriodd yr Aelodau a'r Swyddogion yr adroddiad yn fanwl.<br><br>Yn codi wedi hynny, cytunodd yr aelodau a'r Swyddogion y dylid darparu mwy o wybodaeth i ganiatáu i aelodau'r Bwrdd roi ystyriaeth lawn iddo. Trafododd yr Aelodau y budd o gael cyllidebau ar wahân ar gyfer dibenion argraffu a marchnata.<br><br>**GWEITHRED: aros am adroddiad pellach i gyfarfod nesaf Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch ar 25 Medi 2019.** |
| 8. | **Marchnata Digidol** |
| | Cyflwynodd yr Uwch Gynorthwy-ydd Gweinyddol yr adroddiad yn rhoi manylion Marchnata Digidol a Digwyddiadau'r Ganolfan.<br><br>Croesawodd yr Aelodau a'r Swyddogion yr adroddiad a gwnaethant y sylwadau canlynol:<br>- Trafododd yr aelodau a'r swyddogion y defnydd o'r opsiwn 'Hyrwyddo'r Post' 'Boost Post 'ar Facebook, sy'n caniatáu ar gyfer rhannu'r post i gynulleidfa eang / darged.<br>- Cytunodd yr Aelodau mai marchnata digidol a'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol oedd y ffordd ymlaen er mwyn targedu cynulleidfa yn y dyfodol.<br>- Trafododd yr Aelodau ffyrdd o gyflawni cyfranogiad cymunedol.<br>- Cytunodd yr Aelodau a'r Swyddogion ar bwysigrwydd darparu hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol i staff. Cadarnhaodd y Pennaeth Busnes y byddai staff yn derbyn hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol maes o law.<br><br>Diolchodd yr Aelodau a'r Swyddogion i'r Uwch Gynorthwy-ydd Gweinyddol am ei hadroddiad. |

| | |
|---|---|
| | **GWEITHRED:**<br>**1. nodi'r adroddiad.**<br>**2. yr Uwch Gynorthwy-ydd Gweinyddol i fynychu cyfarfodydd o Fwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch ar yn ail.** |
| 9. | **Datblygiadau yn y Dyfodol** |
| | Cyflwynodd y Pennaeth Busnes yr adroddiad a rhoi diweddariad i'r aelodau ar Gynlluniau'r Penseiri ar gyfer datblygiadau yn y Ganolfan yn y dyfodol.<br><br>Cyflwynodd y Pennaeth Busnes Mr. Rhys Llwyd Davies, y Pensaer i aelodau'r Bwrdd.<br>Rhoddodd Mr Davies gyflwyniad byr ar gefndir y cynigion ar gyfer ailddatblygu'r anecs ac uwchraddio ystafelloedd gwely'r prif dŷ.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i Mr. Davies am ei gyflwyniad.<br><br>Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion y cynigion yn fanwl gan wneud y sylwadau canlynol:<br>- trafododd yr aelodau yr amserlenni arfaethedig ar gyfer y datblygiadau.<br>- Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol mai'r gobaith oedd gwneud y gwaith mewn rhannau parthol yn ystod misoedd y gaeaf.<br>- gofynnodd yr aelodau a'r swyddogion i gost y datblygiadau gael eu cyflwyno i'r Bwrdd cyn gynted â phosibl. Cytunodd y Pensaer i fynd ymlaen i gael cost y datblygiadau arfaethedig.<br><br>**GWEITHRED:**<br>**1. Croesawodd yr Aelodau a'r Swyddogion yr adroddiad.**<br>**2. y Pensaer i gyflwyno cost y datblygiadau a symud ymlaen gyda chais cynllunio erbyn cyfarfod nesaf Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch ar 25 Medi 2019.**<br>**3. y Pennaeth Busnes i fwrw ymlaen ac edrych i mewn i'r gwahanol gyllid grant sydd ar gael ar gyfer y datblygiadau erbyn cyfarfod nesaf Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch.**<br>**4. aros am adroddiad pellach i gyfarfod nesaf Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch ar 25 Medi 2019.** |
| 9 A. | **Datblygiadau yn y Dyfodol - Natural Land** |
| | Cyflwynodd y Pennaeth Busnes yr adroddiad yn rhoi manylion i'r Aelodau am y cynlluniau a dderbyniwyd gan Natural Land ac ymddiheurodd am gyflwyno'r adroddiad yn hwyr gan mai dim ond ar y dydd Gwener blaenorol yr oedd wedi'i dderbyn.<br><br>Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y cefndir i'r adroddiad i'r Aelodau.<br><br>Ystyriodd yr Aelodau a'r Swyddogion y cynigion yn fanwl ac er y gallai hyn fod yn opsiwn yn y dyfodol, cytunodd nad oedd Plas mewn sefyllfa i symud ymlaen gyda'r cynigion ar hyn o bryd.<br><br>**GWEITHRED: y Pennaeth Busnes i ddiolch i Natural Land am eu cynigion ond nad oedd Plas mewn sefyllfa i fwrw ymlaen â'r cynigion ar hyn o bryd.** |

| | |
|---|---|
| 10. | **Gweithio gyda'r YHA** |
| | Cyflwynodd y Pennaeth Busnes yr adroddiad yn rhoi manylion i'r aelodau am y potensial o greu incwm o weithio gyda'r YHA. Hysbysodd y Pennaeth Busnes y Bwrdd fod Mr. John McGrath wedi ymddiheuro gan ei fod i ffwrdd ar wyliau ar hyn o bryd.<br><br>Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion gynnwys yr adroddiad yn fanwl.<br><br>**GWEITHRED: nodi'r adroddiad.** |

**Daeth y cyfarfod i ben am 15:50**

**EITEM RHIF 4**

| BWRDD RHEOLI PLAN TAN Y BWLCH<br>DYDD MERCHER 16 HYDREF 2019 | |
|---|---|
| | **<u>Presennol:</u>**<br><br>**Aelodau:**<br>Cyng. Freya Bentham<br>Ms. Tracey Evans<br>Mr. Emyr Williams<br>Mr. Iwan Jones<br>Mr. Andrew Oughton<br><br>**Yn mynychu:**<br>Cyng. Wyn E. Jones (ex-officio)<br>Mr Rhys Davies - Pensaernïaeth Rhys Davies Architecture<br><br>**Swyddogion:**<br>Mrs Anwen Gaffey, Mrs Sarah Roberts. |
| 1. | **Ymddiheuriadau** |
| | Mr. Neil Martinson. |
| 2. | **Datgan Diddordeb / Buddiant** |
| | Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o Ddiddordeb / Fuddiant Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem. |
| 3. | **Cadeirydd** |
| | Etholwyd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Mr Iwan Jones, yn Gadeirydd ar Fwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig.<br><br>Cytunodd yr Aelodau a'r Swyddogion i ohirio ethol y Cadeirydd tan y cyfarfod nesaf o Fwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch pan fydd yr holl Aelodau'n bresennol. |
| 4. | **Cofnodion** |
| | Derbyniwyd cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2019, a llofnododd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir. |
| 5. | **Cofnod Gweithredu** |
| | Cyflwynodd y Pennaeth Busnes y Cofnod Gweithredu ac fe ystyriodd yr Aelodau hwn yn fanwl.<br><br><u>Cyfarfod 06.06.18</u><br><u>Cam Gweithredu 6: Adolygiad Plas Tan y Bwlch</u><br>Dywedodd y Pennaeth Busnes fod y Cam Gweithredu ar “oriau agor yr Ystafell De” bellach wedi'i gwblhau ac y gellid ei dynnu oddi ar y Cofnod Gweithredu.<br>Cyfarfod <u>05.06.2019</u> |

| | |
|---|---|
| | Cam Gweithredu 7: Costau Rhedeg<br>Roedd y cam gweithredu hwn bellach wedi’i chwblhau a gellid ei dynnu oddi ar y Cofnod Gweithredu.<br><br>Cam Gweithredu 8: Marchnata Digidol<br>Roedd y cam gweithredu hwn bellach wedi’i chwblhau a gellid ei dynnu oddi ar y Cofnod Gweithredu.<br><br>Cam Gweithredu 9: Datblygiadau’r Dyfodol<br>Roedd cyflwyniad y Pensaer wedi’i gwblhau a gellid ei dynnu oddi ar y Cofnod Gweithredu.<br><br>Cam Gweithredu 9A: Datblygiadau’r Dyfodol<br>Roedd y cam gweithredu hwn bellach wedi’i chwblhau a gellid ei dynnu oddi ar y Cofnod Gweithredu.<br><br>Trafododd yr aelodau yr angen i fabwysiadu strategaeth ariannu ar gyfer Plas Tan y Bwlch. Mae angen sefydlu argaeledd cronfeydd grant posibl a thrafododd yr Aelodau yr amrywiol opsiynau cyllido megis Croeso Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Cronfa Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru ac ati a hefyd Mantell Gwynedd, a allai o bosibl gyfeirio at bartneriaid cyllido. Cytunodd Tracey Evans i weithio gyda'r Pennaeth Busnes i ddod o hyd i grant posib. Cytunodd yr aelodau a’r swyddogion bod angen buddsoddi yn y cyfleusterau ac y dylid ail edrych ar y Cynllun Busnes.<br><br>**CAM GWEITHREDU:**<br>**1. nodi'r Cofnod Gweithredu a chael gwared ar y camau gweithredu fel yr amlinellwyd.**<br>**2. bod Tracey Evans a'r Pennaeth Busnes yn gweithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i gronfeydd grant posib.**<br>**3. bydd y Prif Weithredwr yn edrych i mewn i gronfa ‘Buddsoddi i Arbed’ Llywodraeth Cymru.** |
| 6. | **Adroddiad Perfformiad 2019/2020** |
| | Cyflwynodd y Pennaeth Busnes yr adroddiad gyda manylion perfformiad ariannol y Ganolfan hyd yma, a rhagolwg amlinellol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/2020 yn y dyfodol.<br><br>Ystyriodd yr Aelodau a'r Swyddogion yr adroddiad yn fanwl a gwneud y sylwadau a ganlyn:<br>- er y dangoswyd bod y diffyg am y flwyddyn yn £89,707, cytunodd y Pennaeth Busnes fod y ffigur hwn yn cynnwys yr ad-daliad TAW unwaith ac am byth o £40k<br>- roedd y Bwrdd yn teimlo bod yr adroddiad, fel y'i cyflwynwyd, yn ddryslyd ac yn aneglur a chytunodd y Pennaeth Busnes i anfon y ffigurau yn gynt yn y dyfodol, hyd yn oed os mai dim ond ar ffurf ddrafft y byddai, er mwyn caniatáu digon o amser i'r Aelodau ymgyfarwyddo â'r manylion.<br><br>**CAM GWEITHREDU:**<br>**1. nodi'r adroddiad.**<br>**2. darparu adroddiadau cliriach yn y dyfodol.** |

| | |
|---|---|
| 7. | **Costau Rhedeg** |
| | Cyflwynodd y Pennaeth Busnes yr adroddiad yn manylu ar gostau rhedeg dyddiol y Ganolfan ym mhob maes gwaith.<br><br>Cytunodd y Pennaeth Busnes y bydd adroddiadau yn y dyfodol yn darparu manylion am sut y rhennir y costau. Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion y system archebu / cyllid cyfredol a phwysleisio pwysigrwydd sefydlu system newydd ar gyfer Plas a fyddai, yn ei dro, hefyd yn darparu gwybodaeth lawer cliriach a mwy defnyddiol. Dywedodd y Pennaeth Busnes fod Adran Technoleg Gwybodaeth (TG) yr Awdurdod yn edrych ar ddau opsiwn posibl ar hyn o bryd.<br><br>**CAM GWEITHREDU:**<br>**1. sefydlu system archebu / cyllid newydd fel blaenoriaeth.**<br>**2. ail ddrafftio'r Cynllun Busnes yn unol â'r adroddiad Costau Rhedeg.**<br>**3. cyflwyno adroddiad manwl i gyfarfod mis Chwefror ar ddarparu Cyrsiau Addysg yn y Plas, ynghyd â dadansoddiad manwl o rai eraill meysydd gwaith.** |
| 8. | **Strwythur Codi Tâl** |
| | Cyflwynodd y Pennaeth Busnes yr adroddiad yn cynnig polisi codi tâl diwygiedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21.<br><br>Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion yr adroddiad a chytuno y byddai'r taliadau diwygiedig arfaethedig ar gyfer 2020/21 yn symleiddio'r strwythur codi tâl. Cytunwyd y byddai adroddiad pellach yn adolygu'r sefyllfa yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Plas ymhen blwyddyn.<br><br>**CAM GWEITHREDU:**<br>**1. nodi'r adroddiad a chytuno ar y cynnydd canrannol yn y pris sylfaenol ar gyfer 2020/21 fel yr amlinellir ym mharagraffau 3 a 5 o'r adroddiad.**<br>**2. cytuno ar lefel y gostyngiad ar gyfer 2020/21 fel yr amlinellir ym mharagraffau 2 a 4 o'r adroddiad.**<br>**3. adolygu'r sefyllfa mewn blwyddyn.** |
| 9. | **Datblygiadau'r Dyfodol** |
| | Cyflwynodd y Pennaeth Busnes yr adroddiad yn manylu ar y datblygiadau arfaethedig ym Mhlas Tan y Bwlch yn y dyfodol ac amlinellodd gost symud ymlaen. Trafododd yr aelodau e-bost yn nodi pryderon gan Mr. Neil Martinson, aelod o Fwrdd Plas Tan y Bwlch, nad oedd wedi gallu mynychu'r cyfarfod.<br><br>Cyflwynodd Mr. Rhys Davies, Pensaernïaeth Rhys Davies Architecture ei ganfyddiadau a thrafod y Cynllun Datblygu Llety sy'n nodi'r sail resymegol a'r costau sy'n gysylltiedig gydag uwchraddio'r ystafelloedd gwely presennol, trosi yr annecs i lety hostel, ail-leoli'r bar, gan greu derbynfa newydd, a chreu ystafell wely foethus newydd. Ystyriodd yr aelodau'r cynigion yn fanwl ac fe'i cynghorwyd : -<br>- Y byddai uwchraddio'r stoc bresennol o ystafelloedd gwely yn cyflawni gradd Gwesty Gwledig Tair Seren.<br>- rhagwelwyd y byddai costau trydanol oddeutu £400 yr ystafell wely. |

| | |
|---|---|
| | - byddai angen i'r Cynllun Busnes newydd gynnwys costau cynnal a chadw blynyddol.<br>- roedd y cynlluniau'n barod i'w cyflwyno i'w cymeradwyo gan gynllunio.<br>- byddai gwahanu YHA â'r Annecs yn golygu y byddai'n gwella cadernid y prif dŷ<br><br>Trafododd yr aelodau'r adroddiad yn fanwl a gwneud yr arsylwadau a ganlyn:<br>- roedd yn bwysig buddsoddi a chadw i fyny gyda'r farchnad dwristiaeth.<br>- roedd yr aelodau o blaid cyflwyno achos dros y cynllun datblygu llety.<br>- cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 20 Tachwedd i ofyn am gymeradwyaeth yr Awdurdod i fwrw ymlaen â'r cynnig datblygu.<br><br>**CAM GWEITHREDU: cefnogi'r cynnig a gofyn i'r Pennaeth Busnes gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 20fed Tachwedd 2019 yn argymell bod yr Awdurdod yn bwrw ymlaen â'r cynllun datblygu llety.** |

**Daeth y cyfarfod i ben am 09.50**

**EITEM RHIF 3**

| BWRDD RHEOLI PLAN TAN Y BWLCH<br>DYDD MERCHER 20fed TACHWEDD 2019 | |
|---|---|
| | **<u>Presennol:</u>**<br><br>**Aelodau:**<br>Ms. Tracey Evans<br>Mr. Neil Martinson<br>Mr. Emyr Williams<br>Mr. Iwan Jones<br>Mr. Andrew Oughton<br><br>**Yn bresennol:**<br>Mr. Owain Wyn (ex-officio)<br><br>**Swyddogion:**<br>Mrs Sarah Roberts. |
| 1. | **Ymddiheuriadau** |
| | Cyng. Freya Bentham. |
| 2. | **Datgan Budd / Diddordeb** |
| | Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o Fuddiannau Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem. |
| 3. | **Cadeirydd** |
| | Etholwyd Mr. Neil Martinson yn Gadeirydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau a'r Swyddogion am eu cefnogaeth. |
| 4. | **Cofnodion** |
| | Derbyniwyd cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2019, a llofnododd y Cadeirydd nhw fel gwir gofnod.<br><br>Yn codi ar hynny,<br><u>5. Cofnod Gweithredu</u><br>Dywedodd y Pennaeth Busnes nad oedd ef a Ms Tracey Evans wedi cael cyfle i drafod cyllid posibl ond y byddent yn trefnu cyfarfod ym mis Ionawr / Chwefror 2020. |

| | |
|---|---|
| | <u>6. Adroddiad Perfformiad</u><br>Cododd Aelod bryderon nad oedd Aelodau Bwrdd Plas Tan y Bwlch yn derbyn ffigurau mewn pryd. Cadarnhaodd y Pennaeth Busnes, unwaith y byddai'r system archebu / cyllid newydd ar waith, y byddai Aelodau Bwrdd Plas Tan y Bwlch yn cael adroddiadau cliriach ar ffigurau bob mis.<br><u>7. Costau Rhedeg</u><br>Trafododd yr aelodau ymhellach sefydlu system archebu / cyllid newydd ar gyfer Plas a chadarnhaodd y Pennaeth Busnes fod y gwaith yn mynd allan i dendr wythnos nesaf.<br>Dywedodd y Pennaeth Busnes y byddai'n cwrdd â Chadeirydd Bwrdd Plas Tan y Bwlch i drafod ailddrafftio'r Cynllun Busnes. |
| 5. | **Cofnod Gweithredu** |
| | Cyflwynodd y Pennaeth Busnes y Cofnod Gweithredu ac fe ystyriodd yr Aelodau hwn yn fanwl.<br><br><u>Cyfarfod 14.11.18</u><br><u>Gweithred 5: Perfformiad Plas Tan y Bwlch</u><br>Roedd y cyflwyniad gan swyddog YHA yn gyflawn a gellid tynnu'r elfen hon o'r weithred o'r Cofnod Gweithredu.<br><br><u>Cyfarfod 05.06.2019</u><br><u>Gweithred 8: Datblygiadau'r Dyfodol</u><br>Roedd yr arian gan Lywodraeth Cymru bellach wedi'i sicrhau felly gallai'r elfen hon o'r gweithredu gael ei thynnu o'r Cofnod Gweithredu.<br><br><u>Cyfarfod 16.10.19</u><br><u>Gweithred 5 : Cofnod Gweithredu</u><br>Cytunodd y Pennaeth Busnes a Ms Tracey Evans i gwrdd ym mis Ionawr / Chwefror 2020 i drafod cronfeydd grant posibl. Felly, roedd y weithred hon bellach wedi'i chwblhau a gellid ei thynnu o'r Cofnod Gweithredu.<br><u>Gweithred 8: Strwythur Codi Tâl</u><br>Roedd y weithred hon bellach wedi’i chwblhau a gellid ei thynnu o’r Cofnod Gweithredu.<br><u>Gweithred 9: Datblygiadau’r Dyfodol</u><br>Roedd y weithred hon bellach wedi’i chwblhau a gellid ei thynnu o’r Cofnod Gweithredu.<br><br>**GWEITHRED:**<br>**1. nodi'r Cofnod Gweithredu a chael gwared ar y camau gweithredu fel yr amlinellwyd.**<br>**2. bod Tracey Evans a'r Pennaeth Busnes yn gweithio gyda'i gilydd yn gynnar yn 2020 i ddod o hyd i gronfeydd grant posib.**<br>**3. y Prif Weithredwr i ymchwilio i gronfa ‘Buddsoddi i Arbed’ Llywodraeth Cymru.** |
| 6. | **Datblygiadau’r Dyfodol** |
| | Cyflwynodd y Pennaeth Busnes yr adroddiad yn rhoi manylion y datblygiadau arfaethedig yn y dyfodol ym Mhlas Tan y Bwlch.<br><br>Ystyriodd yr Aelodau a'r Swyddogion yr adroddiad yn fanwl a gwneud y sylwadau a ganlyn: |

| | |
|---|---|
| | - bwrw ymlaen â'r datblygiadau fel yr amlinellwyd yn amodol y derbynnir ffigurau cliriach / manwl.<br>- bod y Cynllun Busnes yn cael ei ailddrafftio gan nodi allbynnau penodol ar gyfer Plas.<br>- sicrhau bod y gwaith arfaethedig yn cael ei reoli i leihau'r risg o unrhyw golled incwm / busnes yn y Plas. Cytunodd y Pennaeth Busnes i ddarparu proffil i Aelodau'r Bwrdd yn nodi sut y bydd y gwaith yn cael ei reoli.<br>- Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion sut i farchnata Plas a phwysigrwydd presenoldeb ar-lein ac edrych ar y galw am lety yn yr ardal.<br>- Ystyried ffyrdd o reoli gofynion/disgwyliadau defnyddwyr a allai wrthdaro.<br>- Ystyriodd yr Aelodau a'r Swyddogion botensial datblygu'r gegin / ardal fwyta yn y Plas i ddarparu ardaloedd bwyta ar wahân i reoli gofynion cwsmeriaid. Cytunodd yr aelodau y dylai Plas gynnig cyfleusterau i ddenu cwsmeriaid.<br>- Cytunodd Mr. Neil Martinson a Ms Tracey Evans edrych ar ffyrdd i fodelu ffrydiau incwm ar gyfer Plas a byddai Aelodau eraill y Bwrdd hefyd yn cael cyfle i ddarparu mewnbwn maes o law.<br>- bod plant yn defnyddio'r annecs yn hytrach na'r prif dŷ i leihau traul.<br>- Cynghorodd swyddogion ar bwysigrwydd cyflwyno'r cais Cynllunio i gadw'r cais am grant yn fyw<br>- Roedd yr aelodau'n teimlo bod angen i'r prisiau fod yn gliriach a gofynnwyd a oedd cost dylunydd mewnol wedi'i chynnwys ym mhrisio'r datblygiadau arfaethedig. Y Pennaeth Busnes i gadarnhau gyda'r pensaer a yw dylunydd mewnol wedi'i gynnwys yn y gost.<br>- cyflwyno adroddiad i'r Awdurdod i'w argymell os yw costau adnewyddu yn fwy na'r disgwyl.<br>- bod adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar sail reolaidd.<br><br>**GWEITHRED:**<br>**1. nodi'r adroddiad.**<br>**2. bwrw ymlaen â'r datblygiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad fel blaenoriaeth.**<br>**3. cyflwyno adroddiad pellach i gyfarfod mis Chwefror.** |

**Daeth y cyfarfod i ben am 15.00**

**EITEM RHIF 3**

| | |
|---|---|
| **BWRDD RHEOLI PLAS TAN Y BWLCH**<br>**DYDD MERCHER 5ed CHWEFROR 2020** | |
| | **<u>Presennol:</u>**<br><br>**Aelodau:**<br>Cyng. Freya Bentham<br>Ms. Tracey Evans<br>Mr. Emyr Williams<br>Mr. Iwan Jones<br>Mr. Andrew Oughton<br><br>**Yn mynychu:**<br>Cyng. Wyn E. Jones (ex-officio)<br>Mr. Owain Wyn (ex-officio)<br><br>**Swyddogion:**<br>Mrs Sarah Roberts. |
| 1. | **Ymddiheuriadau** |
| | Mr. Neil Martinson. |
| 2. | **Datgan Diddordeb** |
| | Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o Fuddiannau Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem. |
| 3. | **Cadeirydd** |
| | Yn absenoldeb Mr. Neil Martinson, etholwyd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Mr Iwan Jones, yn Gadeirydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig. |
| 4. | **Cofnodion** |
| | Yn ddarostyngedig bod Tracey Evans wedi cynghori'r Pennaeth Busnes i gysylltu â Mantell Gwynedd i ofyn am gyllid yn cael ei nodi, derbyniwyd cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2019, a llofnododd y Cadeirydd hwy fel gwir gofnod.<br><br>Yn codi wedi hynny,<br><br><u>4. Cofnodion</u><br><u>Adroddiad Perfformiad</u><br>Gofynnodd Aelod am ddiweddariad ar y system archebu / cyllid newydd. Dywedodd y Pennaeth Busnes fod y tendrau a dderbyniwyd yn uwch na'r disgwyl a bod y gwaith wedi mynd allan i dendr unwaith eto i gael ffigurau diwygiedig er mwyn cael gwerth am arian. |

| | |
|---|---|
| 5. | **Cofnod Gweithredu** |
| | Cyflwynodd y Pennaeth Busnes y Cofnod Gweithredu ac ystyriodd yr Aelodau hwn yn fanwl.<br><br><u>Cyfarfod 14.11.18</u><br><u>Gweithred 5: Perfformiad Plas Tan y Bwlch</u><br>Er nad oedd y gwaith ar y system archebu / cyllid newydd wedi'i gwblhau, gellid ei dynnu oddi ar y Cofnod Gweithredu gan fod gweithred newydd wedi'i chreu.<br><br><u>Cyfarfod 20.11.19</u><br><u>Gweithred 6: Datblygiadau'r Dyfodol</u><br>Roedd y weithred hon bellach wedi'i chwblhau a gellid ei thynnu oddi ar y Cofnod Gweithredu.<br><br>**GWEITHRED:**<br>**1. nodi'r Cofnod Gweithredu a chael gwared ar y camau gweithredu fel yr amlinellwyd.**<br>**2. aros am adroddiad gan y Pennaeth Systemau Gwybodaeth i amlinellu'r amserlen ar gyfer gweithredu'r system archebu / cyllid newydd.** |
| 6. | **Diweddariad Cyllid** |
| | Cyflwynodd y Pennaeth Busnes yr adroddiad i ddarparu manylion am berfformiad y Ganolfan a'r rhagolygon. Amlinellodd y Pennaeth Busnes y prif bwyntiau a dywedodd fod y sefyllfa wedi aros yr un fath ers yr adroddiad diwethaf.<br><br>Ystyriodd yr Aelodau a'r Swyddogion yr adroddiad yn fanwl a gwneud y sylwadau a ganlyn:<br>- Gofynnodd yr aelodau am esboniad pellach ar y ffigurau.<br>- Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion y ffigurau'n fanwl a chytunwyd bod y tabl yn Atodiad 3 yn dangos gwir adlewyrchiad o'r ffigurau ar y dechrau ond nodwyd pryderon bod diffyg yn yr holl ffigurau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.<br>- dywedodd y Pennaeth Busnes fod y wybodaeth yn cael ei mewnbynnu â llaw ar hyn o bryd i'r daenlen sy'n ei gwneud yn broses hir.<br>- Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion a oedd yr incwm a ragwelir o gyrsiau ychydig yn or-optimistaidd a'r effaith negyddol a gafodd hyn ar yr incwm gwirioneddol a ffigurau diwedd blwyddyn.<br>- Mynegodd yr aelodau rwystredigaeth ynghylch safon wael yr adroddiadau ym mhob cyfarfod a gofyn i adroddiadau yn y dyfodol ddangos y busnes ar gyfartaledd dros gyfnod o dair blynedd a bod unrhyw fusnes newydd yn cael ei amlygu / nodi'n glir yn y tabl.<br>- Cytunodd yr Aelodau a’r Swyddogion fod angen i ffigurau fod yn realistig a bod adroddiadau yn y dyfodol yn rhoi esboniad ar y ffigurau e.e. i nodi pryd y cafodd archeb ei chanslo a phryd mae'r ffigurau'n llai na'r hyn a ragwelwyd ac ati.<br>- Gofynnodd yr aelodau a oedd archebion pellach yn cael eu hannog pe bai digwyddiadau / archebion yn cael eu canslo ac roeddent yn teimlo y dylid gwneud pob ymdrech i lenwi unrhyw ystafelloedd gwag.<br>- dywedodd y Prif Weithredwr fod y Pennaeth Cyllid bellach wedi gosod cyllideb realistig ar gyfer Plas a ddylai olygu bod targedau'n cael eu cyrraedd y flwyddyn nesaf ond pe na bai'r targedau'n cael eu cyrraedd o hyd, yna edrychir arno ymhellach. |

| | |
|---|---|
| | - dywedodd y Pennaeth Busnes mai ychydig iawn o bresenoldeb oedd gan y Plas ar-lein ac am yr anawsterau wrth gymryd archebion ar-lein oherwydd bod Plas yn rhan o wefan yr Awdurdod.<br>- Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion y nifer isel sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau cyfredol a chytunwyd bod cyfle i edrych ar ddarparu cyrsiau / digwyddiadau newydd yn y Plas e.e. Ymwybyddiaeth Ofalgar / Myfyrdod.<br><br>**GWEITHRED:**<br>**1. nodi'r adroddiad.**<br>**2. y Pennaeth Busnes i ddarparu adroddiadau cliriach ar ffigurau.**<br>**3. aros am adroddiad pellach i Gyfarfod nesaf o Fwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch.** |
| 7. | **Datblygiadau'r Dyfodol** |
| | Cyflwynodd y Pennaeth Busnes yr adroddiad, gan roi manylion y gwaith arfaethedig a'r amserlen arfaethedig ar gyfer y datblygiadau. Amlinellodd y Pennaeth Busnes y prif bwyntiau a rhoi cefndir i'r Aelodau.<br><br>Ystyriodd yr Aelodau a'r Swyddogion yr adroddiad ac Atodiad 1 yn fanwl a gwneud y sylwadau a ganlyn:<br>- Ystyriodd yr Aelodau a'r Swyddogion yr amserlen arfaethedig ar gyfer y gwaith ailddatblygu.<br>- codwyd pryderon pe bai llithriad yn yr amserlen y gallai beri risg i'r arian grant ac felly cynyddu'r tebygolrwydd y bydd y gwaith yn cael ei wneud yn ystod y misoedd prysuraf. Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion oblygiadau pellach megis costau ychwanegol pe bai'n ofynnol i'r adeiladwr ail ymweld (fwy nag unwaith) ac ati.<br>- Dywedodd y Pennaeth Busnes fod y Pensaer yn mynd i adolygu'r cynlluniau ar gyfer yr ardal fwyta er mwyn darparu seddi pellach i gwsmeriaid ac roedd trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio ystafell Oakeley hefyd.<br>- Ystyriodd yr Aelodau a'r Swyddogion Atodiad 1 yn fanwl a chytunwyd bod angen dwy set o sgiliau penodol ar gyfer y rôl. Gofynnodd Aelod a oedd yn opsiwn llenwi'r swydd wag yn fewnol? Dywedodd y Pennaeth Busnes na fyddai hyn yn bosibl oherwydd llwythi gwaith staff.<br>- Ystyriodd yr aelodau a ddylai'r pwyslais fod ar benodi ymgynghorydd busnes yn hytrach na rheolwr prosiect. Cytunodd yr aelodau y byddai penodi sefydliad yn fwy buddiol i fodloni gofynion y swydd. Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion bwysigrwydd sicrhau pwy fyddai'n gyfrifol am wahanol feysydd / agweddau ar y gwaith cyn i unrhyw waith ddechrau. Dywedodd y Pennaeth Busnes y byddai grŵp swyddogion yn cael ei greu i reoli'r gwaith yn briodol.<br>- Roedd yn bwysig bod yr unigolion a benodwyd yn gweithio gyda'i gilydd ac yn gyson i sicrhau dyfodol Plas.<br>- Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion bwysigrwydd denu busnes newydd gan fod y nifer sy'n manteisio ar gyrsiau cyfredol yn lleihau. Cytunwyd nad oedd y busnes craidd yn ddigonol i dalu costau ond roedd angen cydbwyso unrhyw fusnes newydd yn erbyn y busnes craidd.<br>- Gofynnodd aelod a oedd cyfle i fanteisio ar y cwricwlwm ysgol a ddatblygwyd yn ddiweddar ac efallai edrych ar gynnig penwythnosau beicio mynydd ac ati. Dywedodd y Pennaeth Busnes ei fod wedi cyfarfod â Rheolwr Canolfan |

| | |
|---|---|
| | Beicio Mynydd Coed y Brenin a oedd yn awyddus i weithio gyda'r Plas unwaith y byddai'r byncws yn weithredol.<br>- Roedd yr aelodau'n teimlo bod angen mynd gyda'r farchnad dwristiaeth gyfredol e.e. twristiaeth awyr agored ac i edrych ar sgiliau / cynnal archwiliad / gallu mewnol ac ati i symud Plas ymlaen ar gyfer y dyfodol.<br><br>**GWEITHRED:**<br>**1. nodi'r adroddiad.**<br>**2. cytuno ar y brîff ar gyfer rôl Rheolwr Prosiect** |

**Daeth y cyfarfod i ben am 15.00**

**EITEM RHIF 3**

| | |
|---|---|
| | **BWRDD RHEOLI PLAN TAN Y BWLCH**<br>**DYDD MERCHER 1 GORFFENNAF 2020** |
| | **Presennol:**<br><br>**Aelodau:**<br>Cyng. Freya Bentham<br>Mr. Neil Martinson (Cadeirydd)<br>Ms. Tracey Evans<br>Mr. Emyr Williams<br>Mr. Iwan Jones<br>Mr. Andrew Oughton<br><br>**Yn bresennol (ex officio)**:<br>Cyng. Wyn Ellis Jones<br>Mr. Owain Wyn<br><br>**Swyddogion:**<br>Mr. Dafydd Edwards, Mr. Emyr Roberts, Mrs. Jo Worrall, Mrs Anwen Gaffey,<br>Mrs Sarah Roberts. |
| 1. | **Ymddiheuriadau** |
| | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| 2. | **Datgan Budd** |
| | Datganodd Mr. A. Oughton fudd yn eitem 5 ar y Rhaglen ac aeth allan o'r cyfarfod tra bo'r mater yn cael ei drafod. |
| 3. | **Cofnodion** |
| | Derbyniwyd cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2020, a llofnododd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir. |
| 4. | **Busnes y Dyfodol** |
| | Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y gofynnir i'r Bwrdd Rheoli drafod a chytuno ar opsiynau ar gyfer dyfodol Plas Tan y Bwlch a fyddai wedyn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ar 15 Gorffennaf 2020.<br><br>Cyflwynodd y Pennaeth Busnes ei adroddiad yn amlinellu manylion potensial ac opsiynau busnes yn y dyfodol. Dywedodd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi dyddiad i fusnesau sy'n darparu llety preswyl, fel Plas, ar gyfer ailagor, er bod Croeso Cymru wedi awgrymu y gellid cymryd archebion o'r 26ain Medi 2020 ymlaen.<br><br>Cadarnhaodd y Pennaeth Busnes ei fod wedi derbyn arweiniad Llywodraeth Cymru yn ddiweddar iawn ar gyfer "*Busnesau twristiaeth a lletygarwch: arweiniad ar gyfer ailagor fesul cam*" ac wedi cael cipgolwg ar y ddogfen, dywedodd ei bod yn gosod gofynion beichus ar fusnesau.. |

| | |
|---|---|
| | Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion gyfleoedd busnes posibl yn y dyfodol ac ystyried pob maes gwaith yn fanwl. Trafododd yr aelodau hefyd y gostyngiad disgwyliedig o 75% mewn incwm ar gyfer 2020/21 yn ogystal â'r gostyngiad disgwyliedig o 50% yn incwm cwrs ar gyfer 2021/2022.<br><br>Yn codi ar hynny,<br>- gofynnwyd i'r Pennaeth Busnes pa mor hyderus ydoedd y gallai Plas gyflawni 50% o incwm cwrs yn 2021/2022. Dywedodd fod y ffigurau a ddarparwyd yn seiliedig ar ragolygon busnes o'r Pasg 2021 ymlaen, pan ddisgwylid i archebion grŵp ddychwelyd i lefelau arferol ond gyda gostyngiad mewn presenoldeb ar gyrsiau yn y dyfodol.<br>- trafodwyd cost ychwanegol cwrdd â gofynion chanllawiau Llywodraeth Cymru hefyd. Ni chafwyd unrhyw arwydd gan Lywodraeth Cymru y byddai'r cyfyngiadau pellter cymdeithasol 2 fetr yn cael eu llacio ac roedd hyn yn creu problemau capasiti yny Plas. Roedd gan y Ganolfan uchafswm o 23 ystafell wely en-suite ar gael, ni ellid defnyddio'r Annecs mwyach, a dim ond tua 20 o westeion y gallai'r ystafell fwyta ddarparu ar eu cyfer.<br>- trafodwyd yr ailddatblygiad arfaethedig a dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr arian yn ei le a'r broses dendro ar y gweill. Cadarnhaodd y Pennaeth Busnes ei fod yn aros am hysbysiad gan Lywodraeth Cymru ar y cais cynllunio a disgwylir hynny heddiw. Cytunodd yr Aelodau a'r Swyddogion fod rhai agweddau ar yr ailddatblygiad, megis llety'r hostel a'r cynnig ystafell wely moethus yn feysydd yr oedd angen eu hailystyried pe bai'r gwaith yn mynd yn ei flaen.<br>- cadarnhaodd y Pennaeth Busnes fod y pensaer wedi amcangyfrif amserlen o 12 wythnos o'r dechrau i'r diwedd i gwblhau'r gwaith adeiladu a'r adnewyddu.<br><br>**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.** |
| 5. | **Adroddiad ar Amcangost yr opsiynau sy'n ymwneud â Phlas Tan y Bwlch** |
| | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad, i'w ystyried ar y cyd â'r adroddiad gan y Pennaeth Busnes ar incwm y dyfodol. Bydd yr adroddiadau yn rhoi gwybodaeth i'r Bwrdd ffurfio argymhellion i'r Awdurdod ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch.<br><br>Ystyriodd yr Aelodau a'r Swyddogion yr adroddiad a gwneud y sylwadau a ganlyn:<br>– Trafododd yr aelodau sut roedd Plas Tan y Bwlch wedi methu â chyrraedd ei darged incwm dros y pum mlynedd diwethaf a nodwyd hefyd y diffyg net a ragwelir dros y ddwy flynedd nesaf, yn seiliedig ar y model busnes cyfredol.<br>– dywedwyd wrth y Bwrdd fod yr Awdurdod yn dal i aros am gadarnhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch a fyddent yn darparu cymorth ariannol i dalu am rywfaint o'r golled mewn incwm masnachol neu'r cyfan ohono.<br>– Trafododd yr aelodau yn fanwl a ddylid argymell y dylai'r Awdurdod fwrw ymlaen â'r ailddatblygiad arfaethedig ac a fyddai Grant Llywodraeth Cymru o £229,000 o dan risg o gael ei adfachu yn y dyfodol.<br>– gofynnodd y Bwrdd i Swyddogion ofyn am sicrwydd y byddai Llywodraeth Cymru yn hyblyg pe bai'r Awdurdod yn penderfynu ail bwrpasu Plas Tan y Bwlch rywbryd yn y dyfodol.<br>– Roedd yr aelodau o'r farn bod hwn yn gyfle i gyflawni'r gwaith ailddatblygu, a chynyddu gwerth yr adeilad. Roedd yn gwneud synnwyr busnes a byddai |

| | | |
|---|---|---|
| | | hefyd yn caniatáu i'r Awdurdod newid y model busnes fel y mae, ac ailasesu'r set sgiliau sydd ei hangen yn y Plas ar gyfer y dyfodol. Byddai parhau â'r ailddatblygiad hefyd yn diogelu'r adeilad rhestredig Gradd II.<br>– trafododd y Bwrdd nifer o opsiynau ar gyfer y dyfodol a oedd yn cynnwys:-<br>➢ parhau gyda'r model busnes fel y mae a hefyd ar lefel lawer is.<br>➢ rhewi y Ganolfan (cau'r ganolfan dros dro) tan ddiwedd y pandemig.<br>➢ ailgyflunio'r tŷ ar gyfer gwesteion gwely a brecwast i fanteisio ar y cynnydd a ragwelir ymysg trigolion y DU yn cymryd gwyliau 'adref'<br><br>– darparodd y Pennaeth Cyllid fanylion ffrydiau incwm cyfredol, sy'n cynnwys rhent o siale a mast wedi'i leoli ar y tir, incwm o'r Cynllun Hydro, ad-daliadau mewnol ac yn seiliedig ar bris o £65 y noson ar gyfer gwesteion gwely a brecwast, gyda model busnes llawer llai, gallai o bosibl ganiatáu i'r Ganolfan adennill costau. Nid oedd yr amcangyfrifon hyn yn cynnwys costau ychwanegol glanweithwyr, sgriniau, PPE ac ati, i leihau'r risg o Cofid yn y Ganolfan.<br>– Nododd yr aelodau, er bod gan Blas Tan y Bwlch gyllid tan ddiwedd mis Mawrth 2021, roedd hyn ar sail Plas yn cynhyrchu incwm ar lefelau cyn Cofid-19. Yn unol â hynny, pe na bai'r cais am arian ychwanegol yn llwyddiant, byddai angen defnyddio cronfeydd wrth gefn. O ystyried yr uchod, roedd y Bwrdd yn gyffredinol yn cefnogi sefydlu model busnes symlach a fyddai’n bwydo i mewn i agenda’r Awdurdod ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc a gwirfoddolwyr.<br>– cytunodd y Bwrdd y dylai'r Awdurdod, o dan yr amgylchiadau presennol ac o ystyried nifer y staff a allai gael eu heffeithio, ddechrau'r broses o ymgynghori'n ffurfiol â'r staff a'r Undebau Llafur ar ddyfodol y Ganolfan.<br>– cyfeiriodd y Prif Swyddog Cyllid at y ffigurau yn nhablau 2 a 3 yr adroddiad a oedd yn atgyfnerthu'r angen i'r Awdurdod ail-werthuso dyfodol Plas Tan y Bwlch. Teimlai nad hwn oedd yr amser i ystyried cael gwared ar unrhyw asedau ac y byddai rhewi'r ganolfan yn rhannol yn caniatáu i Plas barhau i weithredu. Hefyd, wrth i adnewyddiadau gael eu gwneud, byddai hyn yn darparu diogelwch ar gyfer yr Adeilad Rhestredig Gradd II. Teimlai fod grant Llywodraeth Cymru yn eithaf hael yn ddarostyngedig nad oedd unrhyw amodau caeth ynghlwm iddo.<br>– Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd Plas Tan y Bwlch, a oedd yn cefnogi ail bwrpas yr Awdurdod, yn gwneud defnydd da o adnoddau. Roedd y Ganolfan wedi costio dros £1.5 miliwn i'r Awdurdod dros y 6 blynedd diwethaf.<br>– Roedd yr aelodau'n hapus i ystyried amrywiaeth o wahanol opsiynau ar gyfer y Ganolfan, ond cytunwyd bod y model busnes cyfredol wedi dod i ben erbyn hyn.<br>– roedd y Bwrdd yn pryderu bod cofnodion Plas Tan y Bwlch dros nifer o flynyddoedd wedi cofnodi addewidion uchelgeisiol a than-gyflawni, ac nad oedd yr adroddiadau erioed wedi bod yn ddigon manwl i'r Bwrdd wneud penderfyniadau gwybodus.<br>– nid oes gan y Parc Cenedlaethol fel Awdurdod yr arbenigedd i lwyddo yn y sector busnes gwestai. Yn gyffredinol, mae busnesau gwestai llwyddiannus yn rhan o grwpiau mwy yn hytrach nag endidau annibynnol.<br>– Trafododd yr aelodau incwm Awdurdodau Lleol yn y dyfodol, a fyddai, fwy na thebyg yn cael ei leihau, ac ystyried faint mae Plas Tan y Bwlch yn ei |

| | |
|---|---|
| | gyfrannu at ail bwrpas yr Awdurdod a’i fod yn bennaf yn draenio adnoddau o weithgareddau eraill.<br>– Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a fyddent yn barod i fuddsoddi eu harian eu hunain ym Mhlas Tan y Bwlch, gan gofio ei bod yn debygol y byddai'r refeniw hefyd yn gostwng.<br>– cytunodd y Bwrdd nad oedd y sefyllfa bresennol yn gynaliadwy ac y byddai'r cyfnod ymgynghori o 3 mis yn caniatáu amser i'r Awdurdod benderfynu sut i symud ymlaen yn y tymor canolig.<br><br>**PENDERFYNWYD**<br><br>**1. yn ddarostyngedig y cadarnheir hyblygrwydd Llywodraeth Cymru o ran defnyddio'r grant, i argymell y dylai'r Awdurdod barhau â'r gwaith ailddatblygu arfaethedig dros fisoedd yr haf.**<br>**2. argymell y dylai'r Awdurdod ddechrau'r broses o gynnal ymgynghoriad ffurfiol gyda staff ac Undebau Llafur ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch.**<br>**3. cynghori'r Awdurdod bod adroddiad yn amlinellu gwahanol fodelau busnes, ac fe fyddai ffyrdd amgen ymlaen ar gyfer Plas Tan y Bwlch yn cael eu cyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ar 23 Medi 2020.**<br>**4. os yw'n ymarferol, sefydlu model busnes symlach ar gyfer Plas Tan y Bwlch yn y tymor byr.** |

**Daeth y cyfarfod i ben am 15:40**

**EITEM RHIF 4**

| **BWRDD RHEOLI PLAN TAN Y BWLCH<br>DYDD MERCHER 19eg AWST 2020** | |
|---|---|
| | **<u>Presennol:</u>**<br><br>**Aelodau:**<br>Mr. Neil Martinson (Cadeirydd)<br>Ms. Tracey Evans<br>Mr. Emyr Williams<br>Mr. Iwan Jones<br>Mr. Andrew Oughton<br><br>**Yn bresennol (ex officio)**:<br>Cyng. Elwyn Edwards,<br>Cyng. Alwyn Gruffydd,<br>Cyng. Wyn Ellis Jones<br>Mr. Owain Wyn<br><br>**Swyddogion:**<br>Mr. Dafydd Edwards, Mrs. Jo Worrall, Ms. Bethan Hughes,<br>Mrs Sarah Roberts. |
| 1. | **Ymddiheuriadau** |
| | Cyng. Freya Bentham. |
| 2. | **Datgan Budd** |
| | Cyhoeddodd Mr. A. Oughton ddiddordeb yn Eitem 6 ar yr Agenda a gadawodd y cyfarfod tra'r oedd y mater yn cael ei drafod.<br>Cyhoeddodd Mrs S. Roberts ddiddordeb yn Eitem 5 ar yr Agenda ond arhosodd yn y cyfarfod tra'r oedd y mater yn cael ei drafod. |
| 3. | **Cofnodion** |
| | Derbyniwyd cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2020, a llofnododd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.<br><br>Yn codi yn sgil hynny,<br><u>Eitem 4. Busnes yn y Dyfodol</u><br>Gofynnodd Aelod pam nad oedd Plas wedi gallu ailagor i ddarparu llety a theimlai fod hwn yn gyfle a gollwyd gan ei bod bron yn amhosibl archebu llety yn yr ardal hyd at fis Hydref 2020. Dywedodd y Pennaeth Busnes, wedi i ymarfer costio gael ei gyflawni, nad oedd yn gost-effeithiol i ailagor yr ystafell de na darparu llety Gwely a Brecwast, hefyd ni ellid cynhyrchu digon o incwm i gyfiawnhau tynnu staff oddi ar y cynllun seibiant. |

| | |
|---|---|
| | <u>Eitem 5 - Adroddiad ar Amcangyfrif o Gost yr Opsiynau sy'n ymwneud â Phlas Tan y Bwlch</u><br>Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod Llywodraeth Cymru yn hyblyg gyda'r grant hyd yn oed pe bai'r Awdurdod yn cytuno i sefydlu partneriaeth â Sefydliad arall ond dywedodd na fyddai'r Awdurdod yn awdurdodi'r buddsoddiad ar hyn o bryd.<br><br>Cadarnhaodd y Pennaeth Busnes fod caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer y gwaith ailddatblygu ar y Prif Dŷ a'r Adain. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y tendrau ar gyfer y gwaith ailddatblygu wedi dod yn ôl a bod y gost yn uwch na'r disgwyl ond bod y pensaer yn hyderus y gallai llawer iawn o'r gwaith gael ei wneud o fewn y cyllid grant.<br>Trafododd yr aelodau a ellid ymestyn yr amserlen ar gyfer y tendrau am gyfnod pellach i ganiatáu mwy o amser. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd penderfyniad wedi'i wneud oherwydd trafodaethau a oedd yn digwydd gyda darpar bartneriaid ac ati. |
| 4. | **Ymatebion Staff i'r Ymgynghoriad Ffurfiol ar Ddyfodol Plas Tan y Bwlch** |
| | Cyflwynodd y Pennaeth Personél yr adroddiad i Aelodau'r Bwrdd a rhoi cefndir i'r Aelodau. Diolchodd y Pennaeth Personél i staff Plas Tan Y Bwlch am anfon eu sylwadau ac i'r cyfieithwyr am weithio o fewn terfyn amser tynn iawn. Gofynnodd y Pennaeth Personél i'r Aelodau nodi cynnwys Atodiad 1 a rhoi amlinelliad o'r sylwadau staff a dderbyniwyd i'r Aelodau.<br><br>Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion yr adroddiad yn fanwl a gwneud y sylwadau a ganlyn:<br>- diolch i'r staff am gyflwyno eu hymatebion mewn amgylchiadau a oedd yn anodd iawn.<br>- Cododd yr aelodau bryderon ynghylch iechyd a lles staff. Dywedodd y Pennaeth Busnes fod iechyd a lles pob aelod o staff yn bryder sylweddol a'i fod yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r staff.<br>- roedd Aelod yn pryderu y gallai rhai o'r ymatebion a dderbyniwyd gan staff fod wedi'u diwygio. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Personél fod yr ymatebion fel ag yr oeddynt wedi'u derbyn gan staff. Cytunodd swyddogion i ymchwilio i'r mater ymhellach.<br>- Roedd yr aelodau'n teimlo nad oedd Plas wedi cael sylw digonol dros nifer o flynyddoedd<br>- Roedd yr aelodau'n poeni am y nifer isel o ysgolion a oedd yn mynychu Plas gan ystyried bod 1,300 o ysgolion yng Nghymru, trafododd yr aelodau a oedd Plas yn cael ei farchnata'n effeithiol er mwyn annog mwy o ysgolion i ddefnyddio'r Ganolfan. Trafododd yr aelodau hefyd a wnaed rhyw fath o werthusiad o'r ddarpariaeth addysg yn y Plas. Teimlai'r Prif Weithredwr fod dod o hyd i ffordd addas o ymgysylltu ag adroddiad Donaldson yn rhywbeth y dylid ei ystyried<br>- Nododd yr aelodau rwystredigaeth gan staff ynghylch yr ymdeimlad o esgeulustod a deimlwyd yn y Plas ac nad oedd unrhyw syniadau i gynhyrchu incwm ychwanegol wedi cael ystyriaeth briodol.<br>- Cytunodd yr aelodau fod gormod o wrthdaro o ran y defnydd a wneir o'r Plas.<br>- Teimlai'r aelodau fod ymgysylltu da â staff yn fuddiol o dan amgylchiadau o'r fath a bod yn rhaid i'r rhesymau dros beidio ag ailagor gael eu cyfleu i staff mewn ffordd onest.<br>- nid oes gan yr Awdurdod yr arbenigedd i redeg canolfan fasnachol, roedd busnesau eraill yn llawer mwy effeithlon na'r Awdurdod. |

| | |
|---|---|
| | - Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion bwysigrwydd gwasanaethu pwrpasau'r Awdurdod a'r ffyrdd y gellir eu cyflawni.<br>- Trafododd yr aelodau'r incwm a gynhyrchwyd o du ysgolion a chytunwyd nad oedd yn cynhyrchu elw digonol i'r Plas.<br>**PENDERFYNWYD nodi'r sylwadau a dderbyniwyd gan staff.** |
| 5. | **Cwmpasu Senarios / Costiadau Senarios Gwahanol ar gyfer Dyfodol Busnes Plas Tan y Bwlch** |
| | Rhoddodd y Prif Weithredwr y cefndir i'r Aelodau a chynghorodd fod yr adroddiad yn gyfle i Aelodau'r Bwrdd drafod a chytuno ar yr opsiynau i wneud gwaith pellach arnynt cyn gwneud argymhelliad ffurfiol i'r Awdurdod.<br><br>Rhoddodd y Pennaeth Busnes esboniad pellach i'r Bwrdd ar ffigurau a dywedodd mai rhain oedd y ffigurau mwyaf cyfredol.<br>Ystyriodd yr Aelodau a'r Swyddogion yr adroddiad a phob senario yn fanwl a gwneud y sylwadau a ganlyn:<br>- Trafododd yr aelodau'r ffigurau gan bryderu eu bod yn wahanol i'r ffigurau a ddarparwyd yn yr adroddiad diwethaf. Cadarnhaodd y Pennaeth Busnes fod y ffigurau bellach yn cynnwys costau rhoi'r staff ar y cynllun seibiant.<br>- Roedd yr aelodau'n poeni faint o gymorth ariannol a fyddai'n cael ei roi gan Lywodraeth Cymru. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid y byddai cymorth ariannol ar gael ar gyfer yr ail chwarter ond dywedodd fod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch y sefyllfa ariannol hirdymor.<br>- Gofynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i aelodau'r Bwrdd ystyried lefel y risg yr oeddent hwy fel Aelodau / fel Awdurdod yn barod i'w chymryd.<br>- Trafododd yr aelodau a ddylid symud ymlaen gyda'r gwaith ailddatblygu yn y Plas ar hyn o bryd oherwydd trafodaeth barhaus gyda darpar bartneriaid ac ati.<br>- Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion y ffigurau a chytuno ei bod yn anodd iawn i'r Bwrdd wneud penderfyniad hyddysg, gan nad oedd y ffigurau a ddarparwyd yn rhoi digon o wybodaeth.<br>- Cytunodd yr Aelodau a'r Swyddogion y gallai parhau â'r opsiwn o fusnes fel arfer wneud y sefyllfa'n waeth o lawer.<br>- Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Aelodau, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol esboniad pellach ar Opsiwn 2 o'r senarios.<br>- Trafododd yr aelodau'r newidiadau yng nghwricwlwm yr ysgol ac ystyried a fyddai gan y Plas y gallu i barhau ag Addysg fel darpariaeth yn y dyfodol.<br>- Cytunodd yr Aelodau a'r Swyddogion fod angen i'r Plas barhau i weithredu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd am y tro.<br>- Trafododd yr aelodau'r opsiynau a chytuno i wneud gwaith pellach ar Opsiynau 2, 3 a 4.<br><br>**PENDERFYNWYD**<br>**1. nodi'r adroddiad.**<br>**2. Swyddogion i bennu'r ffordd orau i ganiatáu i'r Plas ailagor gyda llai o gost a gweithgaredd cyn gynted â phosibl.**<br>**3. Swyddogion i wneud gwaith pellach ar opsiynau 2, 3 a 4 ac adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf o Fwrdd Plas Tan y Bwlch ym mis Medi.**<br>**4. aros am adroddiad pellach i gyfarfod nesaf o Fwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch.** |

| 6. | **Opsiynau partneriaeth, prydlesu, rhentu, gwaredu.** |
|---|---|
| | Cynghorodd y Prif Weithredwr yr Aelodau ar y sefydliadau a oedd wedi mynegi diddordeb mewn dod yn bartner gyda'r Awdurdod. Roedd y Prif Weithredwr wedi darparu'r wybodaeth ariannol berthnasol i'r Plas i bob sefydliad.<br><br>Ystyriodd yr Aelodau a'r Swyddogion yr adroddiad a gwneud y sylwadau a ganlyn:<br>- Trafododd yr aelodau ddarpar bartneriaid ac ystyried a fyddai partner mwy masnachol yn opsiwn mwy ffafriol. Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion ynghylch chwilio am ddarpar bartneriaid pellach er mwyn peidio â bod yn rhy gyfyngedig.<br>- Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai unrhyw ddarpar bartner eisiau gweld Plas yn parhau i weithredu am gyfnod cyn ffurfio partneriaeth bosibl gyda'r Awdurdod. Cytunodd yr aelodau y dylai'r Awdurdod hefyd gael cyfle i edrych ar gyfrifon / ffigurau ariannol unrhyw bartner posib.<br>- Trafododd yr aelodau'r broses ar gyfer ffurfio partneriaeth a'r amserlenni posibl ar gyfer proses o'r fath. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai matrics sgorio yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob darpar bartner ond na fyddai unrhyw benderfyniadau ffurfiol yn cael eu gwneud tan ar ôl cyfarfod yr Awdurdod ar 23 Medi 2020.<br>- roedd Aelod yn teimlo bod Plas yn adeilad eiconig a bod cadw ethos Cymreig adeilad o'r fath yn bwysig.<br>- Roedd yr aelodau'n teimlo bod angen i ffigurau incwm a gwariant fod yn gliriach.<br>- Teimlai'r aelodau y byddai'n fuddiol i'r Bwrdd drefnu cyfarfod pellach i drafod yr opsiynau ymhellach cyn ffurfio unrhyw argymhellion i'r Awdurdod ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch.<br>- Trafododd yr aelodau sut y gallai Plas ailagor cyn gynted â phosibl.<br>- Gofynnodd yr aelodau a allai swyddog o'r Pencadlys arwain wrth symud Plas ymlaen dros y tymor byr. Cynghorodd y Prif Weithredwr ar drafodaeth ddiweddar gyda Swyddogion perthnasol ond cadarnhaodd nad oedd hyn yn bosibl oherwydd ymrwymiadau gwaith eraill.<br><br>**PENDERFYNWYD**<br>**1. nodi'r adroddiad.**<br>**2. y Prif Weithredwr i barhau â thrafodaethau parhaus gyda phartneriaid posibl ac i geisio partner mwy masnachol.**<br>**3. i Swyddogion a chadeiryddion perthnasol gael trafodaethau parhaus ar y ffordd ymlaen.**<br>**4. aros am adroddiad pellach i gyfarfod nesaf Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch** |
| 7. | **Casgliadau a gwaith pellach** |
| | Cytunodd yr aelodau y byddai Swyddogion yn gwneud gwaith pellach ar opsiynau 2, 3 a 4 hyd nes y byddai datblygiadau ar bartneriaethau posib.<br>Yn codi yn sgil hynny, pe na bai'r opsiynau a amlinellwyd yn llwyddiannus, yna byddai angen symud ymlaen gydag opsiynau 5 a 6.<br>Cytunodd yr Aelodau a'r Swyddogion y dylai Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch gwrdd ddechrau mis Medi cyn llunio argymhellion i'r Awdurdod.<br>**PENDERFYNWYD:**<br>**1. i Swyddogion wneud gwaith pellach ar Opsiynau 2, 3 a 4.** |

| | |
|---|---|
| | **2. bod cyfarfod pellach o Fwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch yn cael ei drefnu ddechrau mis Medi cyn llunio argymhellion i'r Awdurdod ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch.**<br>**3. i Swyddogion roi adborth clir i staff ar y camau nesaf ac ati.**<br>**4. argymell i'r Awdurdod na ddylai'r gwaith ailddatblygu fynd yn ei flaen ar hyn o bryd oherwydd trafodaethau parhaus.** |
| **8.** | **Cyfarfod Nesaf - dechrau mis Medi** |
| | Clerc y Pwyllgor i drefnu dyddiad ddechrau mis Medi ar gyfer cyfarfod nesaf Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch. |

**Daeth y cyfarfod i ben am 11:30**

| BWRDD RHEOLI PLAN TAN Y BWLCH<br>DYDD GWENER 11 MEDI 2020 | |
|---|---|
| | **<u>Presennol:</u>**<br><br>**Aelodau:**<br>Mr. Neil Martinson (Cadeirydd)<br>Ms. Tracey Evans<br>Mr. Emyr Williams<br>Mr. Iwan Jones<br>Mr. Andrew Oughton<br><br>**Yn mynychu:**<br>Mr. Owain Wyn (ex-officio)<br>Cyng. Alwyn Gruffydd (ex-officio)<br>Cyng. Elwyn Edwards (ex-officio)<br><br>**Swyddogion:**<br>Mrs Jo Worrall, Mrs. Anwen Gaffey. |
| 1. | **Ymddiheuriadau** |
| | Cyng. Wyn E. Jones;<br>Mr. Dafydd Edwards (Swyddog Adran 151)<br><br>Yn codi ar hynny, manteisiodd y Cynghorydd Alwyn Gruffydd ar y cyfle i ymddiheuro i'r Pennaeth Personél am godi cyfres o gwestiynau diangen mewn cyfarfod diweddar, gan nodi ei fod wedi cael ei gamarwain. |
| 2. | **Datgan Budd** |
| | Datganodd Mr. Andrew Oughton fudd yn Eitem 3 ar yr Agenda. |
| 3. | **Achos Busnes Posibl ar gyfer Dechrau Llety o Fath Gwely a Brecwast yn y Plas** |
| | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad i'r Aelodau lunio argymhellion i'r Awdurdod ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch.<br><br>Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol ei fod wedi ymchwilio i'r galw am wely a brecwast yn yr ardal. Roedd ymchwiliadau wedi dangos bod prinder llety o'r fath yn ystod gwyliau ysgol a thymhorau'r ysgwydd, ac mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r staff, cytunwyd i agor Plas Tan y Bwlch ar sail gwely a brecwast ar sail prawf, i sefydlu lefel y busnes dros y tymor byr. Dywedwyd wrth yr aelodau fod Plas Tan y Bwlch, yn unol â hynny, wedi agor heddiw ac ar hyn o bryd bod 16 ystafell ar gael trwy Airbnb. |

| | |
|---|---|
| | Rhagwelwyd hefyd y gellid cynyddu nifer yr ystafelloedd sydd ar gael i 20 erbyn dechrau 2021, yn dilyn uwchraddio'r tair ystafell anabl a thrwy drosi'r Lolfa Tudor yn ystafell wely.<br><br>Adroddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ei fod hefyd yn obeithiol y gallai Plas Tan y Bwlch ddenu busnes ychwanegol, gan fod nifer o brosiectau adeiladu mawr ar fin dechrau yn yr ardal, er ei bod yn rhy fuan i gynnwys unrhyw dargedau yn yr adroddiad. Roedd wedi paratoi taenlen (Atodiad 3) a ddangosodd y byddai'r model busnes Gwely a Brecwast, ar ôl ystyried cyfraddau deiliadaeth rhagamcanol a chostau staff, yn arwain at golled o £15,240, a oedd yn dal o fewn cyllideb Plas Tan y Bwlch ar gyfer 2020/21. Amlygwyd risgiau pellach hefyd, megis bod y pandemig yn gwaethygu dros fisoedd y gaeaf a gostyngiad posibl yn nifer y bobl sy'n teithio.<br><br>Cadarnhaodd y Pennaeth Busnes fod Airbnb yn gweithio'n dda a'i fod wedi arwain at archebu 50% o'r Ganolfan ar gyfer y 10/11 diwrnod nesaf. Wrth nodi cyflwr presennol yr adeilad, roedd yn gobeithio y byddai Plas Tan y Bwlch yn gallu denu a chynnal adolygiadau cadarnhaol ar-lein.<br><br>Ystyriodd yr aelodau yr adroddiad a gwneud y sylwadau a ganlyn: -<br>- a allai hyn fod yn rhy ychydig yn rhy hwyr? Dylai Plas Tan y Bwlch fod wedi bod yn barod i ailagor yn unol ag adolygiadau tair wythnos Llywodraeth Cymru ac i fod yn barod ar gyfer y dyfodol - dylai fod Cynllun Ôl-adferiad ar waith. Byddai'r Aelod yn anfon templed enghreifftiol at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, i'w ddefnyddio yn y dyfodol.<br>- dywedodd y Prif Weithredwr pe bai cyfnod clo arall yn y chwarter nesaf, gallai'r Ganolfan ddioddef colled o hyd at £30k, a oedd yn dal i fod o fewn cyllideb Plas Tan y Bwlch. Cytunodd y gallai'r Awdurdod fod wedi colli cyfle yn y tymor byr, ond gan fod y rhan fwyaf o staff y Ganolfan ar y cynllun seibiant, roedd swyddogion yn teimlo y bu'n rhaid aros nes derbyn cadarnhad gan Lywodraeth Cymru y byddai'r Awdurdod yn cael ei ad-dalu am golli incwm yn y Plas<br>- nododd Aelod bryderon bod y rhagdybiaethau a wnaed yn y proffil busnes yn rhy optimistaidd ac y gallai refeniw ystafelloedd ar gyfartaledd fod yn is ac arwain at golled fwy na'r disgwyl yn y proffil. Gofynnwyd i swyddogion baratoi gwahanol senarios ar opsiynau deiliadaeth ystafelloedd mewn adroddiadau yn y dyfodol.<br>- cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y rhagdybiaethau a wnaed yn seiliedig ar gyflogi staff parhaol ac nad oeddent yn cynnwys staff tymhorol nac wedi'u prynu i mewn. Byddai'r swydd yn cael ei hail-asesu unwaith y byddai swyddogion yn sefydlu beth fydd lefel y busnes. Byddai'r achos dros agor y bar a darparu prydau min nos hefyd yn cael ei ystyried, er y gellid darparu cinio llawn heb unrhyw gostau staff ychwanegol.<br>- roedd Cadeirydd Bwrdd Plas Tan y Bwlch o'r farn bod y rhagamcanion yn yr adroddiad yn realistig ond yn pryderu bod y rhestriad Airbnb yn tan werthu'r Plas, ac y dylid ei newid yn ddi-oed. Dylai swyddogion hefyd groes-hyrwyddo y rhestriad Airbnb gyda phrif borthiant Twitter yr Awdurdod a cheisio cynyddu buddion safleoedd teithio ar-lein eraill i'r eithaf, ac o bosibl trafod sut i hyrwyddo Plas Tan y Bwlch ymhellach gyda Croeso Cymru |

| | |
|---|---|
| | - roedd y Cadeirydd wedi cael argraff dda gyda'r ymroddiad a'r angerdd a ddangoswyd gan y staff mewn cyfarfod diweddar.<br>- cytunodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol â'r pwyntiau a wnaed a chadarnhaodd y byddai'r rhestriad yn cael ei wella a ffotograffau'n cael eu darparu yn dangos yr ystafelloedd gwely a'r golygfeydd anhygoel o'r tŷ a'r gerddi.<br>- cytunodd y Bwrdd i beidio â bwrw ymlaen â phrynu system archebu newydd a allai gefnogi asiantau archebu ar-lein eraill ond yn hytrach defnyddio offer am ddim sydd ar gael fel "Free to Book" sy'n integreiddio pob platfform. Efallai y bydd opsiynau eraill ar gael hefyd, ond os na, cynigiwyd aros gydag Airbnb.<br>- Cytunodd yr aelodau ei bod yn bwysig cadw'r adeilad ar agor.<br>- dylai swyddogion barhau i chwilio am gyfleoedd a marchnadoedd busnes newydd a hefyd dechrau'r broses o ddod o hyd i bartner (iaid) tymor hir ar gyfer y Plas.<br>- pe bai cyfnod clo yn digwydd eto yn y dyfodol, roedd angen cynnal diogelwch yr adeilad a sicrhau bod gofalwr yn bresennol ar y safle.<br>- bydd y model newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod weithio ar opsiynau diswyddo a chytuno ar strwythur staff newydd.<br>- Diolchodd yr aelodau i swyddogion am yr adroddiad a phwysleisiwyd bod marchnata'r Plas yn well bellach yn hanfodol.<br><br>**PENDERFYNWYD**<br>**1. nodi'r adroddiad.**<br><br>**2. cyflwyno adroddiad i'r Awdurdod ym mis Medi:-**<br>- **darparu amlinelliad o'r sefyllfa dros dro yn y Plas a chadarnhau mai darparu Gwely a Brecwast oedd yr unig opsiwn realistig wrth symud ymlaen.**<br>- **adrodd bod y Ganolfan bellach ar agor ar gyfer busnes Gwely a Brecwast ac yn cael ei hyrwyddo trwy Airbnb.**<br>- **argymell y dylid trefnu Cyfarfod Awdurdod Arbennig ym mis Hydref, y bydd swyddogion yn penderfynu ar y dyddiad hwnnw.**<br><br>**3. cyflwyno adroddiad manwl i'r Awdurdod ym mis Hydref:-**<br>- **sefydlu model busnes symlach, gan gynnwys cynigion ac amlinelliad o'r ystod o risgiau o ran goblygiadau ariannol.**<br>- **i gynghori ar y strwythur staff newydd a oedd i'w sefydlu gan fod y newid yn y model busnes yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi disgrifiadau swydd newydd a rhoi cyfle i staff wneud cais am y swyddi newydd.**<br>- **paratoi Cynllun B pe bai busnes yn cael ei gloi i lawr yn llwyr a'i golli.**<br>- **cynnwys y potensial i bartneriaethau symud ymlaen yn y tymor hir.**<br>- **sefydlu proses ar gyfer adolygu'r sefyllfa yn y Plas.** |

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.05**

| | |
|---|---|
| | **BWRDD RHEOLI PLAN TAN Y BWLCH**<br>**DYDD GWENER 11 MEDI 2020** |
| | **<u>Presennol:</u>**<br><br>**Aelodau:**<br>Mr. Neil Martinson (Cadeirydd)<br>Ms. Tracey Evans<br>Mr. Emyr Williams<br>Mr. Iwan Jones<br>Mr. Andrew Oughton<br><br>**Yn mynychu:**<br>Mr. Owain Wyn (ex-officio)<br>Cyng. Alwyn Gruffydd (ex-officio)<br>Cyng. Elwyn Edwards (ex-officio)<br><br>**Swyddogion:**<br>Mrs Jo Worrall, Mrs. Anwen Gaffey. |
| 1. | **Ymddiheuriadau** |
| | Cyng. Wyn E. Jones;<br>Mr. Dafydd Edwards (Swyddog Adran 151)<br><br>Yn codi ar hynny, manteisiodd y Cynghorydd Alwyn Gruffydd ar y cyfle i ymddiheuro i'r Pennaeth Personél am godi cyfres o gwestiynau diangen mewn cyfarfod diweddar, gan nodi ei fod wedi cael ei gamarwain. |
| 2. | **Datgan Budd** |
| | Datganodd Mr. Andrew Oughton fudd yn Eitem 3 ar yr Agenda. |
| 3. | **Achos Busnes Posibl ar gyfer Dechrau Llety o Fath Gwely a Brecwast yn y Plas** |
| | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad i'r Aelodau lunio argymhellion i'r Awdurdod ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch.<br><br>Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol ei fod wedi ymchwilio i'r galw am wely a brecwast yn yr ardal. Roedd ymchwiliadau wedi dangos bod prinder llety o'r fath yn ystod gwyliau ysgol a thymhorau'r ysgwydd, ac mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r staff, cytunwyd i agor Plas Tan y Bwlch ar sail gwely a brecwast ar sail prawf, i sefydlu lefel y busnes dros y tymor byr. Dywedwyd wrth yr aelodau fod Plas Tan y Bwlch, yn unol â hynny, wedi agor heddiw ac ar hyn o bryd bod 16 ystafell ar gael trwy Airbnb. |

| | |
|---|---|
| | Rhagwelwyd hefyd y gellid cynyddu nifer yr ystafelloedd sydd ar gael i 20 erbyn dechrau 2021, yn dilyn uwchraddio'r tair ystafell anabl a thrwy drosi'r Lolfa Tudor yn ystafell wely.<br><br>Adroddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ei fod hefyd yn obeithiol y gallai Plas Tan y Bwlch ddenu busnes ychwanegol, gan fod nifer o brosiectau adeiladu mawr ar fin dechrau yn yr ardal, er ei bod yn rhy fuan i gynnwys unrhyw dargedau yn yr adroddiad. Roedd wedi paratoi taenlen (Atodiad 3) a ddangosodd y byddai'r model busnes Gwely a Brecwast, ar ôl ystyried cyfraddau deiliadaeth rhagamcanol a chostau staff, yn arwain at golled o £15,240, a oedd yn dal o fewn cyllideb Plas Tan y Bwlch ar gyfer 2020/21. Amlygwyd risgiau pellach hefyd, megis bod y pandemig yn gwaethygu dros fisoedd y gaeaf a gostyngiad posibl yn nifer y bobl sy'n teithio.<br><br>Cadarnhaodd y Pennaeth Busnes fod Airbnb yn gweithio'n dda a'i fod wedi arwain at archebu 50%  o'r Ganolfan ar gyfer y 10/11 diwrnod nesaf. Wrth nodi cyflwr presennol yr adeilad, roedd yn gobeithio y byddai Plas Tan y Bwlch yn gallu denu a chynnal adolygiadau cadarnhaol ar-lein.<br><br>Ystyriodd yr aelodau yr adroddiad a gwneud y sylwadau a ganlyn: -<br>- a allai hyn fod yn rhy ychydig yn rhy hwyr? Dylai Plas Tan y Bwlch fod wedi bod yn barod i ailagor yn unol ag adolygiadau tair wythnos Llywodraeth Cymru ac i fod yn barod ar gyfer y dyfodol - dylai fod Cynllun Ôl-adferiad ar waith. Byddai'r Aelod yn anfon templed enghreifftiol at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, i'w ddefnyddio yn y dyfodol.<br>- dywedodd y Prif Weithredwr pe bai cyfnod clo arall yn y chwarter nesaf, gallai'r Ganolfan ddioddef colled o hyd at £30k, a oedd yn dal i fod o fewn cyllideb Plas Tan y Bwlch. Cytunodd y gallai'r Awdurdod fod wedi colli cyfle yn y tymor byr, ond gan fod y rhan fwyaf o staff y Ganolfan ar y cynllun seibiant, roedd swyddogion yn teimlo y bu'n rhaid aros nes derbyn cadarnhad gan Lywodraeth Cymru y byddai'r Awdurdod yn cael ei ad-dalu am golli incwm yn y Plas<br>- nododd Aelod bryderon bod y rhagdybiaethau a wnaed yn y proffil busnes yn rhy optimistaidd ac y gallai refeniw ystafelloedd ar gyfartaledd fod yn is ac arwain at golled fwy na'r disgwyl yn y proffil. Gofynnwyd i swyddogion baratoi gwahanol senarios ar opsiynau deiliadaeth ystafelloedd mewn adroddiadau yn y dyfodol.<br>- cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y rhagdybiaethau a wnaed yn seiliedig ar gyflogi staff parhaol ac nad oeddent yn cynnwys staff tymhorol nac wedi'u prynu i mewn. Byddai'r swydd yn cael ei hail-asesu unwaith y byddai swyddogion yn sefydlu beth fydd lefel y busnes. Byddai'r achos dros agor y bar a darparu prydau min nos hefyd yn cael ei ystyried, er y gellid darparu cinio llawn heb unrhyw gostau staff ychwanegol.<br>- roedd Cadeirydd Bwrdd Plas Tan y Bwlch o'r farn bod y rhagamcanion yn yr adroddiad yn realistig ond yn pryderu bod y rhestriad Airbnb yn tan werthu'r Plas, ac y dylid ei newid yn ddi-oed. Dylai swyddogion hefyd groes-hyrwyddo y rhestriad Airbnb gyda phrif borthiant Twitter yr Awdurdod a cheisio cynyddu |

| | |
|---|---|
| | buddion safleoedd teithio ar-lein eraill i'r eithaf, ac o bosibl trafod sut i hyrwyddo Plas Tan y Bwlch ymhellach gyda Croeso Cymru<br>- roedd y Cadeirydd wedi cael argraff dda gyda'r ymroddiad a'r angerdd a ddangoswyd gan y staff mewn cyfarfod diweddar.<br>- cytunodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol â'r pwyntiau a wnaed a chadarnhaodd y byddai'r rhestriad yn cael ei wella a ffotograffau'n cael eu darparu yn dangos yr ystafelloedd gwely a'r golygfeydd anhygoel o'r tŷ a'r gerddi.<br>- cytunodd y Bwrdd i beidio â bwrw ymlaen â phrynu system archebu newydd a allai gefnogi asiantau archebu ar-lein eraill ond yn hytrach defnyddio offer am ddim sydd ar gael fel “Free to Book” sy'n integreiddio pob platfform. Efallai y bydd opsiynau eraill ar gael hefyd, ond os na, cynigiwyd aros gydag Airbnb.<br>- Cytunodd yr aelodau ei bod yn bwysig cadw'r adeilad ar agor.<br>- dylai swyddogion barhau i chwilio am gyfleoedd a marchnadoedd busnes newydd a hefyd dechrau'r broses o ddod o hyd i bartner (iaid) tymor hir ar gyfer y Plas.<br>- pe bai cyfnod clo yn digwydd eto yn y dyfodol, roedd angen cynnal diogelwch yr adeilad a sicrhau bod gofalwr yn bresennol ar y safle.<br>- bydd y model newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod weithio ar opsiynau diswyddo a chytuno ar strwythur staff newydd.<br>- Diolchodd yr aelodau i swyddogion am yr adroddiad a phwysleisiwyd bod marchnata'r Plas yn well bellach yn hanfodol.<br><br>**PENDERFYNWYD**<br>**1. nodi'r adroddiad.**<br><br>**2. cyflwyno adroddiad i'r Awdurdod ym mis Medi:-**<br>- **darparu amlinelliad o'r sefyllfa dros dro yn y Plas a chadarnhau mai darparu Gwely a Brecwast oedd yr unig opsiwn realistig wrth symud ymlaen.**<br>- **adrodd bod y Ganolfan bellach ar agor ar gyfer busnes Gwely a Brecwast ac yn cael ei hyrwyddo trwy Airbnb.**<br>- **argymell y dylid trefnu Cyfarfod Awdurdod Arbennig ym mis Hydref, y bydd swyddogion yn penderfynu ar y dyddiad hwnnw.**<br><br>**3. cyflwyno adroddiad manwl i'r Awdurdod ym mis Hydref:-**<br>- **sefydlu model busnes symlach, gan gynnwys cynigion ac amlinelliad o'r ystod o risgiau o ran goblygiadau ariannol.**<br>- **i gynghori ar y strwythur staff newydd a oedd i'w sefydlu gan fod y newid yn y model busnes yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi disgrifiadau swydd newydd a rhoi cyfle i staff wneud cais am y swyddi newydd.**<br>- **paratoi Cynllun B pe bai busnes yn cael ei gloi i lawr yn llwyr a'i golli.**<br>- **cynnwys y potensial i bartneriaethau symud ymlaen yn y tymor hir.**<br>- **sefydlu proses ar gyfer adolygu'r sefyllfa yn y Plas.** |

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.05**

**EITEM RHIF 3**

| | |
|---|---|
| | **BWRDD RHEOLI PLAN TAN Y BWLCH**<br>**DYDD MERCHER 3ydd CHWEFROR 2021** |
| | **<u>Presennol:</u>**<br><br>**Aelodau:**<br>Ms. Tracey Evans<br>Cyng. Judith Humphreys<br>Mr. Tim Jones<br>Mr. Emyr Williams<br>Mr. Iwan Jones<br>Ms. Zara Roberts<br><br>**Yn mynychu:**<br>Cyng. Wyn Jones (ex-officio)<br><br>**Swyddogion:**<br>Mrs. Anwen Gaffey. |
| 1. | **Cadeirydd** |
| | Etholwyd Mr. Tim Jones yn Gadeirydd Bwrdd Plas Tan y Bwlch. Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth. |
| 2. | **Ymddiheuriadau** |
| | Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau. |
| 3. | **Datgan Budd** |
| | Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o Fuddiannau Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem. |
| 4. | **Cofnodion** |
| | Derbyniwyd Cofnodion cyfarfodydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar y 19 Awst ac 11 Medi 2020, a llofnododd y Cadeirydd hwy fel gwir gofnodion. |
| 5. | **Rheolwr Tŷ, Plas Tan y Bwlch** |
| | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Ms. Zara Roberts i'r cyfarfod. Yn ddiweddar, penodwyd Zara i swydd Rheolwr Tŷ ym Mhlas Tan y Bwlch, ac yn rhinwedd y rôl hon, roedd bellach yn aelod o Fwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch. Croesawodd yr aelodau Reolwr y Tŷ newydd ei phenodi i'r cyfarfod. |
| 6. | **Plas Tan y Bwlch – Diweddariad** |
| | Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ddiweddariad llafar i'r Aelodau. Dywedodd fod Plas Tan y Bwlch yn parhau ar gau a bod y rhan fwyaf o'r staff ar y cynllun seibiant tan ddiwedd Ebrill 2021. |

| | |
|---|---|
| | Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr hyn a ganlyn:-<br>- cynllun seibiant swyddi, er bod yr Awdurdod yn gwella'r taliadau i sicrhau bod staff yn derbyn 100% o'u cyflogau yn ogystal â chyflawni ei rwymedigaethau pensiwn. Roedd disgwyl i staff ar y cynllun seibiant gymryd eu hawliau gwyliau blynyddol yn ystod yr amser hwn fel y bydd Plas, pan ddaw'r cyfnod clo i ben, mewn sefyllfa i ail agor i ymwelwyr.<br>- roedd gwaith yn parhau ar ailstrwythuro staff a newid / cyfyngu oriau gwaith. Roedd sawl aelod o staff eisoes wedi derbyn pecynnau diswyddo, gyda nifer o ddiswyddiadau pellach yn bosibl. Dylai'r ailstrwythuro gael ei gwblhau dros y ddau fis nesaf, mewn pryd ar gyfer ailagor Plas.<br>- dysgwyd nifer o wersi mewn perthynas â chynnal a chadw'r tŷ yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Roedd trefniadau bellach ar waith i aelod o staff fod yn gyfrifol am agor tapiau er mwyn osgoi peryglon legionella, i wirio am bibellau'n gollwng ac ati, a hefyd, roedd gwaith cynnal a chadw hanfodol yn cael ei wneud, megis uwchraddio gwaith plastr diffygiol i fynd i'r afael â phroblemau lleithder ac atgyweirio cwteri ac ati. Os nad yw atgyweirio'r gwteri yn datrys y problemau lleithder, bydd contractwr yn cael ei gyflogi i wneud gwaith pwyntio ac ati.<br>- roedd swyddogion ar hyn o bryd yn gweithio ar ailsefydlu gwefan ar gyfer Plas Tan y Bwlch. Y bwriad oedd sefydlu'r wefan fel micro-safle, a fydd yn edrych fel safle ar wahân, ond a fydd yn dal i fod yn rhan o brif wefan yr Awdurdod. Nid oedd dylunwyr gwe wedi'u penodi eto, ond bydd y wefan yn barod mewn pryd ar gyfer yr adeg ailagor.<br><br>Yn codi ar hynny, trafododd yr Aelodau a'r swyddogion y canlynol:-<br>- cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd y gwaith uwchraddio arfaethedig yn cael ei symud ymlaen ar hyn o bryd oherwydd efallai nad dyna oedd partneriaid y dyfodol ei eisiau, ond roedd hwn yn dal i fod yn opsiwn ar gyfer y dyfodol. Dywedodd fod Rheolwr y Tŷ yn hyderus bod achos busnes dros redeg Plas Tan y Bwlch fel cyfleuster gwely a brecwast ac y dylai'r Awdurdod fuddsoddi yn yr adeilad, yn hytrach na'r annecs, ar yr adeg hon.<br>- trafodwyd llwyfannau marchnata a gwefannau yn fanwl ac er bod Plas yn cael ei hyrwyddo trwy Airbnb ar hyn o bryd, roedd swyddogion yn edrych ar ehangu i systemau eraill fel 'booking.com' a 'trivago', sef dau o'r peiriannau chwilio mwyaf poblogaidd. Y bwriad hefyd oedd defnyddio cyfryngau cymdeithasol, megis Facebook / Twitter, y mae'r Awdurdod yn eu gweinyddu yn Gymraeg a Saesneg, ac a fyddai'n darparu cyswllt i ddarpar gwsmeriaid archebu'n uniongyrchol gyda'r Plas. Cytunodd yr aelodau y dylai hyn fod yn flaenoriaeth wrth symud ymlaen.<br>- argymhellodd Aelod y dylai Plas Tan y Bwlch hefyd farchnata ei hun ar lwyfannau Cymru, ynghyd â defnyddio tudalennau dwyieithog Facebook a Twitter. Efallai y bydd hefyd yn bosibl cyhoeddi erthygl mewn papur lleol fel 'Golwg'.<br>- dywedodd Rheolwr y Tŷ eu bod, ynghyd â'r Pennaeth Systemau Gwybodaeth, yn gweithio ar sefydlu system archebu electronig na fyddai'n rhy ddrud.<br>- cytunwyd y byddai sefydlu cynllun marchnata yn ddefnyddiol i'r Bwrdd asesu a chytuno cyfeiriad ar gyfer Plas Tan y Bwlch yn y dyfodol.<br>- Trafododd aelodau a swyddogion y ffi archebu a godir gan lwyfannau gwe fel booking.com, y credir ei bod oddeutu 50%. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, credai Rheolwr y Tŷ y gallai Plas Tan y Bwlch godi ei brisiau ar gyfer gwely a brecwast yn hawdd, a nododd fod ymwelwyr a'r Plas yn elwa o olygfeydd heb eu hail y dylid eu hadlewyrchu yn y pris. Yn ogystal, nid oedd Plas Tan y Bwlch wedi cynyddu ei gyfraddau gwely a brecwast ers blynyddoedd lawer ac roedd yn hen bryd codi cyfraddau tymhorol. |

| | |
|---|---|
| | - dywedodd Aelod pan oedd prisiau'n rhy rhesymol, bod cwsmeriaid yn tueddu i fod yn amheus. Mae'r galw am lety yn yr ardal yn aml yn fwy na'r argaeledd, a disgwylid mwy o ymwelwyr yn 2021. Roedd angen cymharu prisiau â busnesau tebyg yn yr ardal a chreu strwythur prisio realistig. Teimlai'r Aelod hefyd fod potensial pellach i'r Plas ddarparu mwy o gyfleusterau fel bar, llogi e.feiciau a hyd yn oed tybiau poeth, i ddenu cwsmeriaid yn y dyfodol.<br>- roedd adborth diweddar ar 'TripAdvisor' wedi awgrymu bod Plas Tan y Bwlch yn le o fath sefydliadol. Credai Rheolwr y Tŷ y bydd marchnata yn y dyfodol yn gallu mynd i'r afael â hyn, wrth i'r Plas symud i ffwrdd o fod yn ganolfan addysg / astudio a sefydlu ei hun fel busnes gwely a brecwast. Bydd prydau bwyd yn cael eu gweini yn Ystafell Oakeley ac yn y Llyfrgell er mwyn symud i ffwrdd o'r argraff "ffreutur" a gwneud y gorau o'r adeilad. Hefyd, bydd pamffledi cwrs yn cael eu tynnu o'r golwg a dylai gwella safon yr ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi helpu i newid y canfyddiad hwn.<br>- Trafododd yr aelodau forâl staff a chawsant eu sicrhau erbyn dechrau mis Mawrth, y bydd yr holl staff wedi cael gwybod am eu sefyllfa ac wedi cael gwybod am y model busnes newydd arfaethedig yn y Plas.<br>- dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y bwriadwyd hefyd i gynhyrchu holiadur i sefydlu a oedd gwesteion eisiau opsiwn pryd nos, a fyddai ar ffurf pryd bar, yn hytrach na'r opsiwn pryd bwyd 3 chwrs a ddarparwyd yn y gorffennol, a byddai angen iddo fod yn broffidiol o hyd.<br>- o ganlyniad i bandemig Covid, atgoffodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y Bwrdd fod yr Awdurdod wedi penderfynu na ddylai Plas Tan y Bwlch anelu at ddod yn westy plasty 3 * mwyach, ond yn hytrach gael ei redeg fel gwestai bach. Pe bai gofynion y farchnad yn gofyn am newid cyfeiriad yn y dyfodol, byddai'n benderfyniad i'r Bwrdd yn y lle cyntaf ac yna'n fater i'r Awdurdod.<br>- nododd y Prif Weithredwr mai'r nod tymor byr oedd i Blas Tan y Bwlch ddod yn hunangynhaliol. Byddai hyn yn caniatáu amser i'r Awdurdod asesu amrywiol opsiynau ar gyfer y dyfodol a pharhau i chwilio am bartner (iaid) tymor hir. Os gellir dangos y gall Plas Tan y Bwlch ddod yn fusnes hyfyw, yna penderfyniad i'r Awdurdod fyddai hwn yn y 18 mis i 2 flynedd nesaf.<br>- cytunodd y Bwrdd â'r uchod, ond nododd y byddai'n rhaid cynnwys pwrpasau'r Parc Cenedlaethol yn y model busnes yn y tymor canolig.<br>- nododd Aelod fod enghreifftiau o fentrau lleol sy'n cael eu rhedeg er budd eu cymunedau, a gallai Plas Tan y Bwlch ddysgu oddi wrthynt.<br>- Cytunodd yr aelodau i Gynllun Adfer gael ei roi ar waith i'w ddefnyddio unwaith y bydd y Prif Weinidog yn dechrau ailagor y sector twristiaeth. Cynigiodd aelod anfon templed at Reolwr y Tŷ, y gellid ei newid i'w ddefnyddio ym Mhlas Tan y Bwlch.<br><br>**GWEITHRED nodi'r adroddiad a diolch i swyddogion am eu gwaith.** |
| **8.** | **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf** |
| | Ymgynnull cyfarfod nesaf Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch ar 24 Mawrth 2021. |

**Daeth y cyfarfod i ben am 13.50**

**EITEM RHIF 4**

| | **BWRDD RHEOLI PLAS TAN Y BWLCH**<br>**DYDD MERCHER 24ain MAWRTH 2021** |
|---|---|
| | **<u>Presennol:</u>**<br><br>**Aelodau:**<br>Ms. Tracey Evans<br>Mr. Tim Jones<br>Mr. Emyr Williams<br>Mr. Iwan Jones<br>Ms. Zara Roberts<br><br>**Yn mynychu:**<br>Cyng. Wyn Jones (ex-officio)<br><br>**Swyddogion:**<br>Mrs. Sarah Roberts. |
| 1. | **Ymddiheuriadau** |
| | Cyng. Judith Humphreys. |
| 2. | **Datganiad budd** |
| | Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o Fuddiannau Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem. |
| 3. | **Cofnodion** |
| | Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror, a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd fel cofnod cywir. |
| 4. | **Adroddiad Rheolwr y Tŷ** |
| | Cyflwynwyd – Adroddiad gan Reolwr y Tŷ yn diweddaru'r Aelodau ar gynnydd.<br><br>Adroddwyd – Cyflwynodd Rheolwr y Tŷ yr adroddiad ac amlinellodd y prif bwyntiau.<br><br>Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad yn fanwl a gwneud y sylwadau a ganlyn:<br>- roedd gan Aelod ddiddordeb mewn gweld bod 'marchnad covid' ac roedd yn teimlo y byddai llawer o alw am lety yn Eryri gan y byddai pobl yn cymryd gwyliau gartref eleni oherwydd y cyfyngiadau.<br>- dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod rhai busnesau lleol yn ansicr ynghylch cynyddu prisiau oherwydd y sefyllfa bresennol a gofynnodd i Aelodau'r Bwrdd a fyddent yn hapus i brisiau aros yr un fath am y tro a bod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Rheolwr y Tŷ yn asesu'r sefyllfa ac yn cynyddu/ gostwng prisiau yn unol â'r farchnad. Cytunodd yr aelodau, gan fod marchnata ac archebion gael eu gwneud yn ddigidol, bod hyn yn ei gwneud yn llawer haws i'w newid na thaflen farchnata argraffedig. |

| | | |
|---|---|---|
| | | - roedd Aelod yn teimlo, er bod angen i brisiau fod yn gystadleuol, ei bod yn bwysig rhoi rhywfaint o hyblygrwydd ac osgoi unrhyw is-dorri (sef cynnig pris is na chystadleuwyr).<br>- teimlai'r Prif Weithredwr, gan nad oedd rhai o'r ystafelloedd gwely yn ddigon mawr i ganiatáu i westeion fwyta eu brecwast, roedd hyn yn gwneud yr opsiynau ychydig yn fwy cyfyngedig. Gofynnodd beth oedd y sbardunau ar gyfer ailagor ac a oedd yn ymarferol cynnig cinio dynodedig ar gyfer pum ystafell yn unig. Er enghraifft, pe bai'r cyfyngiadau/ canllawiau'n newid i ganiatáu bwyta dan do, byddai hyn yn caniatáu i'r Plas osod ugain ystafell o fewn y canllawiau.<br>- mewn ymateb i gwestiwn gan y Prif Weithredwr, cadarnhaodd Rheolwr y Tŷ fod y canllawiau cyfredol yn caniatáu llety hunangynhwysol yn unig. Dywedodd fod Asesiad Risg wedi'i gynnal ac nad oedd unrhyw bryderon ynghylch cynnal system unffordd trwy'r adeilad, ond roedd yn teimlo nad oedd yr ystafelloedd ar hyn o bryd o safon dderbyniol i weini brecwast ynddynt.<br>- trafododd yr aelodau a fyddai'n opsiwn ymarferol defnyddio dim ond pum ystafell gyda chiniawa dynodedig yn hytrach na bod yn hunangynhwysol, ac a fyddai'n ddigon cadarn. Cadarnhaodd Rheolwr y Tŷ ei bod yn bosibl ond yn ansicr a fyddai'n dod ag incwm digonol. Dewis arall oedd cynnig slotiau i frecwast ond unwaith eto byddai hyn yn golygu oriau ychwanegol i staff y gegin o ran glanhau rhwng gwesteion a gosod byrddau ar ôl pob gwestai ac ati.<br>- trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion yr opsiwn o gynnig pryd nos ac a fyddai'n dod â digon o incwm i mewn. Dywedodd Rheolwr y Tŷ fod estyniad i'r ffyrlo wedi ei gwneud yn bosibl cynnig pryd nos a bod archebion Grŵp yn y gorffennol wedi nodi bod galw am bryd nos, ond roedd hi'n ansicr faint o incwm ychwanegol y byddai hyn yn ei gynhyrchu. Cytunodd yr aelodau ei bod yn well dilyn y galw cyn ystyried cynnig pryd nos.<br>- roedd Aelod yn teimlo bod potensial i werthu ystafelloedd fel pecyn yn cynnwys 'rhai prydau bwyd' gan y byddai Swyddogion yn gwybod faint o incwm y byddai'n dod i mewn ac oherwydd y cyfyngiadau, gallai llawer o gwsmeriaid/gwesteion fod yn fwy cyfforddus yn bwyta mewn ystafelloedd ar wahân. Awgrymodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y gellid defnyddio'r ystafelloedd teulu fel ystafelloedd dau wely dros dro, ac y gellid rhoi ystafell fwyta ddynodedig i bob ystafell.<br>- dywedodd Rheolwr y Tŷ ei bod yn ansicr sut y gellid gweini brecwast o dan y canllawiau cyfredol. Trafododd yr aelodau ymhellach yr opsiwn o slotiau dyranedig i weini brecwast. Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn cwrdd â Chroeso Cymru y diwrnod canlynol a gofynnodd i Reolwr y Tŷ anfon unrhyw gwestiynau ato. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'n well aros am ymateb Croeso Cymru cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol. Cytunodd y Bwrdd i'r Prif Weithredwr a Rheolwr y Tŷ benderfynu ar y ffordd ymlaen yn dilyn derbyn arweiniad gan Groeso Cymru.<br>- dywedodd y Prif Weithredwr y byddai pob gwesty yn gallu ailagor yn ystod mis Mai pan fyddai bwyta cymunedol yn cael ei ganiatáu, gyda chanllawiau pellhau cymdeithasol yn dal i fod ar waith. Cadarnhaodd Rheolwr y Tŷ, gan fod hwn wedi cael ei roi ar brawf ym mis Medi, fod Asesiad Risg eisoes yn ei le, felly roeddent yn hyderus y gellid gwneud hyn i safon dda.<br>- dywedodd Rheolwr y Tŷ fod angen iddynt fod yn glir cyn ailagor er mwyn osgoi torri rheoliadau covid a derbyn adolygiadau gwael. Cytunodd yr aelodau ei bod yn well osgoi gwneud unrhyw beth os oedd unrhyw ansicrwydd o ran diogelwch gwesteion.<br>- dywedodd Rheolwr y Tŷ fod archebion a oedd i fod i ddigwydd ym mis Mawrth/Ebrill bellach wedi cael eu hail-archebu ar gyfer Mai/Mehefin/Gorffennaf pan fydd canllawiau yn caniatáu defnyddio cyfleusterau a rennir ayb. |

| | |
|---|---|
| | - roedd Aelod yn teimlo bod potensial i ddenu mwy o archebion ar gyfer priodasau oherwydd ei bod yn anhygoel o anodd sicrhau lleoliad a bod llawer o briodasau wedi'u gohirio oherwydd y Pandemig.<br>- mewn ymateb i gwestiwn gan y Prif Weithredwr, dywedodd Rheolwr y Tŷ, er mwyn newid y canfyddiad o'r Plas, eu bod yn y broses o ailosod y carpedi yn y cyntedd ac ar y grisiau. Hefyd, byddai ystafell a Llyfrgell Oakley bellach yn cael eu defnyddio fel ardaloedd bwyta yn hytrach na'r ffreutur, i geisio creu teimlad o blasty yn hytrach na Sefydliad.<br>- adroddodd Rheolwr y Tŷ am yr arian a dderbyniwyd gan Gyfeillion Plas Tan y Bwlch i wella'r gerddi, a'i bod hefyd wedi holi am arian tuag at brynu rhai matresi newydd.<br>- mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd Rheolwr y Tŷ fod cost cynhyrchu taflenni marchnata bellach wedi mynd.<br>- gofynnodd y Prif Weithredwr a oedd cynllun wrth gefn yn ei le pe bai'r staff presennol yn penderfynu gadael. Cytunodd Rheolwr y Tŷ fod risg y gallai staff cyfredol adael i ddod o hyd i swyddi mwy diogel a dywedodd nad oedd cynllun ar waith ar hyn o bryd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd yn poeni gormod am briodasau a digwyddiadau mawr tebyg oherwydd gellid defnyddio arlwywyr allanol ond dywedodd fod y cynllun ffyrlo bellach wedi'i ymestyn a bod y cynnig diswyddo wedi'i dynnu'n ôl, a oedd yn caniatáu i staff presennol y gegin gadw eu swyddi a sicrhau'r swyddi ar gyfer y dyfodol. Hefyd, roedd yr estyniad i'r cynllun ffyrlo yn caniatáu amser i ohirio unrhyw newidiadau i'r strwythur Staff ac yn rhoi hyblygrwydd i asesu'r angen ac ati, ond dywedodd fod risg arall ar ôl i'r cynllun ffyrlo ddod i ben.<br>- dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai trafodaeth yn cael ei chynnal gyda staff i weld beth oedd eu bwriadau ac os byddai llawer o'r staff yn penderfynu gadael yna byddai angen hysbysebu unrhyw swyddi cyn gynted â phosibl. Dywedodd Rheolwr y Tŷ a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wrth y Bwrdd nad oedd unrhyw sicrwydd ar hyn o bryd.<br>- trafododd yr aelodau ymhellach y risg y bydd staff cyfredol yn gadael a'r opsiwn o gontract arlwyo. Teimlai'r aelodau ei bod yn well cael contract arlwyo ar waith i reoli unrhyw risgiau tymor byr ac roeddent yn teimlo y dylai fod cynllun wrth gefn yn ei le ar gyfer y tymor hir pe bai'r staff presennol yn penderfynu ymddiswyddo.<br>- roedd Aelod yn teimlo y byddai cymaint o bobl yn chwilio am waith oherwydd y pandemig, efallai bod hwn yn gyfle i benodi staff â sgiliau gwahanol i gyd-fynd â'r busnes ym Mhlas Tan y Bwlch.<br>- roedd Aelod yn teimlo ei bod yn bwysig defnyddio contractwyr arlwyo lleol lle bo hynny'n bosibl a gofynnodd Rheolwr y Tŷ i'r Aelodau anfon unrhyw gysylltiadau/ enwau contractwyr arlwyo ati.<br>- trafododd yr aelodau Gynllun Marchnata'r Plas a diweddarodd Rheolwr y Tŷ y Bwrdd ar y system archebu newydd a chynghori mai 'Q Book' oedd yr opsiwn gorau gan y gallai hyn gael ei uwchraddio pan oedd angen a'i gysylltu â gwefannau archebu eraill e.e. booking.com, trivago, ac ati. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o wefannau archebu eraill i ehangu/ymestyn o Airbnb i ddenu cwsmeriaid gwahanol. Roedd Rheolwr y Tŷ yn hyderus y byddai defnyddio gwefannau fel booking.com yn denu marchnad wahanol i aros yn Plas. Hefyd, byddai gwesteion yn dal i allu archebu lle dros y ffôn, ac roedd hyn yn rhywbeth a fyddai'n cael ei hyrwyddo.<br>- trafododd yr aelodau y gyllideb Farchnata a chadarnhaodd Rheolwr y Tŷ fod y gyllideb yn ddigonol.<br>- trafododd yr aelodau ymhellach botensial defnyddio'r Plas fel lleoliad priodas a dywedodd Rheolwr y Tŷ, pe bai modd gwneud y gwaith adnewyddu |

| | |
|---|---|
| | angenrheidiol yn Plas, ei bod yn hyderus y gallai gael ei ddefnyddio ar gyfer priodasau yn y dyfodol.<br>- gofynnodd Aelod beth oedd y costau ar gyfer y gwaith adnewyddu arfaethedig. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru ond dywedodd na fyddai hyn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw waith allanol a dywedodd y byddai angen cynnal trafodaethau pellach ar ffyrdd i fuddsoddi arian yn y dyfodol.<br>- dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod potensial i ddefnyddio'r atodiad fel hostel yn y dyfodol ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau ar yr adeilad.<br>- gofynnodd yr aelodau am ddiweddariad ar gostau i adnewyddu'r adeilad erbyn cyfarfod nesaf Bwrdd Plas Tan y Bwlch.<br><br>Ar ran y Bwrdd, diolchodd y Cadeirydd i Reolwr y Tŷ am ei hadroddiad cynhwysfawr.<br><br>**GWEITHREDU:**<br>**1. nodi'r adroddiad.**<br>**2. i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Rheolwr y Tŷ asesu'r sefyllfa a gostwng/cynyddu prisiau yn unol â'r galw.**<br>**3. y Prif Weithredwr a Rheolwr y Tŷ i benderfynu ar y ffordd orau ymlaen yn dilyn arweiniad pellach gan Groeso Cymru.**<br>**4. Swyddogion i adolygu'r sefyllfa a rhoi diweddariad i Aelodau'r Bwrdd ar ddatblygiadau.** |
| 5. | **Dyddiad y cyfarfod nesaf** |
| | I gynnull cyfarfod nesaf Bwrdd Plas Tan y Bwlch ar **9fed Mehefin 2021**. |

**Daeth y cyfarfod i ben 15.15**

**EITEM RHIF 4**

| | |
|---|---|
| | **BWRDD RHEOLI PLAN TAN Y BWLCH**<br>**DYDD MERCHER 9 MEHEFIN 2021** |
| | **<u>Presennol:</u>**<br><br>**Aelodau:**<br>Cyng Judith Humphreys<br>Ms. Tracey Evans<br><br>Mr. Emyr Williams<br>Mr. Iwan Jones<br>Ms. Zara Roberts<br><br>**Yn mynychu:**<br>Cyng. Wyn Jones (ex-officio)<br><br>**Swyddogion:**<br>Mrs. Sarah Roberts. |
| 1. | **Cadeirydd** |
| | Etholwyd Mr. Tim Jones yn Gadeirydd ar Fwrdd Plas Tan y Bwlch.<br><br>Yn absenoldeb y cadeirydd newydd ei ethol, etholwyd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig. |
| 2. | **Ymddiheuriadau** |
| | Cyng Annwen Hughes (ex-officio), Mr Tim Jones. |
| 3. | **Datgan Budd** |
| | Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o Fuddiannau Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem. |
| 4. | **Cofnodion** |
| | Derbyniwyd Cofnodion y Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch cyfarfod a gynhaliwyd ar y 24 Mawrth 2021, a llofnododd y Cadeirydd hwy fel gwir gofnod.<br><br>Yn codi ar hynny,<br><u>5. Adroddiad Rheolwr y Tŷ</u><br>dywedodd y Prif Weithredwr, yn dilyn trafodaethau gyda Croeso Cymru ynghylch ailagor Plas Tan y Bwlch yn rhannol, y penderfynwyd dilyn canllawiau cyffredinol a dilyn y farchnad ar ailagor. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ei bod yn bwysig cydymffurfio'n llawn â'r rheolau / canllawiau. |

| | |
|---|---|
| | Gofynnodd Aelod am ddiweddariad ar y potensial ar gyfer cynnal priodasau yn y Plas. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai diweddariad yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod ar y sefyllfa bresennol o ran priodasau. |
| 5. | **Diweddariad ar Blas Tan y Bwlch** |
| | Cyflwynwyd - Adroddiad gan Reolwr y Tŷ i roi diweddariad i'r Aelodau ar y cynnydd.<br><br>Adroddwyd - Cyflwynodd Rheolwr y Tŷ'r adroddiad ac amlinellodd y prif bwyntiau. Dywedwyd wrth yr aelodau fod Plas wedi bod yn hynod o brysur ers ailagor. Nododd yr aelodau nad oedd cogydd wedi'i benodi hyd yma. Dywedodd Rheolwr y Tŷ fod y Pennaeth Personél wedi cysylltu â cholegau lleol / Indeed ac ati i geisio llenwi'r swyddi a'i bod yn aros am ddiweddariad ar y sefyllfa yn ystod y dyddiau nesaf.<br><br>Trafododd yr aelodau'r adroddiad yn fanwl a gwneud y sylwadau canlynol:<br>- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod yr Awdurdod eisoes wedi'i gofrestru gyda chynllun Kickstart a dywedodd y byddai'n bosibl gofyn i'r Pennaeth Personél gynnwys Plas Tan y Bwlch.<br>- cynghorodd Rheolwr y Tŷ ar yr anawsterau wrth benodi staff ac roedd yn ymwybodol bod llawer o sefydliadau yn wynebu'r un problemau.<br>- dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol mai dim ond un cogydd oedd ar hyn o bryd a oedd yn cyfyngu'r cynnig o frecwast i ddim ond pum diwrnod yr wythnos gyda chogydd arall ar absenoldeb salwch ar hyn o bryd. Dywedwyd wrth y Bwrdd fod holiadur wedi'i ddosbarthu i westeion i sefydlu'r angen / galw am bryd o fwyd gyda'r nos a fyddai'n rhoi darlun cliriach ar gyfer y Plas o ran a ddylid cynnig pryd nos os yw adnoddau yn caniatáu.<br>- dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol na fyddai unrhyw staff sydd newydd eu penodi yn gymwys ar gyfer y Cynllun Seibiant Swyddi ac roedd risg hefyd y gallai'r staff presennol geisio am swydd arall unwaith y bydd y Cynllun yn dod i ben.<br>- Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd Rheolwr y Tŷ fod y gyfradd gyflog yn gystadleuol gyda'r sector preifat.<br>- Dywedodd Rheolwr y Tŷ mai dim ond un ystafell sydd yna nad yw'n cyrraedd y safon ddisgwyliedig ar hyn o bryd a dywedodd nad oedd yr annecs yn cael ei osod allan oherwydd cyflwr yr ystafelloedd.<br>- Dywedodd Rheolwr y Tŷ fod Plas Tan y Bwlch wedi derbyn llawer o adolygiadau cadarnhaol gyda dim ond ychydig o adolygiadau negyddol ynghylch y cawodydd. Dywedwyd wrth y Bwrdd fod pennau a falfiau cawod newydd bellach wedi'u prynu a ddylai osgoi adolygiadau negyddol pellach.<br>- Hysbysodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y Bwrdd fod swm sylweddol o arian wedi'i fuddsoddi ar system wresogi newydd ar gyfer Plas a gofynnwyd am gyngor arbenigol ar y ffordd ymlaen. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'n well ceisio cyngor arbenigol pellach gan arbenigwyr gwresogi a byddai'n gofyn i'r Pennaeth Eiddo gysylltu â'r cwmni.<br>- Cadarnhaodd Rheolwr y Tŷ y bu llawer o alw am lety yn ystod y pythefnos ers ailagor a chynghorodd y byddai adroddiad manylach ar incwm a gwariant yn cael ei ddarparu i Aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Plas Tan y Bwlch.<br>- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, dywedodd Rheolwr y Tŷ fod y swyddi'n cael eu hysbysebu ar Wefan yr Awdurdod, gwefannau cyfryngau cymdeithasol ac ar Indeed. Nododd yr aelodau, oherwydd ychydig o ymateb, fod y swydd ar gyfer cogydd newydd bellach wedi'i hymestyn o un awr ar |

| | |
|---|---|
| | bymtheg i bum awr ar hugain yr wythnos ac y byddai'r disgrifiad swydd yn cael ei newid i alluogi ymgeiswyr â phrofiad i ymgeisio am y swydd. Dywedodd Rheolwr y Tŷ y byddai angen ymestyn y dyddiad cau er mwyn caniatáu amser i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Disgrifiad Swydd ac y byddai'n trafod y mater gyda'r Pennaeth Personél.<br>- Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai angen cyflwyno unrhyw newidiadau i'r Disgrifiad Swydd i'r Tîm Rheoli i'w cymeradwyo.<br>- Cadarnhaodd Rheolwr y Tŷ y byddai'r system archebu newydd yn mynd yn fyw yn ystod yr wythnos nesaf. Byddai hyn yn caniatáu i'r Plas gael mynediad at farchnad ehangach a byddai'n cysylltu â gwefannau archebu eraill e.e. Booking.com, Trivago, Expedia, Airbnb ac ati. Byddai gwesteion hefyd yn derbyn pecyn croeso dwyieithog wrth archebu. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd y system archebu wedi gallu mynd yn fyw yn gynt fel y gellid gwneud newidiadau i'r system ar y funud olaf oherwydd y sefyllfa staffio bresennol.<br>- Dywedodd Rheolwr y Tŷ na fyddai brecwast ar gael ddydd Sul 20 Mehefin oherwydd prinder staff. Trafododd y Bwrdd amryw opsiynau a theimlai ei bod yn well cynghori gwestai na fyddai brecwast wedi'i goginio ar gael ar y diwrnod hwnnw ond cytunwyd y byddai gweini brecwast cyfandirol gyda gwasanaeth gweinyddes yn ddewis arall priodol.<br>- gofynnodd Aelod a fyddai defnyddio arlwywyr allanol yn opsiwn pe bai materion staffio yn parhau i fod yn broblem. Cadarnhaodd Rheolwr y Tŷ ei bod wedi cysylltu â nifer o arlwywyr allanol lleol, ond eu bod wedi'u harchebu'n llawn am y flwyddyn, a'i bod hefyd wedi cysylltu ag arlwywyr yn ardal Lerpwl / Caer ac yn aros am ymateb.<br>- Roedd Rheolwr y Tŷ yn hyderus y byddai'r archebion yn cynyddu unwaith y byddai'r system archebu newydd ar waith a dywedodd fod Plas yn brysur hyd at fis Hydref.<br>- gofynnodd Aelod a fyddai'n syniad da paratoi ymateb ar gyfer y cyfryngau pe bai rhywun yn cysylltu â'r Awdurdod ynghylch Plas Tan y Bwlch bellach yn cael ei ddefnyddio fel cyfleuster Gwely a Brecwast yn hytrach na Chanolfan Addysg. Dywedodd Rheolwr y Tŷ ei bod wedi paratoi erthygl ar gyfer cylchlythyr yr Awdurdod yn egluro'r cyfleusterau sydd gan Blas Tan y Bwlch bellach i'w cynnig.<br>- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhaodd Rheolwr y Tŷ fod y ffigurau ariannol cyfredol ar gyfer Plas yn edrych yn addawol ond gan mai pythefnos yn unig a fu ers ailagor, nid oedd ffigurau manylach ar gael. Anogwyd y Bwrdd fod Plas Tan y Bwlch yn gwneud yn dda ond roeddent yn cydnabod bod materion staffio yn broblem sylweddol.<br>- Dywedodd Rheolwr y Tŷ hefyd ei bod yn bosibl i Diwtoriaid ddefnyddio'r ystafelloedd yn y Plas i gynnal darlithoedd ond na fyddai staff ym Mhlas Tan y Bwlch yn gyfrifol am unrhyw drefniadau.<br><br>Llongyfarchodd Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd Reolwr y Tŷ ar y cynnydd a wnaed hyd yma.<br><br>**GWEITHRED:**<br>**1. nodi'r adroddiad.**<br>**2. y Pennaeth Eiddo i ofyn am gyngor arbenigol pellach ar y system wresogi newydd ar gyfer Plas Tan y Bwlch.** |

| | |
|---|---|
| | **3. Rheolwr y Tŷ i roi ffigurau incwm i Aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfod nesaf o Gyfarfod Bwrdd Plas Tan y Bwlch.** |
| 5. | **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf** |
| | I gynnull cyfarfod nesaf Bwrdd Plas Tan y Bwlch ar **13eg Hydref 2021**. |

**Daeth y cyfarfod i ben am 15.00**

**EITEM RHIF 3**

| BWRDD RHEOLI PLAS TAN Y BWLCH<br>DYDD MERCHER 13 HYDREF 2021 | |
|---|---|
| | **Presennol:**<br><br>**Aelodau:**<br>Mr. Tim Jones (Cadeirydd)<br>Ms. Tracey Evans<br>Mr. Emyr Williams<br>Mr. Iwan Jones<br>Ms Zara Roberts<br><br>**Yn bresennol:**<br>Y Cyng. Wyn Ellis Jones (ex officio)<br><br>**Swyddogion:**<br>Mrs. Anwen Gaffey |
| 1. | **Cadeirydd** |
| | Cadarnhawyd Mr. Tim Jones yn Gadeirydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch. |
| 2. | **Ymddiheuriadau** |
| | Cyng Judith Humphreys |
| 3. | **Datgan Budd** |
| | Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o Fuddiannau Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem. |
| 4. | **Cofnodion** |
| | Derbyniwyd Cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2021, a llofnododd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir. |
| 5. | **Plas Tan y Bwlch – Diweddariad** |
| | Cyflwynwyd - Adroddiad llafar gan Reolwr y Tŷ yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gynnydd.<br><br>Adroddwyd - Ymddiheurodd Rheolwr y Tŷ am y diweddariad llafar a gododd o achos problemau gyda'r system gyllid. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod system archebu newydd bellach ar waith ond nad oedd wedi'i sefydlu'n ddigonol eto i'r Rheolwr Tŷ allu llunio adroddiad ysgrifenedig. Paratowyd taenlen a byddai'r Aelodau'n cael copi yn dilyn y cyfarfod heddiw.<br>– dywedodd y Rheolwr Tŷ fod Plas Tan y Bwlch wedi bod ar agor i fusnes ers 28 Mai 2021.<br>– Bod diffyg staff wedi cael effaith sylweddol ar y busnes. Mae'r Rheolwr Tŷ wedi ymgymryd â dyletswyddau derbynfa ochr yn ochr â gofynion ei rôl ei hun, ac fe effeithiodd yn andwyol ar ei hiechyd. |

| | |
|---|---|
| | – gofynnwyd i staff weithio mwy o oriau na'r oriau dan gontract, sydd wedi arwain at absenoldebau pellach oherwydd salwch.<br>– i oresgyn absenoldebau o'r fath:-<br>• roedd glanhawyr contract yn cael eu cyflogi i dalu am absenoldeb staff glanhau. Roedd y sefyllfa bellach wedi gwella, ac nid oedd angen glanhawyr contract mwyach, er eu bod ar gael pe bai problem yn codi eto yn y dyfodol.<br>• mae'r swydd wag 'cogydd' bellach wedi'i llenwi ac mae wedi arwain at adolygiadau cadarnhaol iawn.<br>• gan fod oriau staff y derbynnydd / gweinydddydd yn annigonol, ac er mwyn darparu sefydlogrwydd, crëwyd swyddi'r gweinyddu newydd ac fe benodwyd i'r swydd. Bydd deiliad y swydd yn dechrau gweithio'r wythnos nesaf a bydd hyn yn rhyddhau'r Rheolwr Tŷ i ganolbwyntio ar ran fwy annatod ei rôl.<br>– yn anffodus, mae rhai problemau'n parhau - mae'r pedwar gweinyddes a gyflogwyd yn ystod misoedd yr haf i gyd bellach wedi dychwelyd i'w Prifysgolion.<br>– manteisiodd Rheolwr y Tŷ ar y cyfle i ddiolch i Aled Lloyd a Marion Chapman, y ddau aelod o staff o Brif Swyddfa ym Mhenrhyndeudraeth, am gamu i mewn i helpu eu cydweithwyr yn y Plas. Mae'r haf hwn wedi bod yn gadarnhaol iawn ac roedd wedi rhoi hwb i forâl.<br>– Mae Plas Tan y Bwlch wedi profi lefelau defnydd uchel drwy gydol yr haf ac wedi cyrraedd ei darged, mae hwn wedi'i godi ymhellach er mwyn talu am gost y lefelau staffio.<br>– mae'r methiant i ddarparu prydau gyda'r nos wedi arwain at golli busnes a bydd angen ystyried ymhellach ymarferoldeb cynnig y gwasanaeth hwn.<br>– Ar y cyfan, mae adborth gan y gwesteion wedi bod yn gadarnhaol, yn enwedig o ran y staff.<br>– mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod staff ym Mhlas Tan y Bwlch yn gweithio contractau oriau wedi'u blynyddoli. Dywedodd fod rhai staff, a oedd wedi cronni balansau mawr iawn yn y gorffennol, yn cael eu had-dalu.<br>– cytunodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod Rheolwr y Tŷ yn gweithio o dan bwysau sylweddol a bod rhai staff, sydd wedi gweithio yn y Ganolfan ers blynyddoedd lawer, wedi cael anawsterau wrth addasu i ail-bwrpasu'r Plas dros dro, ailstrwythuro a rôl y Rheolwr Tŷ.<br>– yna amlinellodd y Rheolwr Tŷ'r problemau seilwaith a ganlyn:-<br>• roedd yn rhaid cau nifer o ystafelloedd gwely oherwydd problemau lleithder. Mae'r rhain yn ystafelloedd lle nad yw lleithder yn effeithio arnynt fel arfer ac mae'n cynnwys y siale. Mae adolygiadau gwestai o'r ystafelloedd gwely wedi nodi nad oedd y llety'n cyrraedd y safon, ac er mwyn osgoi adolygiadau gwael pellach, penderfynodd y Rheolwr Tŷ beidio â defnyddio unrhyw un o'r ystafelloedd nes i'r broblem lleithder gael ei datrys<br>• dywedodd y Rheolwr Tŷ bod rhai o'r ffenestri sash wedi torri a'u bod yn risg diogelwch. Er mwyn osgoi unrhyw ddamweiniau posibl, roedd y ffenestri bellach wedi'u cau.<br>• mae biliau cynnal a chadw uchel yn peri pryder. Nid oedd y system dŵr poeth yn gweithio'n iawn o hyd, gan arwain at orfod galw |

| | | |
|---|---|---|
| | | peiriannydd allan hyd at dair gwaith mewn wythnos, a oedd yn gostus iawn.<br>• roedd biliau ynni uchel, sydd i'w gweld yn cael eu cyflwyno gan dri chyflenwr ar wahân, hefyd yn destun pryder. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol ei fod yn cytuno'n ddiweddar y byddai'r Pennaeth Eiddo bellach yn gyfrifol am dalu holl filiau cyfleustodau'r Awdurdod er mwyn cyfrifo ôl troed carbon yr Awdurdod. Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn gofyn i'r Pennaeth Eiddo ymchwilio pam mae'n ymddangos bod tri darparwr cyfleustodau gwahanol ac yn adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf Bwrdd Plas Tan y Bwlch.<br>• roedd y gwaith ar yr annecs yn dal heb ei gyflawni gyda gwaith plastro yn dal i aros i gael ei wneud.<br>• Bydd cyfarfod yn cael ei gynnull rhwng y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, y Gwasanaeth Eiddo a Rheolwr y Tŷ i adolygu'r materion a amlinellir uchod yn ddi-oed.<br>– mewn ymateb i gwestiwn, adroddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod cyfiawnhad dros y penderfyniad i beidio â gwario'r £250k ar uwchraddio'r ystafelloedd gwely ym Mhlas gan ei bod bellach wedi dod i'r amlwg, gyda'r problemau sydd wedi dod i'r amlwg wedyn, y byddai unrhyw waith a wnaed wedi cael effaith fawr ar y problemau llaith sy'n wedi dod i'r amlwg yn awr.<br>– Cytunodd yr Aelodau mai rôl y Gwasanaeth Eiddo oedd ymgysylltu â chontractwyr i wneud gwaith ym Mhlas Tan y Bwlch.<br>– cytunodd y Bwrdd y dylai'r Pennaeth Eiddo ymgysylltu â syrfëwr, ar unwaith, i asesu'r sefyllfa a pharatoi cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion uchod, gan fod adeiladwaith y tŷ yn dirywio.<br>– cytunwyd bod angen mynd i'r afael â strwythur yr adeilad cyn buddsoddi yn yr adeilad mewnol.<br>– yna trafodwyd archebion yn y dyfodol yn fanwl:-<br>• dywedodd y Rheolwr Tŷ, er bod lefelau defnydd wedi bod yn uchel, y bu rhai problemau gydag archebion dwbl oherwydd problemau gyda'r system archebu newydd. Cafodd hyn ei ddatrys dros dro drwy dynnu Airbnb oddi ar y system.<br>• Rhoddwyd y ffigurau incwm a gwariant i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod. Rhoddodd y Rheolwr Tŷ eglurhad o'r ffigurau a chytunodd i ddosbarthu copi i'r Aelodau.<br>• Nododd aelodau'r Bwrdd nad oedd y ffigur yn cynnwys Archebion Grŵp. Dywedodd y Rheolwr Tŷ fod Red Bull wedi cynhyrchu incwm o £13,000 ond eu bod, yn anffodus, wedi achosi cryn ddifrod ac wedi cael bil o £8,000 i dalu am gost atgyweiriadau ac ati. Yn dilyn eu harhosiad yn y Plas, bu angen glanhau'n ddwfn i sicrhau bod y llety'n barod ar gyfer gwesteion eraill.<br>• dywedodd y Rheolwr Tŷ fod Red Bull yn bwriadu dychwelyd y flwyddyn nesaf ond y byddai angen iddo ddod â'u staff eu hunain i osgoi'r un problemau eto yn y dyfodol.<br>• Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oedd cyfarfodydd dydd wedi'u cynnwys yn y ffigurau oherwydd nad oedd digon o amser i baratoi'r anfonebau. |

| | |
|---|---|
| | • roedd y Rheolwr Tŷ yn hapus i adrodd bod y targed incwm wedi'i gyrraedd yn ystod Covid-19 ac ar adeg pan fo prisiau ynni wedi cynyddu'n sylweddol.<br>• eglurodd y Rheolwr Tŷ ymhellach fod hyn ar sail incwm rhagamcanol yn y dyfodol hyd at ddiwedd Mawrth 2022.<br>• Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Ysgolion / Cyrsiau am ddychwelyd i'r Plas y flwyddyn nesaf ac wedi holi am argaeledd pryd bwyd gyda'r nos, a oedd wedi cael eu darparu mewn blynyddoedd blaenorol.<br>• Mewn ymateb i gwestiwn gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, cadarnhaodd y Rheolwr Tŷ eu bod yn disgwyl i Swyddog Addysg arwain y grŵp a'u bod yn bwriadu gweithio gyda'r Gwasanaeth Wardeinio fel opsiwn posibl, gan fynd â grwpiau ar dripiau cerdded ac ati. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod swyddogion ar gael a allai fynychu Plas Tan y Bwlch am ychydig ddyddiau neu am wythnos ar y tro yn ôl yr angen.<br>• dywedodd y Rheolwr Tŷ fod Plas Dol y Moch wedi bod mewn cysylltiad i holi a fyddai Plas yn gallu lletya gwesteion dros ben yn ystod mis Chwefror 2022.<br>• Trafododd yr Aelodau brisio a chytunodd ei bod yn bwysig bod yn gystadleuol a sicrhau bod yr holl gostau'n cael eu talu er mwyn sicrhau nad oedd Plas ar golled ariannol. Roedd yr Aelodau'n cefnogi trafodaeth bellach ar bennu prisiau gyda Phlas Dol Moch.<br>• dywedodd y Prif Weithredwr y gellid edrych ar Glanllyn fel meincnod i weld pa brisiau y maent yn eu codi.<br>• dywedodd y Rheolwr Tŷ fod tair priodas eisoes wedi'u harchebu ar gyfer 2022 a oedd yn addawol.<br>• Teimlai'r Rheolwr y Tŷ nad oedd Plas Tan y Bwlch yn cael ei hysbysebu'n ddigonol a bod hyn yn eithriadol o bwysig er mwyn denu pobl leol, yn enwedig yn ystod cyfnodau tawelach.<br>• dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai hysbysebu cinio dydd Sul yn y papurau newydd lleol yn ffordd effeithlon o hyrwyddo Plas i gleientiaid lleol. Hefyd, a fyddai ailagor yr Ystafell De a'r Gerddi i'r cyhoedd yn opsiwn ar gyfer yr haf nesaf? Cadarnhaodd y Rheolwr Tŷ fod aelodau o'r cyhoedd wedi bod yn holi am yr Ystafell De a chytunodd ei fod yn opsiwn i'w ystyried ar gyfer y tymor nesaf.<br>• teimlai Cadeirydd Bwrdd y Plas y byddai cael cynllun Marchnata cadarn ar waith yn fuddiol er mwyn gwneud cynnydd pellach. Gofynnodd yr Aelodau a oedd capasiti o fewn yr adran Marchnata / Ymgysylltu i helpu i symud pethau ymlaen. Cadarnhaodd y Rheolwr Tŷ fod aelod o staff o'r Tîm Ymgysylltu ym Mhlas Tan y Bwlch ar hyn o bryd unwaith yr wythnos a bod trafodaethau wedi'u cynnal ynghylch hyrwyddo Plas mewn papurau newydd lleol ac ati.<br>– yn codi ar hynny, gofynnodd y Prif Weithredwr i'r Aelodau ystyried a oedd yn bryd ailystyried yr opsiwn o ffurfio partneriaeth â sefydliad arall? Daeth yr Aelodau i'r casgliad ei bod yn well aros tan ddiwedd y flwyddyn er mwyn asesu cynnydd ond cytunodd y byddai'n fuddiol ystyried partneriaid posibl a hefyd ai cyfrifoldeb yr Awdurdod yw buddsoddi yn yr adeilad. Teimlai'r Prif Weithredwr fod yr Aelodau'n awyddus i gadw perchnogaeth o'r adeilad fel y |

| | |
|---|---|
| | gallai cyfarfodydd yr Awdurdod ailddechrau ym Mhlas Tan y Bwlch maes o law.<br>– Trafododd yr Aelodau a oedd busnes gan Red Bull, Plas Dol y Moch ac ati, yn ddigon i ddarparu model busnes sefydlog. Teimlai Aelod fod llawer o opsiynau, gan gynnwys gweithio gyda phlant ysgol / pobl ifanc fel blaenoriaeth yn ogystal â chefnogi busnesau lleol.<br>– Cytunodd yr Aelodau fod llawer o botensial a gofynnodd a oedd yn opsiwn i Blas drefnu eu cyrsiau eu hunain e.e., dosbarthiadau ioga / paentio ac ati.<br>– dywedodd y Rheolwr Tŷ fod grŵp llechi yn ymweld â Phlas Tan y Bwlch yn flynyddol a'u bod yn gefnogol iawn. Buasent yn rhedeg y cwrs eu hunain ond byddai'n parhau i ddefnyddio'r cyfleusterau yn y Plas.<br>– gofynnodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol i'r Aelodau ystyried yr elfen fusnes a chyflwr presennol yr adeilad. Roedd yn bwysig bod Plas Tan y Bwlch yn cael ei gadw mewn cyflwr da gan ei fod yn Adeilad Rhestredig ac mae angen ei gynnal er mwyn sicrhau enw da'r Awdurdod.<br>– dywedodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y dylai'r Bwrdd ystyried beth oedd yr opsiynau busnes mwyaf hyfyw i'r Plas lwyddo.<br>– Cytunodd yr Aelodau ei bod yn well aros nes y cafwyd ffigurau manwl cynnal a chadw'r adeilad cyn symud ymlaen gydag unrhyw gynigion. Dywedodd y Prif Weithredwr fod digon o gronfeydd wrth gefn am gyfnod i gynnal a chadw'r adeilad.<br>– nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, gan fod galw am ddarparu prydau gyda'r nos, y byddai hyn yn opsiwn i'w ystyried ar gyfer y flwyddyn nesaf, ond nid gyda'r lefelau staffio presennol a byddai angen i'r incwm fod yn ddigonol i dalu costau.<br>– gwnaeth y Prif Weithredwr y sylwadau canlynol:-<br>• roedd yn anodd tybio beth fyddai'r patrwm gwaith ar gyfer Plas erbyn y flwyddyn nesaf.<br>• byddai angen penodi mwy o staff cegin oherwydd y galw am brydau gyda'r nos.<br>• dylid anfon hysbysebion am swyddi allan yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod.<br>– gofynnodd Cadeirydd Bwrdd Plas Tan y Bwlch a fyddai modd trefnu i gwrdd â'r Rheolwr Tŷ ar y safle maes o law.<br>– cytunodd y Rheolwr Tŷ i drefnu i'r Pennaeth Eiddo fynychu cyfarfod nesaf Bwrdd Plas Tan y Bwlch.<br><br>Diolchodd Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd i'r Rheolwr Tŷ am ei gwaith a'r cynnydd a wnaed hyd yma.<br><br>**GWEITHRED**<br>• **nodi'r adroddiad.**<br>• **cynnull cyfarfod pellach o Fwrdd Plas Tan y Bwlch a gwahodd y Pennaeth Eiddo i gyflwyno adroddiad i'r cyfarfod.**<br>• **y dylai'r Pennaeth Eiddo ymgysylltu â gwasanaethau syrfëwr i baratoi arolwg cyflwr a chynllun gweithredu ar y ffordd ymlaen.**<br>• **y bydd y Rheolwr Tŷ yn dosbarthu copi o'r ffigurau Incwm a Gwariant i Aelodau'r Bwrdd.** |

**Daeth y cyfarfod i ben am 15. 45**

**EITEM RHIF 3**

| **BWRDD RHEOLI PLAS TAN Y BWLCH<br>MERCHER 24 TACHWEDD 2021** | |
|---|---|
| | **<u>Yn bresennol:</u>**<br><br>**Aelodau:**<br>Cyng. Judith Humphreys<br>Mr. Tim Jones (Cadeirydd)<br>Ms. Tracey Evans<br>Emyr Williams<br>Iwan Jones Mr<br>Ms. Zara Roberts<br><br>**Yn bresennol:**<br>Cyng. Wyn Ellis Jones (ex-officio)<br><br>**Swyddogion:**<br>Mr Edward Jones, Mrs. Sarah Roberts. |
| 1 . | **Ymddiheuriad** |
| | Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.<br><br>Yn codi wedi hynny, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r Prif Weithredwr a Chadeirydd yr Awdurdod yn mynychu'r cyfarfod ychydig yn ddiweddarach oherwydd ymrwymiadau eraill. |
| 2 . | **Datgan Budd** |
| | Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem. |
| 3. | **Cofnodion** |
| | Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 13 Hydref, 2021, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.<br><br>Yn codi wedi hynny,<br><br><u>5. Diweddariad Plas Tan y Bwlch</u><br>Cyfeiriodd y Pennaeth Eiddo at y pwyntiau a godwyd gan y Rheolwr y Tŷ ynghylch y systemau gwresogi a dŵr poeth a dywedodd fod yr ymgynghorydd gwresogi a oedd wedi ail-ddylunio'r system boeler ychydig flynyddoedd yn ôl wedi dychwelyd i'r Plas i weld beth y gellid ei wneud i ddatrys y broblem. Rhoddwyd y cefndir ar systemau Gwresogi a Boeleri i aelodau'r Bwrdd. |

| | |
|---|---|
| | Dywedodd y Pennaeth Eiddo, gan fod newid wedi bod yn y model busnes a gwesteion yn treulio mwy o amser yn eu hystafelloedd, fod hyn wedi rhoi gormod o bwysau ar y system wresogi bresennol ac felly nid oedd yn gallu ymdopi â'r galw. Byddai angen i'r ymgynghorydd Gwresogi nawr ail-gyfrifo'r rhannau o'r adeilad sydd angen gwresogi ar yr un pryd ac yna byddai'n cynghori'r Swyddogion ar y ffordd ymlaen, er ei fod wedi argymell y byddai angen uwchraddio un o'r boeleri o bosibl i gynyddu'r capasiti i sicrhau'r mae'r tŷ cyfan yn cael ei gynhesu drwy'r dydd a byddai hyn hefyd yn darparu digon wrth gefn.<br><br>Roedd cwmni arbenigol sy'n delio â'r paneli rheoli hefyd wedi'i adfer i ddarparu gwasanaeth blynyddol ar y paneli ym Mhlas Tan y Bwlch a Phencadlys yr Awdurdod i gadw golwg am unrhyw broblemau cudd.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd a oedd yn ariannol hyfyw i osod boeler newydd oherwydd gallai defnydd yr adeilad newid yn y dyfodol. Dywedodd y Pennaeth Eiddo ei fod yn hyderus y byddai'n fuddsoddiad gwerth chweil oherwydd byddai'n diogelu'r adeilad at y dyfodol drwy gynyddu'r capasiti gwresogi.<br><br>Teimlai Aelod ei bod yn bwysig / hanfodol uwchraddio'r system wresogi gan fod gwesteion wedi cael eu had-dalu ambell waith ac mewn ymateb i gwestiwn, roedd y Pennaeth Eiddo yn rhagweld y byddai'r adroddiad drafft ar gael o fewn y pythefnos nesaf. Cefnogodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol farn y Pennaeth Eiddo a dywedodd pe bai partneriaethau posibl yn cael eu hystyried yn y dyfodol y byddai'n fwy buddiol cynnig adeilad a oedd yn darparu gwres drwyddo draw ac y byddai hefyd yn ddefnydd mwy modern o'r adeilad.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd Rheolwr y Tŷ y gallai problemau gyda'r system wresogi effeithio ar rai o'r archebion a wneir dros gyfnod y Nadolig gan na fyddai gan rai o'r ystafelloedd ddigon o wres / dŵr poeth ond gan fod y gwesteion wedi aros ym Mhlas Tan y Bwlch o'r blaen yna roeddynt yn ymwybodol o'r sefyllfa. |
| 4 . | **Trosolwg Ariannol o'r Plas** |
| | Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Rheolwr Tŷ yn rhoi trosolwg ariannol ar gyfer Plas Tan y Bwlch.<br><br>Adroddwyd - Cyflwynodd y Rheolwr Tŷ'r adroddiad a'r atodiad, amlinellodd y prif bwyntiau, a rhoddodd eglurhad pellach i'r Aelodau ar y ffigurau.<br><br>Dywedodd Rheolwr y Tŷ:<br>- Bod yr incwm ar gyfer y system hydro wedi bod yn isel oherwydd problemau gyda'r system. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y system hydro wastad wedi cael ei gwirio'n wythnosol yn y gorffennol a chredai ei bod yn bosibl nad oedd y pibellau ac ati yn cael eu glanhau yn yr un modd ag a wnaed yn flaenorol gan y Pennaeth Busnes. |

| | |
|---|---|
| | - Dywedodd y Pennaeth Eiddo wrth Aelodau'r Bwrdd y bu nam trydanol ar y System Hydro ac oherwydd cyfyngiadau Covid 19 nid oedd wedi'i atgyweirio tan fis Mai 2021, felly roedd yr incwm ar gyfer y llynedd wedi bod yn sylweddol is. Dywedodd hefyd y byddai'r Rheolwr Cyfleusterau ac Eiddo yn cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio/cynnal a chadw'r System Hydro er mwyn osgoi problemau pellach a byddai cyngor arbenigol hefyd yn cael ei geisio i sicrhau bod y system yn rhedeg ar ei gorau. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol efallai y byddai'n werth gofyn i'r cyn Bennaeth Busnes a fyddai'n fodlon rhoi gwybodaeth i'r Rheolwr Cyfleusterau ac Eiddo ar y gosodiadau gorau ar gyfer rhedeg y System Hydro yn ogystal â gwaith cynnal a chadw arferol a wnaed yn fewnol yn flaenorol.<br>- Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y bu'n bosibl yn y gorffennol i fonitro'r System Hydro ar PC o'r Brif Swyddfa ym Mhenrhyndeudraeth, a oedd wedi ei gwneud hi'n haws gwirio am unrhyw broblemau. Cytunodd yr Aelodau y byddai'n ddefnyddiol i Swyddogion edrych i mewn i opsiynau ar gyfer monitro'r System Hydro o'r Brif Swyddfa a theimlwyd y byddai'n syniad i'r tîm Eiddo gymryd yr awenau gan fod ganddynt yr arbenigedd. Cytunodd y Pennaeth Eiddo y byddai hwn yn opsiwn gan fod mwy o gapasiti bellach yn yr adain eiddo.<br>- Dywedodd Rheolwr y Tŷ nad oedd incwm o archebion grŵp/cyfarfodydd dydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad oherwydd problemau gyda'r system archebu/cyllid a'r gobaith oedd y byddai mabwysiadu system newydd sy'n cynhyrchu ffigurau incwm/gwariant ac anfonebau yn gwneud pethau'n llawer haws wrth baratoi adroddiadau.<br><br>Rhoddodd yr Aelodau a'r Swyddogion ystyriaeth fanwl i'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:<br>- Hysbysodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y Bwrdd fod y Prif Weithredwr wedi codi gydag ef fod gormod o bwyslais ar ffigurau Incwm, a'i bod yn bwysicach edrych ar y waelodlin yn hytrach nag incwm. Darparodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fanylion am y materion yr oedd Rheolwr y Tŷ wedi dod ar eu traws gyda'r system archebu a oedd felly'n ei gwneud yn anodd darparu adroddiadau cywir. Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd fod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, Rheolwr y Tŷ, a'r Pennaeth Cyllid a benodwyd yn ddiweddar i fod i gyfarfod i geisio datrys rhai o'r materion er mwyn sicrhau bod adroddiadau'n cael eu cynhyrchu'n awtomatig gyda llai o fewnbwn â llaw ac felly'n darparu i'r Bwrdd gydag adroddiadau mwy cynhwysfawr yn y dyfodol.<br>- Cadarnhaodd Rheolwr y Tŷ fod y Pennaeth Cyllid wedi dweud, er bod Qbook bellach yn cael ei ddefnyddio, y byddai'n werth edrych i mewn i system gyllid newydd yn y dyfodol i sicrhau bod yr holl wybodaeth ariannol yn cael ei chynhyrchu mewn un adroddiad. Cytunodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, er y byddai'n fuddiol gwneud ymholiadau am system gyllid |

| | |
|---|---|
| | newydd yn y dyfodol, y byddai angen ystyried gofynion y Gymraeg fel ffactor wrth edrych ar system o'r fath.<br>- Dywedodd y Pennaeth Eiddo, er bod tanwariant wedi bod yn y gyllideb eiddo'r llynedd, byddai gwariant llawn y flwyddyn nesaf oherwydd byddai gwaith yn cael ei gwblhau ar y meysydd sydd angen sylw. Dywedodd hefyd, gan nad oedd cyllideb wedi'i gosod ar gyfer cynnal a chadw ym Mhlas Tan y Bwlch, i leihau'r baich ariannol, bod arian fel arfer yn cael ei symud o ffynonellau incwm eraill o'r Adain Eiddo ond o'r flwyddyn nesaf ymlaen gan fod cost trydan/nwy yn debygol o fod yn fwy, byddai'r gyllideb yn cael ei chynyddu i dalu am unrhyw gostau ychwanegol, a byddai hyn yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad ariannol a gyflwynir i gyfarfod yr Awdurdod maes o law.<br>- Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai angen edrych ar yr achos busnes ar gyfer y flwyddyn nesaf i ddarparu prydau gyda'r nos o bosibl ond byddai angen cynnal asesiad i ganfod a fyddai'n ariannol hyfyw i benodi cogydd tymhorol yn ychwanegol at y staff arlwyo presennol.<br>- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd Rheolwr y Tŷ fod morâl y staff wedi gwella dros yr wythnosau diwethaf gan fod staff wedi gallu cymryd eu gwyliau blynyddol gan fod busnes wedi arafu, ond ei bod hi a'r staff yn bryderus ynglŷn â dyfodol Plas Tan y Bwlch. Cadarnhaodd Cadeirydd Bwrdd Plas Tan y Bwlch fod dyfodol i Blas Tan y Bwlch a bod swyddi mor ddiogel ag y gallent fod a phe byddai unrhyw bartneriaethau posibl yn cael eu ffurfio yn y dyfodol byddai hyn yn rhoi sicrwydd swydd i'r staff. Cadarnhaodd hefyd fod Aelodau'r Awdurdod yn cefnogi parhau i redeg Plas.<br>- Cytunodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol ei bod yn naturiol i staff boeni am ddyfodol y Plas ac er ei bod yn gostus i'w redeg fel Gwely a Brecwast roedd hyn yn well na gadael i'r adeilad ddirywio a fyddai'n fwy costus yn y tymor hir. Dywedodd ei bod yn bwysig denu mwy o fusnes ac i wneud hynny bod angen sicrhau bod yr adeilad i fyny i safon dderbyniol i bobl aros. Dywedodd Rheolwr y Tŷ fod cyflwr yr adeilad hefyd yn achosi pryder i'r staff gan fod rhai problemau wedi bod gyda dŵr yn mynd i mewn i'r dderbynfa.<br>- Gofynnodd Aelod i Reolwr y Tŷ beth ellid ei wneud i liniaru unrhyw bryder a achosir i'r staff? A fyddai mwy o gyswllt/cynnal cyfarfodydd ychwanegol o Fwrdd y Plas yn fuddiol? Dywedodd Rheolwr y Tŷ y byddai'n ystyried yr awgrymiadau ymhellach ac yn adrodd yn ôl yng nghyfarfod nesaf Bwrdd y Plas.<br>- Dywedodd y Pennaeth Eiddo ei bod yn bwysig rhoi sicrwydd i staff bod arolwg cywir bellach wedi'i gynnal yn y Plas a oedd wedi rhoi darlun cliriach o'r problemau a sut i ymdrin â hwy ac y byddai materion blaenoriaeth yn cael sylw yn y pum mlynedd gyntaf o'r cynllun cynnal a chadw deng mlynedd. Eglurodd y Prif Weithredwr y bu'n rhaid ail-flaenoriaethu gwariant yn ystod yr her ariannol a bod yr Awdurdod yn ymwybodol y byddai pris i'w dalu ond ei bod wedi bod yn bwysig dod allan o'r sefyllfa orau ag y bo modd bryd hynny. |

| | |
|---|---|
| | - Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd Rheolwr y Tŷ fod llythyr wedi ei anfon at Red Bull a'i bod yn awr yn aros am daliad ganddynt i dalu cost y difrod a achoswyd. Gofynnodd y Pennaeth Eiddo i aelodau'r bwrdd ystyried a oedd yn opsiwn codi blaendal difrod ar archebion grŵp yn y dyfodol.<br>- Cadarnhaodd Rheolwr y Tŷ fod y cynorthwyydd gweinyddol newydd bellach yn ei swydd a oedd yn golygu ei bod bellach yn gallu canolbwyntio ar ofynion ei rôl ei hun. Dywedodd fod yna brinder staff yn y gegin o hyd ond byddai hysbyseb am gogyddes llawn amser/rhan amser yn cael ei anfon allan maes o law.<br>- Roedd Plas bellach yn cynnig ciniawau Nadolig a the prynhawn ond oherwydd prinder staff, roedd y staff domestig wedi bod yn cynorthwyo yn y gegin.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i Reolwr y Tŷ am ei gwaith caled yn ystod cyfnod anodd.<br><br>**GWEITHRED**<br>**1. nodi'r adroddiad.**<br>**2. Swyddogion i drafod y ffordd ymlaen ar gyfer monitro'r System Hydro o'r Pencadlys.** |
| 5. | **Diweddariad ar Gyflwr yr Adeilad** |
| | Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Eiddo i roi diweddariad i'r Aelodau ar gynnydd materion sydd a wnelo eiddo.<br><br>Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Eiddo'r adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau.<br><br>Cadarnhaodd y Pennaeth Eiddo'r hyn a ganlyn:<br>- Roedd syrfewyr wedi bod ar y safle drwy’r wythnos yn edrych i mewn i’r problemau lleithder, landeri ac ati.<br>- Roedd y Pennaeth Eiddo wedi gofyn i'r cwmni sy'n gyfrifol am y cwteri ymweld deirgwaith yn ystod yr Hydref a'r Gaeaf i glirio dail o'r landeri er mwyn lleddfu rhai o'r problemau lleithder.<br>- Dywedodd y Pennaeth Eiddo ymhellach am rai o'r problemau a dywedodd nad oedd cap ar y simneiau a bod hyn wedi arwain at rai o'r problemau lleithder. Gan fod arwynebedd y to yn eithaf mawr, nid oedd digon o le i ddŵr ddianc i'r landeri/pibellau dŵr a olygai fod y dŵr yn cronni y tu ôl i'r waliau parapet ac yn tracio i mewn i'r waliau yn hytrach nag i ffwrdd o'r adeilad. Dywedodd y byddai angen ailadeiladu rhai o'r parapetau maes o law a rhagwelwyd y byddai gwaith ar y problemau mwyaf sylweddol yn cael ei wneud ym mlynyddoedd un i bump o'r cynllun cynnal a chadw 10 mlynedd.<br>- byddai'r system wresogi yn y Plas yn cael ei huwchraddio maes o law fel bod gwres yn cael ei ddarparu drwy'r adeilad yn hytrach na chael ei rannu i barthau.<br>- comisiynwyd Arbenigwr Ardal Gadwraeth i ystyried gwelliannau posibl i sicrhau bod y Plas mor ynni effeithlon â phosibl heb amharu ar gymeriad yr adeilad. |

| | |
|---|---|
| | Yn codi wedi hynny, trafododd yr Aelodau’r adroddiad a gwneud y sylwadau a ganlyn:<br>- Cytunodd yr aelodau y byddai'n fuddiol trefnu cyfarfod ar y safle gyda'r syrfëwr i drafod cyflwr yr adeilad yn fanylach unwaith y byddai wedi paratoi adroddiad cyflwr drafft a chynllun cynnal a chadw.<br>- teimlai aelod y byddai'n fuddiol trafod partneriaethau posibl yn fanylach mewn cyfarfod o Fwrdd Plas yn y dyfodol. Cytunodd y Pennaeth Eiddo fod angen edrych ar y tymor hir unwaith y byddid wedi mynd i'r afael ag anghenion yr adeilad a dywedodd unwaith y byddai'r arolwg a'r cynllun cynnal a chadw yn eu lle y byddai hyn yn rhoi hyder i unrhyw bartner(iaid) posibl a byddai hefyd yn rhoi'r Awdurdod mewn lle gwell i drafod unrhyw bartneriaeth bosibl yn fwy manwl.<br>- Teimlai'r Prif Weithredwr ei bod yn bwysig bod yr adroddiad cyflwr wedi'i dderbyn cyn ystyried unrhyw bartner(iaid) posibl.<br>- Teimlai'r aelodau fod y Bwrdd mewn sefyllfa dda i drafod partneriaethau posibl gyda'r syrfëwr.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod i’r cyfarfod.<br><br>**GWEITHRED:**<br>**1. nodi'r adroddiad a'r cynnydd a wnaed hyd yma.**<br>**2. aros am yr adroddiad cyflwr drafft.**<br>**3. Swyddogion i drefnu cyfarfod safle ar gyfer Aelodau’r Bwrdd gyda’r Syrfëwr unwaith y bydd yr adroddiad drafft ar gael ac os bydd cyfyngiadau Covid yn caniatáu.**<br>**4. trafod defnydd ynni/effeithlonrwydd ynni yn fanylach yn ystod y cyfarfod safle maes o law.** |

**Daeth y cyfarfod i ben am 15.10**

**EITEM RHIF 3**

| | |
|---|---|
| **BWRDD RHEOLI PLAS TAN Y BWLCH<br>DYDD MERCHER 9 CHWEFROR 2022** | |
| | <u>**Yn bresennol:**</u><br><br>**Aelodau:**<br>Cyng. Judith Humphreys<br>Mr. Tim Jones (Cadeirydd)<br>Ms. Tracey Evans<br>Mr. Emyr Williams<br>Mr. Iwan Jones<br>Ms. Zara Roberts<br><br>**Yn bresennol:**<br>Cyng. Wyn Ellis Jones (ex-officio)<br><br>**Swyddogion:**<br>Mr Edward Jones, Mrs. Sarah Roberts |
| 1 . | **Ymddiheuriad** |
| | Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| 2 . | **Datgan Budd** |
| | Ni ddatganwyd unrhyw Fudd diddordeb Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem. |
| 3. | **Cofnodion** |
| | Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd, 2021, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.<br><br>Yn codi yn sgil hynny,<br><br><u>4. Trosolwg Ariannol Plas</u><br>Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n werth galw cyfarfod ychwanegol o Fwrdd Plas Tan y Bwlch i drafod y ffigurau sydd a wnelo maint yr elw/gwaelodlin unwaith y byddai'r data i gyd ar gael. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol ei fod wedi gofyn i'r Pennaeth Cyllid edrych ar gostau ac incwm ac unwaith y byddai Rheolwr y Tŷ hefyd wedi cael cyfle i edrych ar y ffigurau, byddai'r wybodaeth ar gael i Aelodau'r Bwrdd maes o law. |
| 4. | **Diweddariad Plas Tan y Bwlch** |
| | Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Rheolwr Tŷ i roi diweddariad i'r Aelodau ar y ddau fis diwethaf a rhoi cipolwg ar y flwyddyn i ddod. |

Adroddwyd - Cyflwynodd Rheolwr y Tŷ'r adroddiad a rhagolygon ariannol 2022, gan amlinellu'r prif bwyntiau.

Cynghorodd Rheolwr y Tŷ ar yr hyn a ganlyn:

- Gan fod dwy ystafell na ellir eu defnyddio ar hyn o bryd, bydd angen lletya rhai gwesteion yn yr Oakeley Arms yn ystod eu harhosiad a fyddai'n anffodus yn golygu colled ariannol i'r Plas.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd Rheolwr y Tŷ fod Red Bull wedi talu am y difrod a achoswyd yn ystod eu harhosiad diweddar. Nododd yr aelodau fod Rheolwr y Tŷ wedi gofyn am flaendal o £5,000 ganddynt ar gyfer 2022 a byddai cyfanswm y tâl yn cynyddu'n sylweddol ac er bod Red Bull wedi cytuno i dalu'r ffi am y flwyddyn i ddod, roeddent ychydig yn anhapus bod y pris wedi codi'n sylweddol ac maent wedi gofyn i'r pris gael ei adolygu ar gyfer 2023 os na achoswyd unrhyw ddifrod y tro hwn. Roedd Red Bull wedi cadarnhau y byddent yn dod â'u tîm diogelwch eu hunain, a byddai hyn yn cymryd y cyfrifoldeb oddi ar Blas Tan y Bwlch.
- Dywedodd Rheolwr y Tŷ, yn dilyn adborth gan westeion yn dweud y byddent yn aros eto yn y Plas pe byddai pryd gyda'r nos yn cael ei ddarparu, y penderfynwyd cynnig pryd gyda'r nos. Dywedodd Rheolwr y Tŷ fod dau gogydd ar hyn o bryd gan nad oedd y swydd ar gyfer cogydd ychwanegol wedi'i llenwi hyd yma ond teimlai y byddai'n bosibl cynnig pryd gyda'r nos dridiau'r wythnos gyda'r staff arlwyo presennol a bod aelodau eraill o staff wedi gwirfoddoli i gynorthwyo yn y gegin lle bo modd.
- Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, dywedodd Rheolwr y Tŷ na fyddai angen i staff weithio shifftiau rhanedig er mwyn darparu pryd gyda'r nos. Roedd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yn bryderus na fyddai digon o staff i gyflenwi yn ystod salwch neu wyliau blynyddol.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd Rheolwr y Tŷ bod staff yn cael eu talu am unrhyw waith ychwanegol.

Yn codi wedi hynny, rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a gwnaed y sylwadau a ganlyn:

- Gofynnodd y Prif Weithredwr am i'r gweithgaredd/archebion grŵp ac ati gael eu paru â'r model busnes erbyn cyfarfod nesaf y Bwrdd a phe bai'r dadansoddiad o'r ffigurau/incwm ar gael y byddai'n fuddiol edrych ar berfformiad y tri mis prysuraf i weld a oedd Plas yn cyd-fynd â'r targed.
- Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n werth sefydlu ai recriwtio staff ychwanegol neu reoli oriau staff fyddai'r ateb gorau o ran darparu cyflenwad digonol yn ystod y misoedd prysuraf.
- Roedd yr aelodau'n bryderus ynghylch y materion staffio ond cytunwyd bod recriwtio staff arlwyo yn broblem ledled Cymru. Cadarnhaodd Rheolwr y Tŷ fod Plas wedi ymuno â Supertemps Ltd ond heb unrhyw lwyddiant hyd yma. Gofynnodd aelod a fyddai gwario ar adnoddau yn gwneud pethau'n haws i staff e.e., peiriannau coffi hunanwasanaeth ac ati, teimlai Rheolwr y Tŷ na fyddai hyn yn lleddfu'r pwysau ar y staff presennol gan ei bod yn bryderus am eu lles a dywedodd mai recriwtio aelod ychwanegol o staff i'r Tîm Arlwyo fyddai'r ateb gorau.
- Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod cwmnïau mwy mewn gwell sefyllfa i liniaru problemau recriwtio drwy ddefnyddio staff

| | |
|---|---|
| | presennol i gyflawni rolau ychwanegol gan fod nifer y staff a gyflogwyd yn sylweddol uwch na nifer y staff a gyflogir yn y Plas.<br>- Dywedodd Rheolwr y Tŷ y byddai blaendal yn cael ei gymryd nawr gydag archebion bwyd i dalu costau pe bai gwesteion yn canslo eu harchebion.<br>- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd Rheolwr y Tŷ y byddai'r Plas yn darparu'r arlwyo ar gyfer y priodasau a archebwyd eisoes a dywedodd ei bod mewn cysylltiad â chwmni arlwyo allanol pe cyfyd yr angen yn y dyfodol. Teimlai'r aelodau fod prisiau priodasau rhesymol iawn a theimlwyd y dylid adolygu'r prisiau ac y dylai Plas geisio meincnodi gyda lleoliadau eraill. Teimlai Rheolwr y Tŷ, oherwydd cyflwr presennol rhai o'r ystafelloedd yn y Plas, nad oedd yn briodol codi pris uchel am y lleoliad ond cytunodd y dylid adolygu'r gost am brydau yn y man.<br><br>**GWEITHRED**<br>**1. nodi'r adroddiad.**<br>**2. galw cyfarfod ychwanegol o Fwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch i drafod ffigurau incwm a gwariant yn fanwl unwaith y byddant ar gael.** |
| 5. | **Adroddiad ar Gyflwr yr Adeilad** |
| | Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Eiddo i roi diweddariad i'r Aelodau ar y cynnydd hyd yma.<br><br>Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Eiddo'r adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau. Cyfeiriodd at bwynt 2.5 o'i adroddiad a dywedodd, oherwydd y byddai angen gwneud gwaith yn ystod misoedd y gwanwyn/haf pan fyddai'r tywydd fwyaf ffafriol, y byddai angen i'r Bwrdd drafod blaenoriaethau busnes y dyfodol, er mwyn sefydlu pa effaith y byddai'r gwaith yn ei gael ar y busnes ac fel y trafodwyd gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol byddai angen cynnwys hyn yng nghost gyffredinol y gwaith i sicrhau nad yw busnes yn y Plas yn cael ei effeithio'n fwy na'r angen.<br><br>Trafododd aelodau'r Bwrdd yr adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:<br>- Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Pennaeth Eiddo y byddai gwaith atgyweirio dros dro yn cael ei gwblhau ar ystafell rhif deg erbyn diwedd mis Ebrill.<br>- Dywedodd y Pennaeth Eiddo y byddai'r gwaith yn cael ei flaenoriaethu a'i gwblhau fesul cam gan na ellid cwblhau'r holl waith mewn blwyddyn. Dywedodd y byddai angen ystyried anghenion busnes cyn gwneud gwaith uwchraddio ar yr adeilad<br>- Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol er bod cyllid ar gael i uwchraddio'r ystafelloedd teimlai y dylid rhoi blaenoriaeth i'r problemau allanol cyn buddsoddi yn yr ystafelloedd. Cytunodd y Pennaeth Eiddo y dylid mynd i'r afael â'r problemau lleithder yn mynd i mewn i'r adeilad cyn ystyried gwaith mewnol.<br>- teimlai aelod y dylai Aelodau'r Bwrdd dderbyn yr adroddiad llawn cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ar wario arian ar yr adeilad i sefydlu beth sydd ei angen ac ymhle ddylid gwario arian. Roedd yn bwysig bod y camau priodol yn cael eu cymryd i osgoi gwaethygu unrhyw broblemau neu wynebu problemau tebyg ymhen ychydig flynyddoedd.<br>- Mewn ymateb i gwestiwn gan y Prif Weithredwr, cadarnhaodd y Pennaeth Eiddo fod y proffil cost dros ddeng mlynedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad llawn a dywedodd ei fod yn fuddsoddiad sylweddol. |

| | |
|---|---|
| | - Roedd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yn ymwybodol bod gan Rob Chambers yr arbenigedd i gynyddu effeithlonrwydd ynni'r adeilad a gofynnodd a oedd unrhyw arian grant ar gael. Roedd y Pennaeth Eiddo yn obeithiol y byddai'r cwmni'n gallu dod o hyd i arian grant ac roedd posibilrwydd y gellid dod o hyd i gyllid ychwanegol drwy ddatgarboneiddio.<br>- Roedd yr aelodau'n hapus i nodi bod y problemau gyda'r system wresogi a Hydro bellach wedi'u datrys. Dywedodd y Pennaeth Eiddo fod cael mwy o gapasiti yn yr Adain Eiddo yn golygu y gellid rhoi blaenoriaeth i unrhyw broblemau cynnal a chadw yn y Plas. Diolchodd Rheolwr y Tŷ i'r Rheolwr Eiddo a Chyfleusterau am ei gefnogaeth werthfawr a oedd wedi caniatáu iddi gyflawni ei rôl ei hun yn hytrach na gorfod delio â materion cynnal a chadw.<br>- Mewn ymateb i gwestiwn gan y Prif Weithredwr, cadarnhaodd y Pennaeth Eiddo mai ychydig o ystafelloedd oedd ag agweddau/nodweddion pensaernïol arbennig a fyddai'n galluogi'r Plas i fabwysiadu mesurau arbed ynni fel rhan o'r Her Datgarboneiddio a bod yn fwy hygyrch i ffynonellau cyllid grant ychwanegol. Dywedodd y Pennaeth Eiddo fod Cynllun Cadwraeth yn cael ei baratoi i ystyried pa rinweddau oedd angen eu cadw, byddai hyn hefyd yn sicrhau na fyddai unrhyw un o'r nodweddion arbennig yn cael eu heffeithio'n ormodol.<br>- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, dywedodd y Pennaeth Eiddo, er y gellid lleihau effeithlonrwydd ynni'r adeilad drwy reoli'r effeithlonrwydd gwresogi, y byddai llinellau presennol y gyllideb yn cael eu cadw.<br>- Cytunodd yr Aelodau y byddai'n fanteisiol i Aelodau'r Bwrdd gyfarfod ar y safle i drafod adroddiad y syrfëwr unwaith y byddai ar gael.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod i'r cyfarfod a diolchodd i Reolwr y Tŷ a'r Pennaeth Eiddo am eu hadroddiadau.<br><br>**GWEITHRED:**<br>**1. nodi'r adroddiad a'r cynnydd a wnaed hyd yma.**<br>**2. galw cyfarfod ychwanegol o Fwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch cyn gynted â phosibl i drafod canfyddiadau adroddiad y syrfëwr, y cyfarfod i'w gynnal ar y safle.** |

**Daeth y cyfarfod i ben am 14:55**

| BWRDD RHEOLI PLAS TAN Y BWLCH<br>DYDD MERCHER 18 MAI 2022 | |
|---|---|
| | **<u>Yn bresennol:</u>**<br><br>**Aelodau'r Bwrdd:**<br>Y Cyng. Judith Humphreys<br>Mr. Tim Jones (Cadeirydd)<br>Mr. Emyr Williams<br>Mr. Iwan Jones<br><br>**Yn bresennol:**<br>Y Cyng. Wyn Ellis Jones (ex-officio); Mr Llion Scott, Syrfëwr (Smithers Purslow).<br><br>**Swyddogion:**<br>Edward Jones, Sian Owen, Sarah Roberts, Alun Gwilym (rhan o'r cyfarfod, taith o amgylch yr adeiladau). |
| 1 . | **Ymddiheuriadau** |
| | Ms Tracey Evans, Ms Zara Roberts. |
| 2 . | **Datganiad Buddiant** |
| | Ni ddatganwyd unrhyw Fuddiant Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem. |
| 3. | **Cofnodion** |
| | Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 9 Chwefror, 2022, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir. |
| 4. | **Dadansoddiad o Berfformiad Ariannol Plas Tan y Bwlch 2021-22** |
| | Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn hysbysu'r Aelodau am berfformiad ariannol Plas Tan y Bwlch ar gyfer 2021-2022.<br><br>Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid yr adroddiad yn amlinellu'r prif bwyntiau. Gofynnodd i'r Aelodau nodi eitem 8.1 o'r adroddiad a dywedodd, er bod cost sylweddol i'r Awdurdod o hyd, ei bod yn galonogol ei bod wedi gostwng yn ystod 2021-22 o gymharu â blynyddoedd blaenorol.<br><br>Yn codi wedi hynny, diolchodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i'r Pennaeth Cyllid am ei hadroddiad a oedd yn rhoi gwell dealltwriaeth i Aelodau'r Bwrdd o berfformiad Plas Tan y Bwlch. Adroddodd fod y busnes yn newid drwy'r amser gyda pheth o'r busnes craidd yn dychwelyd. Dywedodd y byddai'n fuddiol datblygu partneriaeth gyda sefydliad arall oedd ag arbenigedd yn y sector lletygarwch gan mai prin oedd y profiad o redeg busnes o'r fath o fewn yr Awdurdod. |

| | |
|---|---|
| | Trafododd yr Aelodau yr adroddiad yn fanwl a gwneud y sylwadau a ganlyn:-<br>- Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Pennaeth Cyllid am y ffigurau gan eu bod yn rhoi darlun clir o'r sefyllfa ariannol a nododd fod yr Awdurdod wedi derbyn cyllideb wastad am y 3 blynedd nesaf a bod yr ansicrwydd mewn perthynas â sefyllfa gyllidebol Plas Tan y Bwlch yn rhoi pwysau ychwanegol ar yr Awdurdod, sydd angen ei reoli.<br>- Bu'r aelodau'n trafod yr anhawster o godi prisiau'r ystafelloedd oherwydd cyflwr cyffredinol yr ystafelloedd, a bod angen buddsoddiad i'w huwchraddio.<br>- Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod Rheolwr y Tŷ yn paratoi cynllun busnes newydd a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Aelodau yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Plas Tan y Bwlch, a fyddai'n cynorthwyo i benderfynu ar y ffordd ymlaen o ran y model busnes mwyaf hyfyw ar gyfer y Plas.<br>- Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd y lefelau staffio presennol yn y gegin yn gynaliadwy, a bod swydd y Cogydd Cynorthwyol wedi'i hysbysebu'n ddiweddar. Roedd y cynllun busnes drafft hefyd yn asesu'r angen am Reolwr Arlwyo er mwyn galluogi'r busnes i ehangu ymhellach.<br>- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod cyflog yr Awdurdod wedi bod yn uwch na sefydliadau eraill yn y gorffennol, ond efallai nad yw hyn yn wir ar hyn o bryd.<br>- Trafododd yr Aelodau'r opsiynau ar gyfer Plas Tan y Bwlch yn y dyfodol a'r costau posibl dan sylw. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, cyn symud ymlaen ag unrhyw gynigion, fod gan yr Awdurdod gyfrifoldeb i sicrhau bod Plas Tan y Bwlch yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol gan ei fod yn Adeilad Rhestredig Gradd II*.<br>- Dywedodd y Prif Weithredwr fod Swyddogion yn ystyried cau'r Plas yn ystod misoedd tawelach Ionawr a Chwefror ac y byddai'r mater yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Plas Tan y Bwlch.<br>- Teimlai'r Prif Weithredwr ei bod bellach yn angenrheidiol chwilio am bartner posibl i gynorthwyo gyda rhedeg Plas Tan y Bwlch. Roedd yr aelodau wedi'u calonogi bod y ffigyrau yn mynd i'r cyfeiriad cywir, ond roedd angen gwaith sylweddol ar du allan yr adeilad cyn symud ymlaen i ffurfio unrhyw bartneriaeth(au). Trafododd yr Aelodau opsiynau ariannu posibl i wneud y gwaith angenrheidiol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod arian eisoes mewn lle i gwblhau'r gwaith mewnol ond bod angen gwneud y gwaith allanol yn gyntaf neu ochr yn ochr â gwaith mewnol.<br>- Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai angen i'r Bwrdd adrodd yn ôl i'r Awdurdod pe byddai angen adnoddau ychwanegol.<br>- Cytunodd yr Aelodau ei bod yn bwysig bod Swyddogion yn dechrau'r drafodaeth ar bartneriaethau posibl ac yn ffafrio'r opsiwn o sefydlu partneriaeth gyda sefydliad cymunedol i ddechrau ond ni fydd darparwyr preifat yn cael eu diystyru.<br><br>**GWEITHREDU**<br>**1. nodi cynnwys yr adroddiad.**<br>**2. Swyddogion i symud ymlaen â thrafodaethau o ran chwilio am bartneriaeth bosibl.** |
| 5. | **Adroddiad Arolwg Cyflwr** |
| | Cyflwynwyd – Adroddiad gan Llion Scott (Syrfëwr) o Smithers Purslow. Croesawodd y Cadeirydd Mr Scott i'r cyfarfod a diolchodd iddo am ei adroddiad cynhwysfawr. |

| | |
|---|---|
| | Adroddwyd – Cyflwynodd Mr Scott ei adroddiad a'i gefndir. Roedd yr aelodau hefyd wedi derbyn gwybodaeth ychwanegol cyn y cyfarfod a dosbarthwyd copi o'r Crynodeb Gweithredol i'r Aelodau yn y cyfarfod.<br><br>Trafododd aelodau'r Bwrdd gynnwys yr adroddiad a gwneud y sylwadau a ganlyn:-<br>- Diolchodd yr aelodau i'r Syrfëwr am ei adroddiad.<br>- Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i wahanol bwyntiau yn yr adroddiad a thrafodwyd cyllid grant posibl i gwblhau'r gwaith. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'n werth ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud cais drwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri.<br>- Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Syrfëwr y byddai angen cyllidebu ar gyfer tua £30,000 i £40,000 yn flynyddol i gynnal a chadw'r adeilad yn dilyn unrhyw waith adnewyddu yn unol â chyfnod deng mlynedd ei adroddiad. Dylai hyn sicrhau bod ffabrig yr adeilad yn cael ei gadw mewn cyflwr da.<br>- Dywedodd y Pennaeth Eiddo y byddai angen blaenoriaethu pa adeiladau i ganolbwyntio arnynt yn dilyn y cyfarfod oherwydd lefel y buddsoddiad sydd ei angen i wneud atgyweiriadau strwythurol. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol mai'r prif dŷ oedd prif flaenoriaeth yr Awdurdod.<br>- Trafododd swyddogion y goblygiadau pe na bai'r gwaith gofynnol ar gyfer blwyddyn un yn gallu cael ei gwblhau o fewn yr amserlen ofynnol. Dywedodd y Syrfëwr bod angen rhoi sylw brys i rai materion ac na ellid eu gadael am flwyddyn oherwydd rhesymau Iechyd a Diogelwch ac er mwyn osgoi unrhyw ddirywiad pellach i'r adeilad.<br>- Cytunodd yr Aelodau a'r Swyddogion y dylid blaenoriaethu gwariant brys, cytunwyd y byddai'r Syrfëwr yn pecynnu'r gwaith ac yn blaenoriaethu unrhyw waith sydd angen sylw ar unwaith, byddai hyn wedyn yn rhoi digon o amser i'r Awdurdod geisio cyllid allanol.<br>- Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai unrhyw gostau ychwanegol yn disgyn ar yr Awdurdod, yna byddai angen i'r Awdurdod ystyried y model Busnes mwyaf hyfyw ac unrhyw bartneriaeth bosibl.<br><br>Yn codi wedi hynny, aeth Aelodau a Swyddogion gyda'r Syrfëwr ar daith o amgylch yr adeilad i weld a thrafod canfyddiadau'r adroddiad ymhellach.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod i'r cyfarfod a diolchodd i'r Syrfëwr am ei adroddiad.<br><br>Cytunodd yr Aelodau a'r Swyddogion ar y canlynol:-<br><br>**GWEITHRED:**<br>**1. nodi'r adroddiad.**<br>**2. y dylid blaenoriaethu'r gwaith sydd angen sylw ar unwaith a'i gwblhau cyn gynted â phosibl.**<br>**3. Swyddogion i archwilio opsiynau cyllid grant i gwblhau'r gwaith allanol ar yr adeilad.** |

**Daeth y cyfarfod i ben am 16:25**

**EITEM RHIF 3**

| | |
|---|---|
| **BWRDD RHEOLI PLAS TAN Y BWLCH<br>DYDD MERCHER 13 GORFFENNAF 2022** | |
| | **<u>Yn bresennol:</u>**<br><br>**Aelodau'r Bwrdd:**<br>Cyng. Meryl Roberts,<br>Mr.Tim Jones,<br>Ms. Tracey Evans<br>Mr. Iwan Jones<br><br>**Yn bresennol:**<br>Cyng. Annwen Hughes, Cyng. Edgar W. Owen (ex-officio).<br><br>**Swyddogion:**<br>Mr. Dafydd Edwards, Swyddog Adran 151, Sian Owen, Sarah Roberts. |
| 1 . | **Cadeirydd** |
| | Etholwyd Mr Tim Jones yn Gadeirydd ar Fwrdd Plas Tan y Bwlch.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth a chroesawodd y Cyng. Meryl Roberts i'w chyfarfod cyntaf o Fwrdd Plas Tan y Bwlch. |
| 2 . | **Ymddiheuriadau** |
| | Mr. Emyr Williams, Ms. Zara Roberts. |
| 3. | **Datgan Budd** |
| | Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem. |
| 4. | **Cofnodion** |
| | Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 18 Mai 2022, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir. |
| 5. | **Diweddariad Ariannol Plas Tan y Bwlch** |
| | Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Rheolwr Tŷ, i roi diweddariad i'r Aelodau ar y sefyllfa ariannol bresennol.<br><br>Adroddwyd - Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r atodiadau yn absenoldeb y Rheolwr Tŷ ac amlinellodd y prif bwyntiau. Darparodd y Pennaeth Cyllid eglurhad pellach ar y ffigyrau a thanlinellodd y prif bwyntiau. Nododd yr Aelodau, er y byddai angen adolygu rhai o'r llinellau cyllideb, roedd yr adroddiad yn un manwl gywir ar y costau ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23. |

| | |
|---|---|
| | Trafododd yr Aelodau'r adroddiad yn fanwl a gwneud y sylwadau a ganlyn:-<br>- Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wrth y Bwrdd fod y Prif Weithredwr wedi codi'r pwyntiau a ganlyn gydag ef:-<br>• Nid yw'r papur yn ddigon cryf eto i'w alw'n gynllun busnes llawn.<br>• Nid yw'n glir beth fydd costau cadw'r Plas yn rhedeg i'r Awdurdod o'r papur hwn. Mae hyn yn bwysig gan y bydd pwysau ariannol sylweddol y flwyddyn nesaf.<br>• Rwy'n cymryd mai llenwi'r ystafelloedd yn lle prydau nos yw'r pwyslais, gan fod yr elw ar wely a brecwast yn llawer mwy na darparu pryd nos ond yn deall y dadleuon i'w darparu o safbwynt y cwsmer.<br>• Mae'r sefyllfa staffio yn anodd, os na allwn recriwtio, bydd y pwyslais ar leihau dyddiau agor o fewn capasiti'r staff.<br>• Cyn Covid nid oedd yr ystafell de yn gwneud elw, felly mae angen bod yn ofalus yn hynny o beth.<br>• Mae costau rhedeg y Plas tua £400K, dyweder £40K y mis (os yw'n cau am ddau fis), ydy'r proffil incwm yn dangos £40K y mis?<br>- Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, teimlai'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y Cynllun Busnes yn y tymor byr yn ddigon i'r Bwrdd roi cymorth i Reolwr y Tŷ ar y ffordd ymlaen. Dywedodd fod Rheolwr y Tŷ wedi nodi'n glir y gost i'r Awdurdod o redeg Plas Tan y Bwlch. Mewn ymateb i ddarparu pryd gyda'r nos, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol wybod am y problemau staffio yn y gegin a achoswyd drwy ddarparu brecwast yn unig, ac yn ei hadroddiad, roedd Rheolwr y Tŷ wedi gofyn am gymorth gan y Bwrdd i ganiatáu i ddau o aelodau ychwanegol o staff y gegin i gael eu penodi ac wrth i gyrsiau ddychwelyd i'r Plas, bu cynnydd yn y galw am bryd nos. Credai Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'n werth darparu pryd gyda'r nos pe byddai capasiti staff yn caniatáu a dywedodd wrth Aelodau'r Bwrdd y byddai angen penderfynu a ddylid penodi Rheolwr Arlwyo yn y cyfarfod heddiw.<br>- Trafododd yr Aelodau'r materion recriwtio a theimlwyd bod angen mynd i'r afael â'r mater cyn symud ymlaen ac roeddent yn bryderus y gallai dyfodol y Plas fod yn y fantol os na ellid datrys y materion staffio.<br>- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod swyddi gweigion yn cael eu hysbysebu trwy Indeed ond hyd yma ni fu'r recriwtio yn llwyddiannus.<br>- Bu'r aelodau'n ystyried opsiynau dichonadwy i ddenu darpar ymgeiswyr i'r swyddi gan gynnwys cynyddu'r cyflog ar gyfer y swyddi neu gynnig ychwanegiad marchnad. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod recriwtio'n hanfodol ond pe byddai'n aflwyddiannus byddai angen edrych ar opsiynau eraill i sicrhau dyfodol y Plas a dywedodd y byddai angen i'r Panel Arfarnu Swyddi ystyried unrhyw gynnydd yn y cyflog ar gyfer swyddi o'r fath. Nid oedd y Bwrdd yn gallu gwneud penderfyniadau o'r fath.<br>- Cytunodd yr Aelodau'n gryf y dylid hysbysebu swyddi'r Rheolwr Arlwyo a'r Cogydd Cynorthwyol a'u hanfon allan yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod.<br>- Trafododd yr Aelodau Sylwadau'r Prif Weithredwr ar ailagor yr ystafell de a dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol er bod y costau rhedeg yn uchel, roedd yr ystafell de wedi gwneud elw bach cyn y pandemig. Cadarnhaodd y dylid cytuno mewn egwyddor i ailagor yr Ystafell De gan y gellid gwneud |

| | |
|---|---|
| | hynny o fewn y lefelau staffio presennol a dywedodd y byddai'n amlwg o fewn mis os nad oedd yn ariannol hyfyw.<br>- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol mai'r costau ychwanegol fyddai cyflogi aelod o staff achlysurol i redeg yr ystafell de.<br>- Credai'r Prif Swyddog Cyllid ei bod yn bwysig cymryd golwg tymor byr a thymor hir ar y sefyllfa a bod angen sicrhau bod y Plas yn weithredol er mwyn symud ymlaen yn y tymor byr.<br>- Trafododd yr aelodau'r sefyllfa hirdymor a chytunwyd y byddai'n well aros hyd nes y gallai holl aelodau'r Bwrdd fod yn bresennol cyn gwneud unrhyw benderfyniadau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod Aelodau a Swyddogion yr Awdurdod yn teimlo mai ffurfio partneriaeth gyda sefydliad arall fyddai'r opsiwn gorau i symud ymlaen yn y tymor hir, ond cytunodd Aelodau'r Bwrdd ei bod yn bwysig bod y busnes ariannol hyfyw cyn symud ymlaen gydag unrhyw bartneriaeth bosibl, a bod cyflwr yr adeilad yn dderbyniol. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod gan yr Awdurdod gyfrifoldeb i gynnal Adeilad Rhestredig Gradd II*.<br>- Trafododd yr Aelodau'r Cynllun Busnes ymhellach a chytunwyd y dylid ei gymeradwyo yn y tymor byr ac y dylid rhoi cyfle i swyddogion ei drafod ymhellach gyda Rheolwr y Tŷ er mwyn symud ymlaen.<br><br>**GWEITHRED**<br>**1. nodi cynnwys yr adroddiad.**<br>**2. bod swyddi'r Rheolwr Arlwyo a'r Cogydd Cynorthwyol yn cael eu hysbysebu yn unol â Pholisïau a Gweithdrefnau'r Awdurdod.**<br>**3. cymeradwyo'r Cynllun Busnes fel y'i cyflwynwyd.**<br>**4. Rheolwr y Tŷ i ddiwygio'r Cynllun Busnes yn ôl yr angen a'i gyflwyno i gyfarfod nesaf Bwrdd Plas Tan y Bwlch i'w drafod ymhellach.** |

**Daeth y cyfarfod i ben am 14.50 yp**

**EITEM RHIF 3**

| BWRDD RHEOLI PLAS TAN Y BWLCH<br>MERCHER 16 TACHWEDD 2022 | |
|---|---|
| | **<u>Yn bresennol:</u>**<br><br>**Aelodau'r Bwrdd:**<br>Y Cyng. Meryl Roberts,<br>Mr. Tim Jones (Cadeirydd)<br>Mr.Emyr Williams,<br>Mr. Iwan Jones<br><br>**Yn bresennol:**<br>Y Cyng. Annwen Hughes, Cyng. Edgar W. Owen (ex-officio).<br><br>**Swyddogion:**<br>Sarah Roberts. |
| 1 . | **Ymddiheuriadau** |
| | Ms. Tracey Evans, Mr. Dafydd Edwards, Swyddog Adran 151, Sian Owen,<br>Ms. Zara Roberts. |
| 2 . | **Datgan Budd** |
| | Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem. |
| 3. | **Cofnodion** |
| | Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf, 2022, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.<br><br>Yn codi wedi hynny,<br><br><u>5. Diweddariad Ariannol Plas Tan y Bwlch</u><br>Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod penodiad Rheolwr Arlwyo wedi bod yn llwyddiannus, ond roedd swydd y cogydd cynorthwyol yn dal yn wag hyd yn hyn.<br>Dywedwyd wrth yr Aelodau, er nad oedd rhai penderfyniadau wedi'u gwneud yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd oherwydd absenoldeb rhai o Aelodau'r Bwrdd, dywedodd y byddai angen i'r Aelodau oedd yn bresennol mewn unrhyw gyfarfodydd wneud penderfyniadau o hyn ymlaen yn hytrach na sicrhau bod pob aelod o'r Bwrdd yn bresennol. |
| 4. | **Incwm a Gwariant Plas Tan y Bwlch ar gyfer 2022-2023** |
| | Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Rheolwr Tŷ i roi diweddariad i'r Aelodau ar y sefyllfa ariannol bresennol. |

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad fel y'i cyflwynwyd yn absenoldeb y Rheolwr Tŷ ac amlinellodd y prif bwyntiau. Trafododd yr Aelodau'r adroddiad yn fanwl a gwneud y sylwadau a ganlyn:-

- Ymddiheurodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd wedi cael digon o amser i graffu'r adroddiad yn ei gyfanrwydd a gofynnodd i'r Aelodau nodi pwynt bwled 1.2 a dywedodd wrthynt fod y ffigur yn cynnwys ad-daliad cyfalaf ac o ganlyniad nad oedd yn adlewyrchu'r sefyllfa ariannol wirioneddol. Dywedodd ymhellach nad oedd costau staff a thaliadau am wasanaethau cyfleustodau am weddill y flwyddyn ariannol wedi'u cynnwys yn y ffigurau.
- Teimlai'r Prif Weithredwr er bod llawer o wybodaeth yn yr adroddiad nad oedd yn berthnasol i'r Bwrdd gan nad oedd yn nodi sut roedd y Plas yn perfformio ac a oedd y targedau ariannol yn cael eu cyrraedd ai peidio. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol ei fod wedi gofyn i'r Pennaeth Cyllid baratoi dadansoddiad o'r sefyllfa ariannol i adrodd arno yn ystod y cyfarfod ond yn anffodus, nid oedd wedi gallu darparu'r ffigurau oherwydd salwch. Trafododd yr Aelodau'r adroddiad a chytunwyd er ei fod yn cynnwys rhai ffeithiau diddorol, y dylai fod yn fwy strategol wrth symud ymlaen ac y dylai gynnwys dadansoddiad o dargedau a chyrsiau Gwely a Brecwast a'r holl brif ffynonellau busnes/incwm. Yn codi wedi hynny, trafododd yr aelodau'r adroddiad ymhellach a chytunwyd y dylid darparu'r wybodaeth briodol ar gyfer y grŵp yn yr adroddiad yn y dyfodol. Gofynnodd y Prif Weithredwr i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol gadarnhau'r Cylch Gorchwyl gydag aelodau'r Bwrdd.
- Cytunodd yr Aelodau a'r Swyddogion eu bod o'r farn y byddai derbyn gwybodaeth am y lefelau deiliadaeth a'r ffigurau gwariant hefyd yn fuddiol ac felly gellid datrys unrhyw broblemau posibl ymlaen llaw.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod Red Bull wedi derbyn cyfrifoldeb am y difrod a achoswyd ond nad oedd wedi talu am y difrod hyd yma.
- Trafododd yr aelodau ymhellach y difrod a achoswyd gan Red Bull ac ystyriwyd yn ofalus a ddylent aros yn y Plas eto'r flwyddyn nesaf, cytunodd yr aelodau mai tynnu'n ôl o'r cytundeb gyda Red Bull oedd yr opsiwn a ffafrir ond cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol y peth gorau oedd sefydlu'r goblygiadau ariannol ac felly rhoi esboniad pam y collwyd incwm.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod Red Bull wedi colli eu blaendal. Roedd yr aelodau'n bryderus petaent yn dychwelyd i'r Plas y flwyddyn nesaf, y gallai'r difrod a achoswyd fod yn llawer mwy sylweddol a'i fod yn ormod o risg.
- Gofynnodd aelod a oedd staff y Plas yn bresennol yn ystod eu harhosiad. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wrth y Bwrdd fod Red Bull wedi cymryd yr adeilad drosodd yn ystod eu harhosiad a bod staff y Plas yn bresennol yn ystod y dydd ond nad oeddent yn gyfforddus i aros dros nos.
- Trafododd yr aelodau ffynonellau incwm amgen ac a oedd cynnal mwy o briodasau yn opsiwn i gynhyrchu incwm ychwanegol a hyrwyddo'r Plas. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'n anodd dod o hyd i ffynhonnell incwm i gyd-fynd â'r incwm a wnaed gan Red Bull.
- Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod cynnal a chadw'r system hydro wedi'i drosglwyddo i'r Adain

Eiddo a chadarnhaodd, er nad oedd yn ymwybodol bod problemau o hyd gyda'r system hydro, y byddai'n ymchwilio i'r mater ac y byddai'n rhoi diweddariad i'r Aelodau maes o law. Dywedodd hefyd er bod problemau gyda'r lifft o bryd i'w gilydd yr ymdrinnir â hyn fel gwaith cynnal a chadw arferol/ychwanegol ac nad oedd digon o arian ar gael i fuddsoddi mewn lifft newydd ar hyn o bryd o ystyried mai'r flaenoriaeth oedd gwella cyflwr allanol yr adeilad.

- Trafododd yr aelodau gyflwr presennol y gerddi a'r teras a'r hyn y gellir ei wneud i'w gwella gan ei bod yn drueni eu gweld yn y fath gyflwr. Roedd aelod yn bryderus y gallai rhywun gael ei frifo pe na bai dim yn cael ei wneud.
- Trafododd yr aelodau'r posibilrwydd o geisio cymorth gwirfoddolwyr i wella'r gerddi. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y gallai'r tîm llwybrau troed helpu i glirio'r llwybrau troed yn ystod misoedd y gaeaf ond nad oedd arian i wneud gwaith sylweddol ar y gerddi ar hyn o bryd gan mai creu busnes hyfyw yn y Plas oedd y brif flaenoriaeth ar hyn o bryd ond dywedodd y byddai'r Bwrdd yn cefnogi Rheolwr y Tŷ i geisio cymorth gwirfoddolwyr i wneud unrhyw waith sylweddol. Cytunodd yr Aelodau y byddai'n werth cael y tîm Llwybrau Troed i wneud gwaith sylfaenol ar y llwybrau i leihau unrhyw risgiau diogelwch. Roedd y Prif Weithredwr yn bryderus efallai nad oedd y gwaith a wnaed ar y dreif yn y Plas bob amser yn ofynnol. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod clirio'r dreif yn cymryd llawer o amser yn ystod misoedd y gaeaf oherwydd bod dail yn cwympo a bod hwn yn fater Iechyd a Diogelwch sylweddol.
- Cynigiodd aelod ddod â chymorth grŵp cymunedol lleol y roedd hi'n ymwneud â nhw i glirio'r gordyfiant.
- Nododd y Prif Weithredwr baragraff 5.2 a gofynnodd a oedd achos busnes ar gyfer y staff arlwyo ychwanegol. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wrth y Bwrdd y byddai incwm pellach wedi'i golli pe na bai'r staff arlwyo dros dro wedi dod i mewn.
- Roedd y Prif Weithredwr yn bryderus ei bod yn ymddangos bod incwm y flwyddyn nesaf yn cael ei osod yn erbyn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol mai'r ffigwr o £35,000 oedd yr incwm i ddod i mewn rhwng nawr a diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.
- Yn ateb i gwestiwn, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y syrfëwr wedi dweud bod unrhyw arian grant yn dibynnu ar ddefnydd cymunedol o'r adeilad. Trafododd yr aelodau ffynonellau cyllid posibl a chynigiodd aelod siarad â'r Grid Cenedlaethol a oedd ar hyn o bryd yn gweithio ar brosiect yn Aber Afon Dwyryd i ofyn a fyddent yn hapus i ddarparu unrhyw gymorth ariannol i Blas Tan y Bwlch. Gofynnodd yr aelodau a oedd yn werth chweil gofyn am gyllid gan Lywodraeth Cymru, Cadw a/neu Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd yn obeithiol y byddai cyllid ar gael oherwydd yr argyfwng ariannol presennol.
- Roedd yr aelodau o blaid derbyn adroddiad ar y cyd gan Reolwr y Tŷ a'r Pennaeth Cyllid a fyddai'n rhoi adroddiad llawer mwy cynhwysfawr i'r Bwrdd ac arwydd cliriach o berfformiad ariannol y Plas.
- Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol er bod y Bwrdd wedi derbyn adroddiad ar y gwaith oedd angen ei wneud ar du allan yr adeilad y byddai'n fuddiol i'r Bwrdd dderbyn adroddiad pellach gan y Pennaeth Eiddo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol.

- Teimlai Aelod mai'r ffordd ymlaen yn y tymor hir oedd datblygu partneriaeth bosibl gyda sefydliad gan fod dyfodol Plas Tan y Bwlch yn ansicr iawn fel yr oedd pethau.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod i'r cyfarfod.

**GWEITHRED**

1. **nodi cynnwys yr adroddiad.**
2. **Rheolwr y Tŷ a'r Adain Gyllid i gyflwyno adroddiad ar y cyd ar sefyllfa ariannol bresennol y Plas.**
3. **tynnu'n ôl o'r cytundeb gyda Red Bull a rhoi esboniad am y penderfyniad at ddibenion Archwilio.**
4. **ystyried ffynonellau incwm posibl eraill.**
5. **gofyn i'r Pennaeth Eiddo gyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf Bwrdd Plas Tan y Bwlch i roi diweddariad i'r aelodau ar y sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â'r gwaith adeiladu allanol.**
6. **Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol i ymchwilio i weld a oes problemau o hyd gyda'r System Hydro.**
7. **Y Cyng. Meryl Roberts i drafod gyda'r Grid Cenedlaethol i weld a fyddent yn gallu darparu cyllid i Blas Tan y Bwlch.**
8. **Swyddogion i ofyn i dîm llwybrau troed yr Awdurdod wneud gwaith angenrheidiol ar y llwybrau troed yn y Plas yn ystod misoedd y gaeaf os bydd capasiti'n caniatáu, er mwyn osgoi unrhyw faterion iechyd a diogelwch posibl ac i gefnogi Rheolwr y Tŷ pe bai hi'n penderfynu ceisio cymorth gwirfoddolwyr i wneud y gwaith helaethach ar y gerddi a'r teras.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 15.00 y.p.**

**EITEM RHIF 3**

| | |
|---|---|
| | **BWRDD RHEOLI PLAS TAN Y BWLCH**<br>**DYDD MERCHER 8 CHWEFROR 2023** |
| | **<u>Yn bresennol:</u>**<br><br>**Aelodau:**<br>Ms. Tracey Evans<br>Mr. Tim Jones (Cadeirydd)<br>Cyng. Meryl Roberts<br>Mr. Emyr Williams<br>Mr. Iwan Jones<br><br>**Yn bresennol:**<br>Cyng. Annwen Hughes (ex-officio)<br>Cyng. Edgar Owen (ex-officio)<br><br>**Swyddogion:**<br>Mr. Dafydd Edwards, Ms. Nia Murray, Mr. David Williams, Mrs. Anwen Gaffey. |
| 1 . | **Ymddiheuriadau** |
| | Ms. Zara Roberts |
| 2 . | **Datgan Budd** |
| | Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem. |
| 3. | **Cofnodion** |
| | Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar y 16 Tachwedd 2022, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.<br><br>Yn codi wedi hynny, rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y Pwyntiau Gweithredu.<br>3. ymdrinnir â mater sydd a wnelo Red Bull ar hyn o bryd.<br>5. roedd y Pennaeth Eiddo yn parhau i goladu'r data angenrheidiol parthed y gwaith adeiladu allanol.<br>6. roedd swyddogion yn parhau i fonitro'r System Hydro sy'n talu am ei gostau ac yn gwneud elfen o elw.<br>7. dywedodd Aelod fod y Grid Cenedlaethol yn cefnogi Rhaglen Grant Cymunedol hyd at £20k y gallai elusen fel “Cyfeillion Tan y Bwlch,” gael mynediad ato.<br>8. roedd y tîm llwybrau troed wedi gwneud rhywfaint o waith yn y gerddi yn ddiweddar. |

| 4. | **Adroddiad Incwm/Gwariant Plas Tan y Bwlch** |
|---|---|
| 4. | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad yn absenoldeb Rheolwr y Tŷ. Gofynnwyd i'r aelodau nodi:-<br>- Yr oedd Para.1.3 yn cyfeirio at fod rhai gwaith strwythurol fel "gwariant diangen" yn nhermau busnes ond yn angenrheidiol o safbwynt iechyd a diogelwch.<br>- Para. 2.1 – cadarnhaodd y Swyddog Cyllid bod data incwm pellach i'w fewnbynnu.<br>- Para. 3.2 - bu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn trafod priodoldeb diystyru'r incwm o £20k ar gyfer galw cyfarfodydd Awdurdod o'r ffigurau. Dywedodd y Swyddog Cyllid fod yr elfen hon hefyd wedi'i heithrio o'r gyllideb ac am y rheswm hwnnw roedd y gorwariant yn parhau i fod yn £77,695.<br><br>Yn codi wedi hynny, trafododd yr Aelodau a'r swyddogion y canlynol:-<br>- dywedodd y Prif Weithredwr er bod gwasanaethau eraill wedi gallu cynyddu incwm a lleihau costau i gwrdd â heriau llymder yn y gorffennol, roedd Plas Tan y Bwlch wedi'i chael hi'n anodd. Y gyllideb broffiliedig wreiddiol ar gyfer y Plas oedd cyflawni o fewn cost sylfaenol o tua £60k. Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn darparu £280k i gynnal Plas Tan y Bwlch a bydd hwn yn cynyddu ymhellach yn 2023/24. Yn ogystal, bydd costau cyfalaf ar gyfer cynnal a chadw adeiladwaith yr adeilad, y lifft a'r materion yn Llyn Mair. Gan fod angen i'r Awdurdod nodi ychydig dros £1 miliwn o arbedion yn 2023/24, gofynnodd y Prif Weithredwr a oedd yr Aelodau'n hyderus y gallai Plas Tan y Bwlch weithredu o fewn ei gyllideb, gan fod costau o £300k - £400k yn cynrychioli bron i hanner her ariannol yr Awdurdod.<br>- Cytunodd yr Aelodau bod angen ateb pam, fel Awdurdod Parc Cenedlaethol, y dylem barhau i reoli Plas Tan y Bwlch.<br>- dywedodd y Prif Swyddog Cyllid fod y pandemig covid, yr argyfwng costau byw, a lefelau uchel o chwyddiant oll wedi creu heriau mawr i Blas Tan y Bwlch, fel yn achos busnesau tebyg yn y sector.<br>- dywedodd y Prif Weithredwr, yn wahanol i gyrff cyhoeddus eraill, nad oes gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol unrhyw fecanweithiau statudol i gynyddu eu cyllid refeniw, ac er ei fod wedi gallu gwneud arbedion yn ystod cyni, nid oedd unrhyw opsiynau fel y cysyniad o 'dorri salami' ar gael iddo bellach.<br>- gofynnodd y Cadeirydd i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol weithio gyda'u swyddogion i baratoi adroddiad opsiynau gyda'r costau rhagamcanol, i'w ystyried mewn cyfarfod arbennig o Fwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch yn ddi-oed. Yn dilyn ystyriaeth gan y Bwrdd, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Ebrill 2023.<br>- fel rhan o'r asesiad, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod Hochtie wedi mynegi diddordeb mewn prydlesu adeilad yr Anecs yn ei gyfanrwydd. Byddai hyn yn golygu costau ychwanegol i'r Awdurdod i ddarparu nwy a thrydan, gwasanaethau glanhau ac ati, yn ogystal ag ymrwymo i gadw'r ganolfan ar agor am 5 mlynedd arall. Amlinellodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y risgiau o barhau â model busnes o'r fath, gan gofio anawsterau recriwtio a chadw staff, costau cynnal a chadw adeiladau a phroblemau ychwanegol gyda gwenyn yn yr atig. Cadarnhaodd nad oedd Hochtie wedi gwneud unrhyw ymrwymiadau cadarn hyd yma, a'i fod yn ddelfrydol yn chwilio am eiddo a oedd yn agosach at wasanaethau mewn tref neu bentref.<br>- gofynnodd y Cadeirydd am Gofrestr Risg ar wahân ar gyfer Plas Tan y Bwlch.<br>- rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ddiweddariad i'r Bwrdd ar faterion staffio ym Mhlas Tan y Bwlch. Manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i'r Pennaeth Adnoddau Dynol am gamu i'r adwy a chyflenwi yn ystod salwch yn absenoldeb y Pennaeth Busnes. Cynghorodd, yn ystod ei chyfnod yn y Ganolfan, |

| | |
|---|---|
| | roedd y Pennaeth Adnoddau Dynol, wedi cael gwybod am rai cwynion, ac yn dilyn cyngor arbenigol, roedd newidiadau wedi'u gwneud i'r strwythur adrodd ac roedd y materion a godwyd yn cael sylw.<br>- dywedodd y Prif Weithredwr y gofynnir i'r Aelodau ystyried pwysau cyllidebol yr Awdurdod ochr yn ochr â gwerthuso opsiynau ar gyfer Plas Tan y Bwlch.<br>- cytunodd y Prif Weithredwr a'r Bwrdd i beidio ag ymestyn yr asesiad er tegwch i'r staff, a fydd yn cael eu hysbysu drwy gyfarfodydd staff rheolaidd.<br>- cytunodd y Cadeirydd fod yn rhaid i'r Awdurdod werthuso a yw gweithgareddau ym Mhlas Tan y Bwlch yn cyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol.<br><br>**GWEITHRED**<br>**1. nodi'r adroddiad.**<br>**2. disgwyl am adroddiad manwl gydag opsiynau ar gyfer y dyfodol, i'w baratoi gan y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a swyddogion perthnasol.** |
| **5.** | **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf** |
| | Galw cyfarfod arbennig o Fwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch ar 22 Mawrth 2023. |

**Daeth y cyfarfod i ben am 13.25**

**EITEM RHIF 3**

| **BWRDD RHEOLI PLAS TAN Y BWLCH<br>DYDD MERCHER 22 MAWRTH 2023** | |
|---|---|
| | **<u>Yn bresennol:</u>**<br><br>**Aelodau:**<br>Ms. Tracey Evans<br>Mr. Tim Jones (Cadeirydd)<br>Mr. Emyr Williams<br>Mr. Iwan Jones<br><br>**Yn bresennol:**<br>Cyng. Annwen Hughes (ex-officio)<br>Cyng. Edgar Owen (ex-officio)<br><br>**Swyddogion:**<br>Mr. Dafydd Edwards, Ms. Nia Murray, Mr. David Williams, Mrs. Anwen Gaffey.<br><br>Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei gofnodi i gynorthwyo i wirio'r cofnodion. |
| 1 . | **Ymddiheuriadau** |
| | Ms. Zara Roberts |
| 2 . | **Datgan Budd** |
| | Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem. |
| 3. | **Cofnodion** |
| | Derbyniwyd Cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar y 8 Chwefror 2023, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd swyddogion fod Red Bull bellach wedi setlo gyda'r Awdurdod. Yn codi wedi hynny, rhoddwyd manylion y camymddwyn i'r Aelodau a dywedodd y Prif Weithredwr ei fod wedi hysbysu Red Bull bod y wasg wedi sylwi ar y digwyddiad. |
| 4. | **Ystyried y datblygiadau diweddaraf o ran diddordeb Hochtief mewn defnyddio rhai o gyfleusterau Plas Tan y Bwlch** |
| | Cyflwynwyd - Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad i'w ystyried fel rhan o'r argymhelliad cyffredinol i'r Awdurdod ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch.<br><br>Adroddwyd - Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod Hochtief wedi cadarnhau na fyddent yn bwrw ymlaen ag adnewyddu'r Anecs ond roedd ganddynt ddiddordeb o hyd mewn cadw 11 ystafell ar sail gwely a brecwast ar gyfradd o £65-00 y person (o ddydd Llun i Ddydd Gwener). Byddai hyn ar ffurf bloc-archeb yn y prif dŷ |

| | |
|---|---|
| | rhwng Mehefin a Hydref. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod Plas Tan y Bwlch eisoes yn brysur am dair o'r wythnosau yn ystod mis Mehefin, am un wythnos ym mis Gorffennaf ac un wythnos ym mis Medi, ac er mwyn bodloni gofynion Hochtief, byddai'n rhaid i Blas Tan y Bwlch ganslo un busnes arall yn ystod y cyfnod hwn.<br><br>**PENDERFYNWYD**<br>**1. gofyn i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ddiolch i Hochtief am eu diddordeb a chynghori nad oedd yr Awdurdod yn gallu gwella ar ei gynnig presennol.**<br>**2. cynghori y byddai Plas Tan y Bwlch yn hapus i weithio gyda Hochtief yn ystod adegau pan fo ystafelloedd ar gael.** |
| **5.** | **Safle / Adeiladu Opsiynau'r Dyfodol** |
| | Cyflwynwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo ei adroddiad a oedd yn amlinellu'r prif opsiynau mewn perthynas â dyfodol yr adeilad a'r safle o'i amgylch.<br><br>Adroddwyd – Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo gefndir i'r Aelodau a'r opsiynau ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad yn y tymor byr ac ystyriaethau ar gyfer ei ddyfodol tymor hir.<br><br>Yn codi wedi hynny, trafododd yr Aelodau a'r swyddogion y canlynol yn fanwl:-<br>- amcangyfrif o gost net cynnal a chadw'r adeilad (fel yr amlinellwyd ym mharagraff 2.5 yr adroddiad).<br>- yr ardrethi busnes presennol ac opsiynau ar gyfer y dyfodol. Nododd yr aelodau y gallai cost cynnal a chadw'r adeilad godi ym mlwyddyn dau heb fantais rhyddhad ardrethi busnes.<br>- bydd cost bresennol cynnal a chadw Plas Tan y Bwlch yn cynyddu ymhellach yn 2023/24 oherwydd y cynnydd yng nghost cyfleustodau, y cynnydd mewn prisiau bwyd / cynnyrch, setliad cyflog ac ati.<br>- roedd dau dendr ar gyfer ailadeiladu'r bwtres a'r parapet bellach dan ystyriaeth gyda gwahaniaeth amlwg rhwng y prisiau. Roedd y Rheolwr Eiddo ar hyn o bryd yn aros am gadarnhad bod arian wrth gefn wedi'i gynnwys yn y dyfynbris isaf. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai angen gwneud y gwaith adfer diogelwch yr adeilad, waeth sut fydd yr Awdurdod yn penderfynu symud ymlaen, a chan fod Plas Tan y Bwlch yn Adeilad Rhestredig Gradd II*, bydd angen caniatâd adeilad rhestredig i adnewyddu'r gwaith carreg ar ben y parapet. Cadarnhaodd y Rheolwr Eiddo y byddai gwarged incwm meysydd parcio ar gael i ailgyflenwi'r Gronfa Rheoli Asedau Wrth Gefn.<br>- mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Rheolwr Eiddo fod yr adroddiad cyflwr wedi amcangyfrif y gost o gynnal a chadw'r tŷ a'r eiddo sy'n cwmpasu'r adeilad dros y 10 mlynedd nesaf. Seiliwyd yr amcangyfrif ar ffigyrau oedd bellach bron yn ddwy flwydd oed ac nid oedd yn cynnwys y gost o osod lifft newydd, uwchraddio'r system wresogi, ac ail-wynebu'r ffin a ffyrdd mynediad (para. 4.3 yr adroddiad). Cadarnhaodd y Rheolwr Eiddo fod gan berchnogion y cabanau lesau hir iawn, a bod yr Awdurdod yn parhau i fod yn gyfrifol am y dreifiau a'r tir o amgylch y cabanau gwyliau. Roedd y gost ychwanegol hefyd i osod seiffon yn Llyn Mair, a oedd yn cael ei hystyried yn gronfa ddŵr risg uchel oherwydd y risg seilwaith i'r A487 (para. 4.4 yr adroddiad).<br>- dywedodd y Prif Weithredwr y dylid dilyn canllawiau clir heddiw ac yng ngoleuni yr her chwyddiannol sy'n wynebu'r Awdurdod ar hyn o bryd, y dyfodol hirdymor Plas Tan y Bwlch yn cael ei gynnwys fel rhan o'r penderfyniadau anodd niferus y bydd yn rhaid i'r Awdurdod eu gwneud. |

| | |
|---|---|
| | - Cytunodd yr Aelodau fod angen mwy o wybodaeth, ar ffurf adroddiad opsiynau gyda chostau, cyn y gallai'r Bwrdd Rheoli gyflwyno unrhyw argymhellion ar ddyfodol hirdymor Plas Tan y Bwlch i'r Awdurdod. Dylid cynnwys hefyd opsiynau ar gyfer cynnal cyflwr mewnol y tŷ a lleihau dirywiad pellach, megis parhau i alw cyfarfodydd yr Awdurdod ym Mhlas Tan y Bwlch.<br>- Cytunodd yr Aelodau fel rhan o'r asesiad bod angen ateb pam y dylai'r Awdurdod barhau i reoli'r ased, a hefyd gwerthuso a oedd gweithgareddau presennol Plas Tan y Bwlch yn cyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol.<br>- argymhellodd y Prif Swyddog Cyllid y dylid cadw tystiolaeth ar ffurf papur o'r broses er mwyn cofnodi sut mae'r Bwrdd yn dod i'w gasgliad.<br><br>**PENDERFYNWYD**<br>**1. galw cyfarfod pellach o Fwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch pan fyddai swyddogion yn barod i gyflwyno eu hadroddiad ar opsiynau ar gyfer y dyfodol.**<br>**2. trefnu cyfarfod arbennig o'r Awdurdod ym mis Mai 2023 i ystyried argymhellion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch ar ddyfodol tymor hir Plas Tan y Bwlch.** |

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.55**

| **BWRDD RHEOLI PLAS TAN Y BWLCH<br>DYDD MERCHER 13 MEDI 2023** | |
|---|---|
| | <u>**Yn bresennol:**</u><br><br>**Aelodau:**<br>Ms. Tracey Evans<br>Cyng. Meryl Roberts<br>Emyr Williams<br>Iwan Jones<br><br>**Yn bresennol:**<br>Cyng. Annwen Hughes (ex-officio)<br><br>**Swyddogion:**<br>Dewi Aeron Morgan, David Williams, Edward Jones, Anwen Gaffey.<br><br>Cynghorodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei gofnodi i gynorthwyo i wirio'r cofnodion. |
| 1 . | **Cadeirydd** |
| | Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod Tim Jones wedi mynegi ei barodrwydd i barhau fel Cadeirydd Bwrdd Plas Tan y Bwlch am y flwyddyn i ddod.<br><br>Etholwyd Mr Tim Jones yn Gadeirydd Bwrdd Plas Tan y Bwlch a chytunodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i gadeirio'r cyfarfod yn ei absenoldeb. |
| 2 . | **Ymddiheuriadau** |
| | Mr. Tim Jones. |
| 3. | **Datgan Budd** |
| | Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem. |
| 4. | **Cofnodion** |
| | Derbyniwyd Cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar y 22ain Mawrth 2023, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.<br><br>Yn codi o'r cofnodion, adroddodd y Prif Weithredwr fod amgylchiadau nas rhagwelwyd wedi arwain at oedi yn yr amserlen ar gyfer asesu dyfodol hirdymor Plas Tan y Bwlch. Hefyd, yn dilyn Adroddiad Arallgyfeirio Incwm diweddar gan Archwilio Cymru lle argymhellwyd y dylai'r Awdurdod adolygu ei fodel gweithredu ym Mhlas Tan y Bwlch, teimlai'r Prif Weithredwr y byddai'n rhesymol aros am eu hadroddiad pellach a fydd yn rhoi asesiad o'r hyn sy'n dderbyniol o ran lefel y risg i'r Parciau Cenedlaethol, cyn cyflwyno unrhyw argymhellion terfynol. |

| 5 . | **Diweddariad Plas Tan y Bwlch** |
|---|---|
| | Derbyniwyd – Adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr ar yr opsiynau a gweledigaeth ar gyfer y dyfodol ar gyfer Plas Tan y Bwlch.<br><br>Adroddwyd – Cynghorodd Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod wedi paratoi cyfres o benawdau pwnc/cwestiynau i'r Aelodau eu hystyried, ac i roi arweiniad ar sut y dylai'r Awdurdod symud ymlaen.<br><br>Cyflwynodd y Prif Weithredwr y cwestiynau ynghyd â'r ymateb a awgrymwyd ganddo. Yna gofynnwyd i'r aelodau wneud ychwanegiadau neu anghytuno â'r hyn oedd yn cael ei gynnig.<br>1. <u>Beth yw Plas Tan y Bwlch?</u><br>- adeilad/stad o gymeriad pwysig, sy'n rhan o'r hanes diwydiannol a treftadaeth yr ardal gyda chysylltiad â'r diwydiant llechi.<br>- rhan o ddynodiad treftadaeth byd "Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru".<br>Gwnaeth yr aelodau'r sylwadau ychwanegol a ganlyn:-<br>- byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael y penawdau ymlaen llaw i baratoi ymateb manylach. Cytunodd y Prif Weithredwr i ddarparu copi i'r Aelodau ar ôl y cyfarfod.<br>- Teimlai'r aelodau hefyd fod yr ateb yn dibynnu ar bwy oedd yn gofyn y cwestiwn ac y gallai barn allanol amrywio o farn y Prif Weithredwr. Efallai y bydd rhai yn gweld Plas Tan y Bwlch fel ased sy'n draul ar adnoddau'r Awdurdod.<br>2. <u>Beth mae Plas Tan y Bwlch yn ei ddarparu fel adnodd ffisegol?</u><br>- safle i gynnal digwyddiadau ar gyfer y gymuned leol a chymdeithasau<br>- lleoliad ar gyfer digwyddiadau ffurfiol<br>- man cyfarfod<br>- llety<br>- mynediad i'r gerddi a'r coetiroedd<br>Gwnaeth yr aelodau'r sylwadau ychwanegol a ganlyn:-<br>- tra bod y Plas yn ased gyda chyfleoedd helaeth i'r dyfodol, roedd angen sicrhau bod ganddo'r staff cywir a bod gweledigaeth a strategaeth er mwyn iddo fod yn llwyddiant. Gofynnodd yr aelodau ai Parc Cenedlaethol Eryri oedd y sefydliad cywir i wneud hyn. Cytunodd y Prif Weithredwr y dylai fod gan yr Awdurdod sail resymegol dros barhau i reoli'r Ganolfan a nododd fod Archwilio Cymru yn ddiweddar wedi herio sut mae Plas Tan y Bwlch yn cyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol.<br>3. <u>Beth mae perchnogaeth Plas Tan y Bwlch yn ei gynnig i'r Awdurdod?</u><br>- adnodd ar gyfer cyflawni busnes yr Awdurdod<br>- perchnogaeth sector cyhoeddus sy'n gwarchod adeilad rhestredig Gradd II*<br>- mae'n darparu cyfleusterau/adnoddau ar gyfer y gymuned ac fel rhan o ddyletswyddau'r Awdurdod, mae'n darparu dimensiwn lles moesol a chymunedol o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.<br>Gwnaeth yr aelodau'r sylwadau ychwanegol a ganlyn:-<br>- bod Plas Tan y Bwlch hefyd yn cyfrannu at yr economi leol drwy ddarparu cyflogaeth ac yn defnyddio cyflenwyr lleol ac ati.<br>4. <u>A oes angen Plas Tan y Bwlch ar yr Awdurdod i gyflawni ei fusnes</u><br>- nid oedd yn angenrheidiol fel lleoliad cyfarfod gan fod opsiynau eraill megis y Pencadlys.<br>- yr her gan Archwilio Cymru oedd cynnal yr asesiad yn unol â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol:-<br>o Pwrpas 1af - ymylol oedd hyn ar wahân i warchod adeilad rhestredig Gradd II*. Bu Plas Tan y Bwlch yn Ganolfan Astudiaethau Amgylcheddol yn y gorffennol ac wedi derbyn grant i gynnal y gwaith hwn. Nid oedd hyn yn wir bellach gan |

fod y farchnad wedi newid, gyda chyfleoedd ar gyfer mentora yn y gweithle, modiwlau ar-lein, cyrsiau nos ac ati yn cael blaenoriaeth.
  - 2il bwrpas – o bosibl roedd yr Awdurdod mewn sefyllfa gryfach i hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd gyflawni hyn, a
  - gellid cyflawni'r ddyletswydd i gefnogi llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol hefyd.

5. <u>Beth yw rôl Plas Tan y Bwlch o dan reolaeth yr Awdurdod?</u>
- Nid oedd Plas Tan y Bwlch bellach yn Ganolfan Astudiaethau Amgylcheddol.
- gallai fod ganddo rôl i gyflwyno pobl ifanc i'r amgylchedd naturiol, yr iaith, treftadaeth a diwylliant.
- canolfan i grwpiau sy'n cael eu hysbrydoli gan werthoedd arbennig Eryri. e.e. ffotograffwyr, peintwyr ac ati.
- menter er lles – nid oedd Plas Tan y Bwlch wedi manteisio ar y farchnad les.
- canolfan i ddathlu digwyddiadau arbennig fel priodasau.
- o ofod swyddfa y gellid ei osod i'r gymuned / busnesau lleol.
- canolfan i roi ffocws cymdeithasol ar faterion gwerin, megis Tŷ Gwerin yn yr Eisteddfod.

Gwnaeth yr Aelodau a'r swyddogion y sylwadau ychwanegol a ganlyn:-
- roedd llawer o ddiddordeb cyffredinol a dryswch o ran cyrraedd y targed sero net. A ellid defnyddio Plas Tan y Bwlch fel adnodd i helpu'r gymuned a rhoi arweiniad i bobl ynglŷn â grantiau ac ati? Byddai'r rôl hon yn cyd-fynd â phwrpasau statudol a chymunedol yr Awdurdod. Nid oedd yr aelodau a'r swyddogion yn argyhoeddedig bod angen gwneud hyn yn y Plas gan ei bod yn bosibl i swyddog fynd allan i'r gymuned i wneud y gwaith hwn.
- Trafododd aelodau a swyddogion y cyfleoedd a ddarperir gan y cwricwlwm newydd. Roedd angen cael yr adnoddau a'r staff gyda'r cefndir cywir. Hefyd, byddai angen i gyfleoedd gweithgareddau awyr agored gael eu rhedeg fel busnes, o bosibl yn cynnwys mentergarwyr dawnus. Roedd llawer o botensial ar gyfer gweithgareddau awyr agored y profwyd eu bod yn gwella iechyd meddwl, ymyrraeth gynnar ac ati, ond eto ai'r Awdurdod oedd y sefydliad cywir i symud hyn ymlaen. Nid oedd yr aelodau'n dymuno gweld Plas Tan y Bwlch yn symud staff oddi wrth eu rolau craidd.
- cytunodd y Prif Weithredwr i gynnwys rôl bosibl ar gyfer gweithgareddau awyr agored a fyddai'n canolbwyntio ar iechyd meddwl a'r manteision corfforol i bobl ifanc. Byddai hyn yn helpu i greu dinasyddion yn hytrach na darparu addysg.

6. <u>Modelau tebyg</u>
- yr Awdurdod
- Partneriaeth Gymunedol ee gallai Antur Stiniog elwa o gysylltiad Treftadaeth y Byd Plas Tan y Bwlch.
- YHA, sy'n gweithredu ar sail masnachfraint. Efallai y bydd modd rhannu Plas Tan y Bwlch yn ddau fusnes ar wahân drwy redeg y tŷ ar wahân i'r stablau y gellid eu gweithredu fel busnes byncws.
- Mae 'Llety Arall' yng Nghaernarfon hefyd yn ased oedd yn cael ei osod allan a gallai'r Awdurdod elwa o ddysgu mwy o'r fenter fusnes hon.

7. <u>A oedd diddordeb ar y farchnad agored i brynu Plas Tan y Bwlch?</u>
- dywedodd y Rheolwr Eiddo ei fod wedi cysylltu â dau gwmni gwahanol a roddodd ddau amcangyfrif tra gwahanol. 'Roedd o'r farn bod un amcangyfrif yn fwy realistig, gan fod y farchnad yn crebachu yn arbennig ar gyfer tai mawr, er bod marchnad ar gyfer adnodd fel Plas a all gynhyrchu incwm.

| | |
|---|---|
| | Roedd un cwmni'n fwy optimistaidd ac awgrymodd brofi'r farchnad yn y Gwanwyn trwy roi'r eiddo ar werth am bris heriol. Awgrymodd y cwmni arall isafbris i ddenu diddordeb a chreu argraff. Nododd y Prif Weithredwr faint o wariant oedd ei angen i ddod â'r eiddo i fyny i safon, ond ar y cyfan roedd y ddau asiant wedi eu synnu ar yr ochr orau fod Plas Tan y Bwlch mewn cyflwr mor dda. Roeddent hefyd yn gwbl ymwybodol o rwymedigaethau hirdymor o ran y gwaith cynnal a chadw. Roedd y ddau asiant yn rhagweld prynwyr preifat, gyda'r bwriad o barhau fel busnes, gan fod y tŷ yn rhy fawr i fod yn dŷ preifat gyda chymaint o adeiladau allanol.<br>Gwnaeth yr Aelodau a'r swyddogion y sylwadau ychwanegol a ganlyn:-<br>- cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch rhoi'r eiddo ar y farchnad, teimlai'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod angen cyngor cynllunio cyn cyflwyno cais i sicrhau bod yr Awdurdod yn cael gwerth am arian o'r ased. Un pryder oedd y byddai datblygwr yn rhannu'r tŷ yn unedau a'u gwerthu fel fflatiau drud, ac o bosib yn gwneud elw mawr.<br>- roedd un Aelod yn disgwyl i'r gwerth fod yn fwy a chytunodd mai dim ond dau opsiwn oedd ar y bwrdd. Un oedd creu cynllun busnes diwygiedig oedd yn gweddu'n well i bwrpasau'r Awdurdod a dau, llwyddo i gyrraedd y ffigyrau gwerthiant. Yna gallai'r aelodau lunio barn rhwng y ddau. Yn ogystal, byddai swyddogion yn gofyn am gyngor cyn cyflwyno cais i weld beth fyddai'n dderbyniol ar y safle.<br>8. <u>Angen gosod cyllideb realistig os yw Plas Tan y Bwlch yn parhau o dan reolaeth y Awdurdod</u><br>- gan fod y Cynllun Busnes yn dal i gael ei ddatblygu, gofynnwyd i'r Aelodau ystyried yr hyn yr hoffent ei gyflawni ym Mhlas Tan y Bwlch a beth oedd ei werth i'r Awdurdod. Nododd y Prif Weithredwr y gellid dod o hyd i waelodlin o £60k-£70k, ond pe bai'n agosach at £200k - £300k byddai hyn ar draul gwasanaethau eraill.<br>- dywedodd y Prif Weithredwr y bydd yr adolygiad sydd i ddod o'r Strategaeth Rheoli Asedau yn rhoi manylion am gostau cynnal a chadw holl asedau'r Awdurdod a hefyd, sut y dylid eu hariannu.<br>9. <u>Be' nesaf?</u><br>- i ganfod anghenion cyfalaf Plas Tan y Bwlch am y 5 i 10 mlynedd nesaf a datblygu cynllun busnes. Hefyd, i gynnwys anghenion refeniw ar gyfer dibenion yr Awdurdod.<br>- Argymhellodd yr Aelodau y dylid bwrw ymlaen â'r cynllun busnes ar unwaith, a chytunwyd ei bod yn bwysig cyflogi rhywun a allai fod yn wrthrychol ac â gwybodaeth gefndirol o Blas Tan y Bwlch er mwyn datblygu Cynllun Busnes ystyrlon. Roedd hefyd angen deall pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a'r goblygiadau cysylltiedig i'r Awdurdod. Awgrymodd y Prif Weithredwr Mr. Owain Wyn sydd â'r cefndir ac a oedd yn ymwneud â nifer o fentrau twristiaeth a lletai. Hefyd, pe gallai Aelodau argymell unrhyw rai eraill a allai fod â diddordeb, i roi gwybod i'r Swyddog Gwasanaethau Aelodau.<br>- cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai gwerth y gwaith i greu Cynllun Busnes yn is na'r trothwy tendro o £5k.<br>**<u>GWEITHRED</u>**<br>- **y Prif Weithredwr i gynnal sesiwn debyg gyda Chadeirydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a thrafod y penawdau yn fanylach.** |

| | |
|---|---|
| | - **y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i lunio briff a chwilio am ymgynghorwyr, yn ddelfrydol rhywun sydd â chefndir a gwybodaeth am Blas Tan y Bwlch a'r Awdurdod.**<br>- **y Prif Weithredwr i gyflwyno adroddiad i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau yn y dyfodol er mwyn caniatáu trafodaeth fanwl gyda'r holl Aelodau.** |
| 6. | **Adroddiad gan y Pennaeth Eiddo** |
| | Derbyniwyd – Adroddiad llafar gan y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo yn amlinellu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y safle ar hyn o bryd.<br><br>Adroddwyd - nododd yr Aelodau fod gwaith adfer ar y bwtres/parapet yn mynd rhagddo. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo fod y garreg ar y parapet mewn cyflwr gwael a bod yr Ymgynghorydd a'r Tirfesurydd yn bwriadu mynd at Cadw eto i ofyn am ganiatâd i ganiatáu amlen o blwm o amgylch y gwaith carreg i ymestyn oes y garreg, am fod y garreg yn frau, a'r dirywiad yn parhau. Nid oedd yn ymarferol ailosod yr hyn sydd yno eisoes ac nid oedd yn cynnig gwerth am arian. Gellid newid yr addurniadau ar y top i dywodfaen gan nad oedd yn gynaliadwy i wneud y gwaith hwn bob 20 mlynedd.<br><br>**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.** |
| 7. | **CYFRINACHOL: Adroddiad Adolygu Plas Tan y Bwlch** |
| | Cyflwynwyd – Adroddiad gan David Jones Datrys HR Solutions, a gomisiynwyd o ganlyniad i faterion a godwyd gan y staff a'r rheolwr tŷ.<br><br>Adroddwyd – Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod materion wedi codi gyda'r gweithlu ym Mhlas Tan y Bwlch. Roedd rhai staff wedi gadael cyflogaeth yr Awdurdod ers hynny ac mae rhai tensiynau wedi'u lleddfu. Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod hefyd wedi cymeradwyo pecyn diswyddo ar gyfer y garddwr am nifer o resymau gan gynnwys iechyd a diogelwch. Byddai'r Awdurdod yn awr yn cyflogi contractwyr i wneud y gwaith, sy'n fwy diogel i'r Awdurdod o ran rheoli rhwymedigaethau.<br><br>Nododd yr aelodau fod yr adroddiad wedi'i gomisiynu cyn penodiad diweddar Pennaeth y Tŷ ac yn anffodus, nid oedd y penodiad wedi parhau oherwydd nifer o faterion. Ers hynny mae newidiadau wedi eu gwneud i'r strwythur staff, gyda thri phennaeth gwasanaeth yn cael eu creu ar gyfer y prif ffrydiau gwaith, Gweinyddol / Glanhau / Cegin. Yn y tymor byr, byddai'r Pennaeth Adnoddau Dynol yn parhau i gyflenwi dros y cyfnod pontio ond ni allai barhau â'r gwaith hwn am gyfnod amhenodol. Ceisir Rheolwr Tŷ arall cyn gynted â phosibl, a nodwyd hefyd bod rhedeg y Ganolfan fel gwely a brecwast wedi rhoi llawer o straen ar staff gyda'r pris isel yn denu cwsmeriaid gwahanol i'r hyn sy'n arferol i'r Plas. Er bod y fantolen wedi dangos incwm uwch, ni fu erioed yn fwriad rhedeg cyfleuster gwely a brecwast ar gyfer y tymor hir, gan mai model busnes ôl-covid yn unig oedd hwn.<br><br>Nododd yr aelodau fod y Tîm Rheoli wedi trafod a derbyn yr adroddiad a'r argymhellion yn llawn. |
| | **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.** |

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.30**

**EITEM RHIF 3**

| | |
|---|---|
| **BWRDD RHEOLI PLAS TAN Y BWLCH<br>DYDD MERCHER 15 TACHWEDD 2023** | |
| | **<u>Yn bresennol:</u>**<br><br>**Aelodau:**<br>Ms. Tracey Evans<br>Mr. Tim Jones (Cadeirydd)<br>Cyng. Meryl Roberts<br>Emyr Williams<br>Iwan Jones<br><br>**Swyddogion:**<br>Dewi Aeron Morgan, Sian Owen, David Williams, Edward Jones, Nia Murray, Anwen Gaffey, Sarah Roberts.<br><br>Cynghorodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei gofnodi i gynorthwyo i wirio'r cofnodion. |
| 1 . | **Ymddiheuriadau** |
| | Cyng. Annwen Hughes (ex.officio) |
| 2 . | **Datgan Budd** |
| | Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem. |
| 3. | **Cofnodion** |
| | Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar yr 13 Medi 2023, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir. |
| **4.** | **Plas Tan y Bwlch Opsiynau ar gyfer y Dyfodol** |
| | Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr i'r Bwrdd lunio opsiynau ar gyfer dyfodol Plas Tan y Bwlch i'w hystyried gan yr Awdurdod.<br><br>Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad, ac er ei fod yn debyg i gofnodion y cyfarfod blaenorol pan dderbyniodd yr Aelodau adroddiad llafar, teimlai fod angen adroddiad ysgrifenedig ar yr achlysur hwn. Roedd yr adroddiad yn amlygu'r cyfleoedd ym Mhlas Tan y Bwlch, ochr yn ochr â'r baich o ran adnoddau y mae'n ei roi ar yr Awdurdod. Rhoddwyd y cefndir, y costau cyfalaf a refeniw, y materion uniongyrchol, a'r angen i ddatblygu cynllun busnes i egluro sut mae Plas Tan y Bwlch yn cyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol, fel yr argymhellwyd gan Archwilio Cymru fel rhan o'i waith archwilio diweddar ar gynhyrchu incwm. |

| | |
|---|---|
| | Ailedrychodd y Prif Weithredwr ar yr hyn a ystyriwyd yn flaenorol, megis yr hyn y mae perchnogaeth/rheolaeth Plas Tan y Bwlch yn ei ddarparu i'r Awdurdod ac a oes angen Plas Tan y Bwlch ar yr Awdurdod i gyflawni ei fusnes a chwrdd â'i bwrpasau statudol.<br><br>Yn codi wedi hynny, bu Aelodau a swyddogion yn trafod yr her gan Archwilio Cymru drwy asesu sut mae Plas Tan y Bwlch yn cyfrannu at bwrpasau'r Parc Cenedlaethol. Cytunwyd:-<br>- <u>Pwrpas 1[af]</u> – ymylol oedd hyn ar wahân i warchod adeilad rhestredig Gradd II*. Bu Plas Tan y Bwlch yn Ganolfan Astudiaethau Amgylcheddol yn y gorffennol a derbyniodd grant i gynnal y gwaith hwn, ond nid felly mae pethau bellach.<br>- <u>2il bwrpas</u> – o bosibl roedd yr Awdurdod mewn sefyllfa gryfach i hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd a chyflawni ei ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Er, yr oedd nodwyd bod Plas Tan y Bwlch hefyd yn cyfrif am 50% o ôl troed carbon yr Awdurdodac yn effeithio ar ymrwymiad y Parc Cenedlaethol o ran cyflawni sero net.Teimlai'r Aelodau fod yna fusnesau mwy cynaliadwy a allai wneud hynny a darparu'r un gwasanaeth ac o bosibl cyflogi mwy o staff i wneud hynny.<br>- dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod Plas Tan y Bwlch yn denu cynulleidfa wahanol i'r rhai sy'n mwynhau gweithgareddau awyr agored, megis pobl sy'n mwynhau dosbarthiadau peintio a chrefft ac ati, sydd angen ei fesur yn erbyn y gost i'r Awdurdod o ddarparu cyrsiau o'r fath. Gan fod cyllid yn mynd yn llai bob blwyddyn a bod gan yr Awdurdod bwysau ychwanegol i wneud gwaith arall, megis y Cyfarwyddyd Erthygl 4 y bydd angen adnoddau arno, a bydd angen i'r Bwrdd wneud dewisiadau anodd.<br>- Teimlai'r aelodau fel ased bod Plas Tan y Bwlch yn risg i unrhyw sefydliad. Roedd yn bwysig cael cynllun busnes da yn ei le gyda'r staff cywir i'w gyflawni a chan mai dim ond gyda gweithgareddau nad oeddent yn cyd-fynd â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol yr oedd yr Awdurdod wedi gallu cynhyrchu incwm, roedd yn draul parhaus ar adnoddau yn ariannol ac o ran staff, ill dau.<br>- teimlai'r Cadeirydd fod y Bwrdd wedi trafod yr un materion hyn droeon ac nad oedd y cyfeiriad wedi newid. Dylai'r Bwrdd nawr gyflwyno argymhellion i Weithgor Aelodau yn ddi-oed.<br>- nododd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod yr Awdurdod yn gyfrifol am arian cyhoeddus ac y dylai allu dangos y manteision o ran pwrpasau'r Parc Cenedlaethol. Ar hyn o bryd, yr unig fanteision oedd i'r economi leol a chyflogaeth, a'r buddsoddiad mewn cadw adeilad o bwysigrwydd hanesyddol.<br>- cytunodd y Pennaeth Adnoddau Dynol fod Plas Tan y Bwlch yn hynod o ar wahân i'r Awdurdod a'i bwrpasau a bod y staff hefyd yn teimlo hyn. 'Roedd angen cyllid sylweddol i adnewyddu y tu mewn i'r tŷ ac angen cynllun busnes cryf. Mae staff yn derbyn cwynion yn rheolaidd am y carpedi, ystafelloedd ymolchi, bleindiau ac ati, sydd wedi achosi straen ac absenoldebau salwch. Roedd y staff i gyd yn frwd ynghylch Plas Tan y Bwlch, ond fel ag y mae, roedd ymhell o fod yn gallu darparu llety addas i'r cyhoedd.<br>- dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo fod yr incwm blynyddol o £20k o'r cynllun hydro, a sefydlwyd gydag arian ar ôl gwerthu Porth Gwyn, wedi'i glustnodi i uwchraddio a chynnal y gosodiadau a'r ffitiadau mewnol. Gan fod y Ganolfan yn gweithredu ar golled, defnyddiwyd y cyllid i wneud iawn am hyn. Hefyd, gan nad oes gan Blas Tan y Bwlch Gynllun Busnes â ffocws, roedd hyn wedi llesteirio'r gallu i gwblhau asesiad Treftadaeth. |

| | |
|---|---|
| | - nododd Aelod ei siom nad yw cymunedau'r dalgylch yn gwneud mwy o ddefnydd o'r Ganolfan a bod cyflwr mewnol y tŷ wedi gwaethygu.<br>- Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion opsiynau ar gyfer y dyfodol yn fanwl a chytunwyd mai'r opsiwn a ffefrir fyddai gweithio mewn partneriaeth neu sefydlu trefniant rhyddfraint gyda sefydliad arall megis YHA. Yn codi wedi hynny, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y gallai'r costau cynnal a chadw arfaethedig o £3 miliwn dros y 10 mlynedd nesaf fod yn ormod o rwymedigaeth i ddarpar bartneriaid, er pe bai cais loteri Cyngor Gwynedd ar gyfer dynodiad Treftadaeth y Byd Dyffrynnoedd Llechi yn llwyddiannus, gallai hyn gyfrannu at welliannau cyfalaf ym Mhlas Tan y Bwlch a lleddfu pryderon unrhyw ddarpar bartneriaid.<br>- gofynnodd Aelod i swyddogion ystyried trosglwyddo'r ased i grŵp cymunedol. Cytunodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y gellid ystyried hyn ond byddai hyn yn gadael y gost o gynnal a chadw'r adeilad gyda'r Awdurdod.<br>- os bydd dod o hyd i bartneriaeth yn methu, yr opsiwn nesaf fyddai gwerthu Plas Tan y Bwlch ar y farchnad agored. Nododd y Bwrdd y gost flynyddol barhaus i'r Awdurdod ond rhoddwyd sicrwydd iddynt fel yr awdurdod cynllunio lleol y gallai Aelodau gadw elfen o reolaeth dros unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol. Bydd trafodaethau pellach ar ddosbarthiadau defnydd yn cael eu cynnal gyda'r Gwasanaeth Cynllunio.<br>- dywedodd y Pennaeth Eiddo fod prisiwr yr asedau yn teimlo bod gwerth Plas Tan y Bwlch wedi'i gyfyngu gan faint ôl troed y tir o'i gwmpas, a hefyd mae'r cyfrifon yn dangos bod y Ganolfan wedi methu â gwneud elw.<br>- cytunodd holl Aelodau'r Bwrdd nad yw Plas Tan y Bwlch bellach yn bodloni anghenion yr Awdurdod nac yn cyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol. Dylai swyddogion nawr gyflwyno adroddiad i gyfarfod y Gweithgor Aelodau ym mis Ionawr 2024 yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y Bwrdd i ddod i'w gasgliad.<br>- cytunodd y swyddogion y byddai'r adroddiad hefyd yn rhoi amcangyfrif o'r gost o gadw'r adeilad o'r neilltu.<br>**<u>GWEITHRED</u>**<br>- **y Prif Weithredwr i gyflwyno adroddiad i gyfarfod y Gweithgor Aelodau ym mis Ionawr 2024 yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y Bwrdd i ddod i'w gasgliad. Dylai'r adroddiad argymell bod swyddogion yn defnyddio dull deuol wrth chwilio am bartneriaid / masnachfraint / grwpiau cymunedol posibl dros fisoedd y gaeaf, ochr yn ochr â pharatoadau i werthu'r Ganolfan ar y farchnad agored yn y gwanwyn, pe na bai partneriaeth yn cael ei chanfod. Dylai swyddogion nodi'n glir mai 2024 fydd y flwyddyn olaf y byddai'r Awdurdod yn ceisio ffurfio partneriaeth oni bai bod hyn yn cynorthwyo partner posibl.**<br>- **yn dilyn yr adroddiad i Weithgor yr Aelodau ym mis Ionawr 2024, i gyflwyno adroddiad pellach o gyfarfod yr Awdurdod ym mis Chwefror 2024 ar gyfer penderfyniad ffurfiol.** |
| 5 . | **Diweddariad ar Ffabrig yr Adeilad** |
| | Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo i roi diweddariad ar y cynnydd a wnaed.<br><br>Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo yr adroddiad ac amlinellodd y gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yn fanwl. Cadarnhaodd hefyd fod y ddau gwmni y cysylltwyd â hwy ynglŷn â marchnata'r eiddo wedi argymell cynnig y stad gyfan fel un uned, gan gynnwys y tir o amgylch y prif adeilad a Llyn Mair. Cadarnhaodd, yn dilyn |

| | |
|---|---|
| | gosod seiffon newydd yng Nghronfa Ddŵr Llyn Mair, y bydd yr holl fesurau er budd diogelwch yn gyflawn, a bydd y gronfa ddŵr yn y cyflwr gorau posibl yn barod ar gyfer unrhyw benderfyniad yn y dyfodol.<br><br>**PENDERFYNWYD**<br>**1. nodi opsiwn a ffefrir (b) ar gyfer atgyweirio wal barapet y talcen dwyreiniol a rhan o'r drychiad cefn cysylltiedig, gan ei fod yn darparu gwerth gorau am arian yn y tymor hir.**<br>**2. nodi'r gwahaniaeth mewn asesiadau gwerth a nodi costau cynnal a chadw hirdymor yr adeilad a'r eiddo yn ei gyfanrwydd wrth ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol.** |

**Daeth y cyfarfod i ben am 13.40**